

# YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
2002/03

ASIANTAETH SAFONAU BWYD

ASIANTAETH
SAFONAU
BWYD

# Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
# 2002/03

Cyflwynwyd gerbron y Senedd o dan Adran 4 Deddf Safonau Bwyd 1999
Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu 25 Mawrth 2003
LLUNDAIN: Y Llyfrfa

HC No. 424
SE/2004/9
NIA/12/03

£30.50



ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
2002/03

# CYNNWYS ADRODDIAD BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Rhagair y Prif Weithredwr | 2 |
| Strwythur yr Asiantaeth Safonau Bwyd | 4 |
| Bwrdd a Phrif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd | 6 |
| 1 Ynglŷn â'r Asiantaeth Safonau Bwyd | 12 |
| 2 Hyder gwell ymhlith defnyddwyr | 16 |
| 3 Diogelwch a safonau bwyd gwell | 20 |
| 4 Gwell dewis a deiet i ddefnyddwyr | 26 |
| 5 Ffyrdd mwy effeithiol ac effeithlon o weithio | 31 |
| Atodiad 1: Cwynion a gafwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn 2002/03 | 35 |
| Atodiad 2: Rhestr termau | 36 |
| Cyfrifon adnoddau cyfunol yr Asiantaeth Safonau Bwyd 2002/03 | 38 |

# Rhagair y Prif Weithredwr



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002/03 yr Asiantaeth Safonau Bwyd gerbron Senedd San Steffan, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Gweithrediaeth yr Alban. Mae hyn yn cwmpasu trydedd flwyddyn o weithgarwch yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac mae'n nodi yr hyn yr ydym wedi'i wneud i ddiogelu iechyd y cyhoedd a budd defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

Cyhoeddwyd ein Cynllun Strategol ar gyfer 2001/06 ym mis Mai 2001. Nododd ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer: diogelwch bwyd; gwybodaeth, labelu a dewis i'r cyhoedd; maethiad a deiet; a gorfodi cyfraith bwyd dros gyfnod o bum mlynedd. Yn ystod 2001/02, cyflawnwyd un o'n prif dargedau o ran diogelwch bwyd – sef lleihau lefel haentiad salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu fwy na 50%.

Rydym bellach yn canolbwyntio ar un o'r prif bethau eraill sy'n achosi clefydau a gludir gan fwyd – campylobacter. Campylobacter yw'r prif beth sy'n achosi salwch a gludir gan fwyd yn y wlad hon a cheir tystiolaeth gref bod cyw iâr yn un o'r prif ffynonellau. Felly datblygwyd strategaeth ar gyfer rheoli campylobacter mewn ieir yn gynharach eleni ac fe'i cyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ym mis Mehefin. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar wella mesurau hylendid ar y fferm ac yn ystyried opsiynau ar gyfer rheoli mewn gweithfeydd prosesu dofednod.

Mae ein Hymgyrch Hylendid Bwyd dros bum mlynedd, a lansiwyd yn 2002, gan ddefnyddio hysbysebion ar y teledu, ar y radio ac yn y wasg, yn parhau i fod yn un o'n prif weithgareddau. Dengys gwerthusiad cynhwysfawr o weithgaredd ymgyrchu fod y negeseuon yn dechrau cael effaith a bod ymwybyddiaeth yn codi. Anfonwyd fideo hyfforddi at bob arlwywr ar ein cronfa ddata (dros 300,000 o fusnesau). Mae'r fideo hon wedi ennill sawl gwobr fawr a bu'n boblogaidd iawn ymhlith arlwywyr a hyfforddwyr hylendid bwyd.

Amlygodd trydydd arolwg yr Asiantaeth Safonau Bwyd o agweddau defnyddwyr tuag at fwyd a gynhaliwyd yn 2003 nifer o faterion. Ymhlith y nodweddion pwysicaf mae lleihad bach ond cyson yn y pryderon am ddiogelwch cig a gostyngiad sylweddol yn y pryderon am fathau o fwyd megis cig eidion, porc, cig oen a chig amrwd o'u cymharu â thair blynedd yn ôl.

Mae hyder yn y rôl a gaiff ei chwarae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cynyddu'n sylweddol hefyd, ac mae 60% o ddefnyddwyr erbyn hyn yn nodi eu bod yn hyderus iawn neu'n weddol hyderus yn rôl yr Asiantaeth wrth ddiogelu iechyd mewn perthynas â diogelwch bwyd, sef cynnydd cyffredinol o 10% ers 2000.

Mae'r Asiantaeth yn gweithredu o dan dair egwyddor arweiniol: rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf, bod yn agored ac yn hygyrch, a bod yn llais annibynnol. Rydym yn cyfarfod â defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill yn rheolaidd er mwyn eu galluogi i allu cyfrannu at ddatblygu polisi'r Asiantaeth. Eleni, er enghraifft, cynhaliwyd dau gyfarfod â rhanddeiliaid GM; un yn Llundain, a'r llall yn Stirling; a chynhaliodd y Pwyllgor ar Wenwynder Cemegion mewn Bwyd, Cynhyrchion Defnyddwyr a'r Amgylchedd gyfarfod agored i roi cyfle i ddefnyddwyr drafod ei adroddiad drafft ar effaith cymysgeddau o blaladdwyr a milfeddyginiaethau.

Mae'r Asiantaeth yn arloesol yn y ffordd y mae'n cyrraedd defnyddwyr. Mae ein gwefan yn gyfrwng cynyddol bwysig ar gyfer cyfathrebu â'n rhanddeiliaid. Mae nifer yr ymweliadau â'r wefan www.food.gov.uk yn 2002 (cyfartaledd misol o bron 664000 o ymweliadau rhwng mis Mai a mis Hydref 2002) yn parhau i gynyddu yn 2003 ac mae'n debyg i wefannau gwasanaethau cyhoeddus pwysig eraill erbyn hyn megis NHS Direct. Ar gyfer ein hymateb i'r astudiaeth ar y Comisiwn Polisi ar Ffermio a Bwyd, defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i gasglu barn pobl gan gynnwys gwefan ryngweithiol benodedig, arolwg barn, grwpiau ffocws, gweithdai senario gyda defnyddwyr sydd ar incwm isel, seminarau rhanbarthol a fforwm ieuenctid. Cyflwynwyd ein hymateb i'r Comisiwn ym mis Tachwedd 2001.

Rydym wedi parhau i weithio i sicrhau bod defnyddwyr yn deall beth yw deiet cytbwys iach, ac i annog pobl i fwyta'n unol â hynny. Rydym hefyd wedi gweithio'n galed i ddilyn cynllun gweithredu a gynlluniwyd i gyflawni'r amcanion a nodwyd yn Strategaeth Maethiad yr Asiantaeth. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Adrannau Iechyd ym mhedair rhan y Deyrnas Unedig, adrannau eraill y Llywodraeth ac awdurdodau lleol o ran deiet a maethiad. Mae Fforwm Maethiad yr Asiantaeth, Fforwm Deiet a Maethiad yr Alban a gweithdai o randdeiliaid Cymru oll yn chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu mentrau unigol ledled y DU.

Mae awdurdodau lleol yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Asiantaeth i sicrhau na pheryglir iechyd y cyhoedd gan fygythiadau i ddiogelwch bwyd. Er enghraifft, eleni, cyfrannodd awdurdodau lleol at sicrhau bod deddfwriaeth frys yr UE, ar atal cynhyrchion yn tarddu o anifeiliaid o China a allai gynnwys gweddillion cyffuriau milfeddygol peryglus, yn cael ei rhoi ar waith yn gyflym ac yn effeithiol.

Ein Hasiantaeth Weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS), yw'r awdurdod gorfodi mewn perthynas â hylendid mewn lladd-dai, safleoedd torri a storfeydd oer trwyddedig. Mae'r MHS yn parhau i fod yn wyliadwrus, gan sicrhau nad yw cig anaddas na chig anghyfreithlon yn ymuno â'r gadwyn fwyd ar gyfer pobl.



**Dr Jon Bell**
**Ionawr 2004**

# Strwythur
## yr Asiantaeth Safonau Bwyd

**Yr Athro Syr John Krebs**
Cadeirydd

**Dr Jon Bell**
Prif Weithredwr

**Julia Unwin**
Dirprwy Gadeirydd

**Aelodau'r Bwrdd**
Dr Sati Ariyanayagam
Richard Ayre
Chrissie Dunn
Michael Gibson
Ann Hemingway
Y Farwnes Valerie Howarth
Iain MacDonald
Yr Athro Andrew Miller
Robert Rees
Vernon Sankey
Sandra Walbran
Michael Walker

**David Statham**
Cyfarwyddwr
Gorfodi a Safonau Bwyd

**Chris Lawson**
Prif Weithredwr
Gwasanaeth Hylendid Cig

**Dr Debby Reynolds**
Cyfarwyddwr Milfeddygol

**Alan Harvey**
Adran BSE

**Tim Foster**
Adran Hylendid Cig

**Peter Hewson**
Adran Gwyddor a Strategaeth Cig

**Anthony Greenleaves**
Adran Gweithrediadau Iechyd Cyhoeddus Milfeddygol

**Rosemary Hignett**
Adran Labelu a Safonau Bwyd

**Ann Goodwin**
Adran Gorfodi Awdurdodau Lleol

**Sarah Appleby**
(Pennaeth Adran Dros Dro)
Adran Bwyd a Fewnforir

**Pat Stewart**
Dirprwy Brif Weithredwr
a Chyfarwyddwr Adnoddau
a Strategaeth Gorfforaethol

**Allan Hutton**
Adran Cyllid, Caffael a TG

**Brian Davies**
Adran Personél a Staff

**Barbara Richards**
Ysgrifenyddiaeth Gorfforaethol, Defnyddwyr ac Adran Ryngwladol

**Derrick Jones**
Adran Economeg a Dadansoddi

**Julie Norman/David Atkins**
Uned Datblygu Strategol

**Dr Alison Gleadle**
Swyddfa Breifat

**Dr Andrew Wadge**
Cyfarwyddwr
Polisi Diogelwch Bwyd

**Nick Tomlinson**
(Pennaeth Adran Dros Dro)
Adran Diogelwch Cemegol a Gwenwyneg

**Dr Judith Hilton**
Adran Diogelwch Microbiolegol

**Dr Richard Burt**
Adran Diogelwch Radiolegol a Rheoli Ymchwil

**Tom Murray**
Adran Maethiad

**Bill Knock**
(Pennaeth Adran Dros Dro)
Adran Difwynwyr a Phorthiant Anifeiliaid

**Clair Baynton**
(Pennaeth Adran Dros Dro)
Adran Bwydydd Newydd

**Dr Richard Harding**
Adran Strategaeth y Gadwyn Fwyd

**Neil Martinson**
Cyfarwyddwr Cysylltiadau

**David Dunleavy**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol

**Dr George Paterson**
Cyfarwyddwr FSA yr Alban

**Steve Wearne**
Cyfarwyddwr Interim FSA Cymru

**Morris McAllister**
Cyfarwyddwr FSA Gogledd Iwerddon

# Aelodau Bwrdd
## yr Asiantaeth Safonau Bwyd

### Syr John Krebs FRS – Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd



Ers 1998 bu'n Athro Ymchwil y Gymdeithas Frenhinol yn yr Adran Söoleg ym Mhrifysgol Rhydychen, lle y mae'n Gymrawd Coleg Penfro hefyd. Mae wedi dal swyddi hefyd ym Mhrifysgol Colombia Brydeinig a Phrifysgol Cymru, Bangor. Mae Syr John yn wyddonydd enwog yn fyd-eang yn sgîl ei ymchwil ar ymddygiad ac ecoleg anifeiliaid.

Rhwng 1994 a 1999, bu Syr John yn Brif Weithredwr Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol. Mae Syr John yn Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol, yn aelod o Academia Europea, yn Aelod Tramor o'r Gymdeithas Athronyddol Americanaidd, yn aelod o Gymdeithas Max Planck, yn aelod Anrhydeddus o Gymdeithas Ecolegol Prydain ac yn Aelod Tramor Anrhydeddus o Academi Americanaidd y Celfyddydau a'r Gwyddorau. Ymhlith y gwobrau a gafodd am ei waith gwyddonol mae: Medal Wyddonol, Cymdeithas Söolegol Llundain; Medal Frink, Cymdeithas Söolegol Llundain; Medal Cymdeithas Astudio Ymddygiad Anifeiliaid; Medal Ddeucanmlynyddol; Cymdeithas Linneaidd Llundain; Gwobr Elliot Coues, Undeb Adaregwyr Americanaidd. Mae wedi cael graddau anrhydeddus o'r prifysgolion canlynol: Birmingham, Caerwysg, Caint, Cranfield, Plymouth, Sheffield, Stirling, Cymru, Warwig.

### Julia Unwin OBE – Dirprwy Gadeirydd



Mae Julia Unwin wedi gweithio yn y sector gwirfoddol, ac mewn llywodraeth leol a llywodraeth ganolog hefyd, ac mae llawer o brofiad ganddi o hyrwyddo a datblygu budd y cyhoedd ym maes polisi cymdeithasol. Mae'n aelod o Fwrdd y Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol, yn Ddyfarnwr Annibynnol ar gyfer y Comisiwn Archwilio ac yn aelod o Bwyllgor Gorchwyl Friends Provident.

Mae hefyd yn aelod annibynnol o Fwrdd yr Adran Masnach a Diwydiant. Bu'n Gomisiynydd Elusennau rhwng 1998 a mis Ebrill 2003, bu'n aelod o Fwrdd y Gorfforaeth Tai am fwy na deng mlynedd, a bu'n Gadeirydd ei Bwyllgor Buddsoddiadau hefyd. Bu hefyd yn Gadeirydd y Cyngor Ffoaduriaid tan 1998.

Gan weithio'n llawrydd, bu'n cynghori ymddiriedolaethau a chwmnïau sy'n rhoi grantiau ac mae wedi gwneud a chyhoeddi ymchwil i'r ffordd yr ariennir y sector gwirfoddol. Fel ymgynghorydd, mae wedi arbenigo mewn materion yn ymwneud â rheolaeth a strategaeth drefniadol.

Fel Uwch Aelod Cyswllt y corff polisi iechyd a chymdeithasol annibynnol, Cronfa'r Brenin, cadeiriodd ymchwiliad yn ddiweddar i rôl gweithwyr gofal a gweithwyr cymorth a'r broses o'u recriwtio.

## Ann Hemingway

Ann Hemingway yw Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol dros Gymru a hi yw Dirprwy Gadeirydd Dros Dro yr Asiantaeth ar hyn o bryd. Mae Ann yn wraig fusnes brofiadol sy'n gymwys mewn Economeg y Cartref a Marchnata. Cafodd brofiad ar ddechrau ei gyrfa ym maes cyhoeddusrwydd ar gyfer y diwydiant melino cyn iddi symud i Nwy Prydain, mewn rôl farchnata i ddechrau gan ddefnyddio ei chefndir mewn economeg y cartref ond gan ymgymryd â swyddi uwch reoli yn ddiweddarach ym meysydd technoleg gwybodaeth, personél a rheolaeth gyffredinol o weithrediadau gwasanaethau cwsmeriaid. Chwaraeodd ran bwysig yn y gwaith o ddatblygu'r cyfeiriad newydd i Nwy Prydain o breifateiddio i ddadgyfuno, gan arwain y tîm rheoli a oedd yn gyfrifol am wasanaeth cwsmeriaid ar gam cyntaf y gystadleuaeth nwy. Ar hyn o bryd, mae'n chwarae rhan anweithredol yn natblygiad strategol Gwasanaethau Gyrwyr a Gweithredwyr Cerbydau'r Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau.

## Michael Gibson

Mae Michael Gibson yn Rheolwr-gyfarwyddwr cwmni cig teuluol bach, Macbeth's Butchers, sy'n cyflogi pum aelod o staff llawn amser a thri aelod o staff rhan amser. Mae'n rhedeg y cwmni hwn ar y cyd ag Edinvale Farms, sy'n cynnwys 900 o erwau o dir fferm a rhyw 600 o wartheg. Michael Gibson yw Cadeirydd Pwyllgor Amaethyddol Ffederasiwn Perchnogion Tir yr Alban. Ers 1996 mae wedi cydlynu gwaith y Ffederasiwn o drin BSE a phob mater yn gysylltiedig â chig coch. Ar hyn o bryd mae'n arwain menter yr Alban ar gymorth i Ardaloedd Llai Ffafriol ar y cyd â Sefydliad Macauley dros Ymchwil i'r Defnydd o Dir. Mae hefyd yn aelod o Bartneriaeth Amaethyddol yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd, sef grŵp newydd sy'n cynnwys awdurdodau lleol, cwmnïau menter, sefydliadau cynhyrchwyr, a grwpiau amgylcheddol sy'n cynghori gwleidyddion a gweision sifil ar faterion lleol. Yn ei rôl fel Uwch Faeswr i Gymdeithas Gwartheg yr Ucheldiroedd, mae Mr Gibson yn rhoi cyngor i fridwyr ar fwydo, marchnata, polisi bridio a hwsmonaeth gyffredinol yn ogystal â llunio polisi'r Gymdeithas ar ddatblygu bridiau.

## Yr Athro Andrew Miller

Mae'r Athro Andrew Miller yn fioffisegydd sydd â diddordeb yn strwythur a threfniant molecylau mewn ffeibrau biolegol yn arbennig colagen, ceratin a chyhyr. Mae wedi treulio dwy ran o dair o'i yrfa mewn prifysgolion ac un rhan ohoni mewn labordai ymchwil a ariennir yn gyhoeddus, yn bennaf yn y DU ond hefyd yn Awstralia, Ffrainc ac UDA. Mae canlyniadau ymchwil i fioffiseg folecylaidd yn berthnasol i broblemau mewn meddygaeth, amaethyddiaeth a'r diwydiant bwyd. Helpodd i ddatblygu'r broses o gymhwyso dulliau ffisegol, yn arbennig pelydriad syncrotronau a gwasgaru niwtronau i fioleg. Ef oedd Pennaeth cyntaf y Labordy Bioleg Folecylaidd Ewropeaidd yn Ffrainc o 1975-80 ac ef oedd Cyfarwyddwr Ymchwil cyntaf y Cyfleuster Pelydriad Syncrotronau Ewropeaidd yn Grenoble, Ffrainc o 1986-91. O 1994-2001, ef oedd Prifathro ac Is-ganghellor Prifysgol Sterling ac o 2001-2002 ef oedd Prif Weithredwr Interim Cancer Research UK lle y goruchwyliodd y broses o gyfuno ICRF a CRC i greu'r elusen ganser fwyaf yn y byd. Ar hyn o bryd, ef yw Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas Frenhinol Caeredin.

## Michael Walker – Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Bwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon

Fel partner mewn cwmni preifat o gemegwyr ymgynghorol achrededig UKAS, ef yw Dadansoddwr Cyhoeddus preswyl Gogledd Iwerddon. Mae'r Dadansoddwr Cyhoeddus yn darparu labordy rheoli bwyd swyddogol ar gyfer Awdurdodau Lleol. Ymhlith y pethau y mae'n delio â hwy mae gwasanaethau gorfodi cemegol mewn perthynas â chyfansoddiad bwyd, ychwanegion, difwynwyr, labelu a chwynion defnyddwyr. Fe'i penodwyd i'r Cyngor Defnyddwyr Cyffredinol (Gogledd Iwerddon) ym mis Chwefror 1999, ac ef yw cynullydd Grwpiau Bwyd ac Addysg Defnyddwyr ar y cyd y Cyngor. Mae hefyd yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol corff gweithredu'r ynys gyfan Bwrdd Hybu Diogelwch Bwyd. Mae ei gefndir academaidd ym maes cemeg ac mae'n gymrawd y Gymdeithas Frenhinol Cemeg ac yn aelod o Sefydliad Gwyddor Bwyd a Thechnoleg.

## Dr Sati Ariyanayagam

Mae Dr Sati Ariyanayagam yn Feddyg Ymgynghorol, yn Gadeirydd Pwyllgor yr Uwch Staff Meddygol yn Ysbyty Oldchurch yn Essex ac yn gynrychiolydd corff ymgynghorol cyffredinol gyda Phwyllgor Ymgynghorol Gogledd Tafwys ar Wobrau Rhagoriaeth. Mae'n Ynad Heddwch i Adran yr Arglwydd Ganghellor ac mae'n Llywodraethwr Rheoli hefyd yn Ysgol Ramadeg King Edward VI yn Chelmsford. Mae Dr Ariyanayagam yn hyrwyddo buddiannau'r defnyddiwr. Fel aelod o'r Gymdeithas Defnyddwyr ers blynyddoedd lawer, mae diddordeb brwd ganddo mewn materion moesegol yn ymwneud â "Budd y Cyhoedd". Mae'n aelod o sawl Pwyllgor gan gynnwys Paneli Ymddygiad Proffesiynol a Pherfformiad y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae wedi cyfrannu'n rheolaidd i'r Comisiwn Gwella Iechyd (CHI) fel Adolygwr Llywodraethu Clinigol, i'r Gronfa Gymunedol fel Aseswr Ymchwil Allanol ac i'r Pwyllgor Moeseg Amlganolfan Rhanbarth y Dwyrain fel arbenigwr proffesiynol. Fel aelod o'r Pwyllgor ar Wenwyneg a'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ymchwil, mae Dr Ariyanayagam wedi chwarae rhan frwd drwy gynrychioli agenda Budd y Cyhoedd yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd dros y ddwy flynedd diwethaf.

## Richard Ayre

Mae Richard Ayre yn ymgynghorydd mewn moeseg y cyfryngau a rheoli darlledu. Ef oedd Dirprwy Brif Weithredwr BBC News tan 2000 a chyn hynny ef oedd Rheolwr Polisi Golygyddol y BBC, yn gyfrifol am safonau golygyddol a moesegol holl raglenni'r BBC. Mae bellach yn cynghori sefydliadau'r cyfryngau yn y DU a thramor ac yn hyfforddi newyddiadurwyr ifanc, yn enwedig yn nemocratiaethau newydd dwyrain Ewrop. Ef yw Dyfarnwr Rhyddid Gwybodaeth Cymdeithas y Cyfreithwyr, ac mae'n ymddiriedolwr ac yn aelod o fwrdd rhyngwladol *Article 19*, sef elusen yn Llundain a Johannesburg sy'n gweithio ledled y byd i annog rhyddid mynegiant a brwydro yn erbyn sensoriaeth.

## Christine (Chrissie) Dunn

Christine Dunn oedd un o sylfaenwyr Danby's Foods Limited, a hi oedd y Rheolwr-gyfarwyddwr tan 2002. Mae Danby's Foods yn gweithgynhyrchu prydau bwyd parod oer ac wedi'u rhewi, gyda'u label a'u brand eu hunain ar gyfer y sectorau manwerthu a gwasanaethau bwyd yn y DU a Gogledd Ewrop. Mae Mrs Dunn yn meddu ar wybodaeth gynhwysfawr o bob cam o'r broses cynhyrchu bwyd a'r gadwyn gyflenwi, o waith cynhyrchu sylfaenol, prosesu eilaidd a dosbarthu i werthu i ddefnyddwyr drwy farchnadoedd manwerthu a gwasanaethau bwyd. Yn benodol, mae gwybodaeth helaeth ganddi mewn perthynas â materion diogelwch bwyd a safonau sicrwydd ansawdd. Bu Mrs Dunn yn Gyfarwyddwr Cyswllt Busnes Caerefrog a Gogledd Swydd Efrog o 1996-1999 ac ar hyn o bryd mae'n Aelod o Gyngor Bwyd o Brydain.

## Y Farwnes Howarth o Breckland (Valerie Howarth)

Tan fis Gorffennaf 2001 roedd y Farwnes Howarth o Breckland yn Brif Weithredwr yr elusen ChildLine, y llinell gymorth genedlaethol am ddim i blant mewn trafferth neu berygl. O dan ei harweinyddiaeth, mae ChildLine wedi helpu a chynghori dros un filiwn o blant a phobl ifanc ers iddi agor yn 1986 a datblygodd yr elusen o brosiect bach yn Llundain i fod yn elusen i blant yn y DU gyfan. Gweithiwr cymdeithasol ydyw, a gweithiodd yng Nghymdeithas Lles y Teulu, Bwrdeistref Lambeth yn Llundain ac yna Brent lle y gweithiodd fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ystod y cyfnod hwn, bu'n aelod o sawl gweithgor a chadeiriodd nifer o grwpiau gwasanaethau gofal plant. Hi oedd cynrychiolydd cyntaf y DU ar Fforwm Lles Plant Ewrop, un o aelodau sylfaen a Chadeirydd cyntaf Cymdeithas Llinellau Cymorth dros y Ffôn, a sefydlodd Brosiect Digartrefedd King's Cross a Fforwm Digartrefedd Llundain. Mae wedi cymryd rhan arweiniol wrth newid y gyfraith mewn perthynas â Thystion sy'n Blant ac mae'n aelod o Grŵp Llywio Quality Protects yr Adran Iechyd. Mae wedi treullo dros ddeng mlynedd ym maes diogelu defnyddwyr a phennu safonau fel aelod o'r Pwyllgor Annibynnol ar gyfer Goruchwylio Systemau Gwybodaeth dros y Ffôn (ICSTIS). Hi yw Is-gadeirydd Cymdeithas John Grooms ar gyfer Pobl Anabl, Is-gadeirydd Sefydliad Faithfull, sef sefydliad sy'n trin y rhai sy'n cam-drin plant ac Ymddiriedolwr Sefydliad Seiff. Mae'n cadeirio'r ymgyrch 'Stop It Now', sef sefydliad partneriaeth sy'n ymwneud ag addysg o ran cam-drin plant. Ym mis Chwefror 2000 fe'i penodwyd yn aelod o Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac mae'n aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Hylendid Cig. Ym mis Chwefror 2001 ymunodd â Bwrdd y Comisiwn Safonau Gofal Cenedlaethol. Dyfarnwyd O.B.E iddi yn 1999 a daeth yn Farwnes Howarth o Breckland yn ystod Haf 2001, sef un o'r arglwyddi cyntaf i'w penodi gan y comisiwn newydd.

## Iain Macdonald

Mae Iain MacDonald yn hunangyflogedig ar hyn o bryd fel ymgynghorydd rheoli a Syrfëwr Siartredig. Mae'n Gymrawd Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig ac yn Aelod o'r Sefydliad Rheoli ac yn Aelod o Sefydliad Refeniw, Ardrethu a Phrisio. Mae'n gyn Brif Weithredwr Awdurdod Lleol ac yn uwch reolwr profiadol iawn gyda chryn brofiad o newid a rheolaeth fusnes yn y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sector preifat. Ei rôl ddiweddaraf oedd fel Gweinyddwr Dinesig y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Dinas Pristina yn Kosovo, gan gyfuno rôl Maer, Arweinydd y Cyngor a Phrif Weithredwr y Ddinas. Mae gan Mr MacDonald brofiad helaeth o fod yn aelod o Fyrddau a Phwyllgorau ac o gadeirio cyfarfodydd. Bu'n Llywydd cenedlaethol a Chadeirydd cenedlaethol nifer o gymdeithasau proffesiynol ac ar hyn o bryd mae'n aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Hylendid Cig yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

## Robert Rees

Mae Robert Rees yn gogydd hunangyflogedig ac yn berchennog bwyty o Bisley, Swydd Gaerloyw. Mae ganddo brofiad helaeth o arlwyo. Ar hyn o bryd ef yw cogydd preswyl Marchnadoedd Ffermwyr Stroud, gan goginio cynnyrch ffres tymhorol a lleol. O 1993 tan 2000 rhedodd fwyty o'r enw The Country Elephant yn Painswick. Mae wedi gweithio hefyd mewn bwytai yng Nghaerfaddon, yn Ynysoedd Grand Cayman (India'r Gorllewin) ac yn Le Gavroche, un o'r bwytai mwyaf ffasiynol yn Llundain. Mae wedi'i gynnwys mewn llawer o lawlyfrau rhyngwladol ar gyfer bwytai, gan gynnwys Michelin Guide (Gourmande and Red Meal Award); Taste of the West Country; Good Food Guide; Egon Ronay Guide; Ackerman Guide; a Dau Roséd AA am bedair blynedd yn olynol. Mae Robert yn cyfrannu'n gyson i raglenni Central Television a BBC Radio Gloucestershire. Mae'n un o gyflogeion rhan amser Coleg Celfyddydau a Thechnoleg Swydd Gaerloyw lle y mae'n gynghorydd hyfforddi, aseswr a darlithydd yn yr Adran Letygarwch lle y mae'n ymwneud â Phrentisiaethau Modern, cynlluniau Hyfforddedigion Cenedlaethol a hyfforddiant seiliedig ar waith. Mae Robert hefyd yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Addysg Busnes Stroud, ac mae wedi gweithio gyda Thwristiaeth Swydd Gaerloyw yn hyrwyddo bwydydd lleol. Mae Robert yn gwneud llawer o waith gyda phlant a phobl ag anghenion arbennig gwahanol.

## Vernon Sankey

Ar hyn o bryd Vernon Sankey yw Cyfarwyddwr anweithredol Pearson ccc a Zurich Financial Services AG (Swiss). Ef yw Cadeirydd y Really Effective Development Company Cyf a Dirprwy Gadeirydd Photo-Me International ccc a Beltpacker ccc. Mae hefyd yn aelod o Fyrddau Ymgynghorol nifer o gwmnïau yn y DU a thramor. O 1992 i 1999 ef oedd Prif Weithredwr Reckitt & Colman ccc, ar ôl treulio 28 o flynyddoedd gyda'r cwmni hwnnw mewn nifer o swyddogaethau a gwledydd ac ef oedd Cadeirydd Thomson Travel Group ccc hefyd. Mae Vernon yn gyn aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Cwmnïau Rhestredig Cyfnewidfa Stoc Llundain, yn gyn aelod o Fwrdd Grocery Manufacturers of America ac yn gyn aelod o Gyngor Ffederasiwn Bwyd a Diod y DU.

## Sandra Walbran

Cyflogir Sandra Walbran ar hyn o bryd fel Rheolwr Bwyd ac Iechyd a Diogelwch Cyngor Dosbarth South Lakeland. Mae profiad helaeth ganddi ym maes Iechyd yr Amgylchedd, yn arbennig o ran diogelwch bwyd ac mae profiad gweithredol hirsefydlog ganddi o reoli. Ar hyn o bryd mae'n cynrychioli rhanbarth Cumbria o Grŵp Ffocws Hylendid Bwyd LACORS a Grŵp Polisi Bwyd LACORS ac mae'n chwarae rhan fawr yn y broses o lunio canllawiau cenedlaethol ar lawer o faterion yn ymwneud â diogelwch bwyd.

## Dr Jon Bell – Dirprwy Gadeirydd



Dr Jon Bell yw Prif Weithredwr a Phrif Gynghorydd Gwyddonol yr Asiantaeth. Cyn cael ei benodi ef oedd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Polisi Diogelwch Bwyd ac ef oedd y Prif Weithredwr Dros Dro o fis Rhagfyr 2002. Ymunodd Jon Bell â'r Asiantaeth pan gafodd ei sefydlu yn 2000 yn dilyn 25 o flynyddoedd yn gweithio i MAFF lle y daliodd amrywiaeth eang o swyddi gan gynnwys nifer ar lefel uwch yn goruchwylio meysydd y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gyfrifol amdanynt erbyn hyn.

# 1 Ynglŷn â'r Asiantaeth Safonau Bwyd

1.1 Sefydlwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) ym mis Ebrill 2000 er mwyn 'diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau a allai godi mewn cysylltiad â bwyta bwyd, ac fel arall i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.' Sefydlodd Deddf Safonau Bwyd 1999 yr FSA fel adran anweinidogol annibynnol o'r Llywodraeth, gan weithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion wedi'i reoli gan Fwrdd a benodwyd i weithredu er budd y cyhoedd. Mae annibyniaeth yr FSA yn parhau i fod yn hanfodol i gynnal hyder y cyhoedd yn y ffordd y gwneir penderfyniadau o ran diogelwch bwyd.

1.2 Mae'r FSA yn gorff i'r DU gyfan, sy'n atebol i Senedd San Steffan drwy'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, ac i Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon drwy eu Gweinidogion Iechyd neu swyddogion cyfatebol.

1.3 O'r cychwyn diffiniodd Bwrdd yr FSA ein tri gwerth craidd fel a ganlyn:

- rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf
- bod yn agored ac yn hygyrch
- bod yn llais annibynnol

*"Ein prif ddiben yw diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd"*



# YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD

1.4 Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gyfeiriad strategol cyffredinol yr FSA o fewn y fframwaith a nodwyd gan y Ddeddf Safonau Bwyd. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a hyd at 12 o aelodau eraill. Penodwyd y Cadeirydd, Syr John Krebs, a'r Dirprwy Gadeirydd, Julia Unwin, ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Gweinidogion yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon ("yr awdurdodau priodol"). O'r aelodau presennol eraill o'r Bwrdd, penodwyd wyth ohonynt gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, penodwyd dau gan Weinidogion yr Alban, a phenodwyd un gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac un gan yr Adran Iechyd Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon. Drwy gyfarfodydd cyhoeddus, gall y cyhoedd graffu ar waith y Bwrdd.

1.5 Rheolir gweithrediadau'r FSA o ddydd i ddydd gan y Prif Weithredwr, sydd hefyd yn Brif Swyddog Cyfrifyddu'r FSA, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi cyfrifon yr FSA ac am eu trosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Gweision sifil yw staff yr FSA, sy'n atebol i'r Bwrdd drwy'r Prif Weithredwr. Mae diogelwch a safonau bwyd yn faterion datganoledig; yn ogystal â'i phencadlys yn Llundain, mae gan yr FSA swyddfeydd felly yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a phob un ohonynt o dan arweiniad Cyfarwyddwr sy'n atebol i Brif Weithredwr yr FSA.

1.6 Mae FSA Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am ddarparu cyngor a deddfwriaeth ddrafft ar faterion ar draws y gadwyn fwyd i Weinidog Cynulliad Gogledd Iwerddon sy'n gyfrifol am Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd. Mae Pwyllgor Ymgynghorol Bwyd statudol Gogledd Iwerddon yn rhoi cyngor annibynnol i'r FSA ar faterion o ran diogelwch a safonau bwyd yng Ngogledd Iwerddon. Ariennir FSA Gogledd Iwerddon gan Gynulliad Gogledd Iwerddon. Mae'n cysylltu'n agos â'r Bwrdd Hybu Diogelwch Bwyd (FSPB) ac Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon mewn perthynas â materion bwyd sy'n ymwneud ag Iwerddon gyfan, megis salwch a gludir gan fwyd.

1.7 Yn yr Alban, mae'r FSA yn rhoi cyngor ar ddeddfwriaeth arfaethedig i'r Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymunedol yng Ngweithrediaeth yr Alban. Mae hyn yn sicrhau ymagwedd gyson tra'n caniatáu i amgylchiadau penodol yr Alban gael eu hystyried yn llawn wrth weithredu polisi o ran diogelwch a safonau bwyd yn yr Alban. Mae Pwyllgor Ymgynghorol Bwyd statudol yr Alban yn rhoi cyngor annibynnol i'r FSA ar bob mater o ran diogelwch a safonau bwyd yn yr Alban. Ariennir FSA yr Alban gan Senedd yr Alban.

1.8 Mae FSA Cymru yn cyflawni'r swyddogaethau hynny o ran diogelwch bwyd, safonau bwyd a maethiad a gyflawnwyd gynt gan staff iechyd y cyhoedd a staff amaethyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol, ynghyd â swyddogaethau newydd yr FSA. Mae'r FSA yn atebol am ei gweithgareddau yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd hefyd yn cael ei gynghori gan yr FSA ar bolisi a deddfwriaeth o ran diogelwch a safonau bwyd. Mae Pwyllgor Ymgynghorol Bwyd statudol Cymru (Pwyllgor Ymgynghorol Cymru gynt) yn rhoi cyngor annibynnol i'r FSA ar bob mater o ran diogelwch a safonau bwyd yng Nghymru. Ariennir FSA Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.9 Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn un o Asiantaethau Gweithredol yr FSA sy'n gweithredu ym Mhrydain Fawr. Ei brif swyddogaethau yw sicrhau y cynhelir y safonau uchaf sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ar gyfer cynhyrchu cig mewn ffordd hylan ac ar gyfer lles anifeiliaid wrth iddynt gael eu lladd, a darparu gwasanaeth archwilio cig i bob gwaith cig trwyddedig. Mae gan yr MHS ei Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth ei hun (Prif Weithredwr yr MHS) ac mae'n cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ei hun. Ariennir cost ei waith yn rhannol gan daliadau a godir ar y diwydiant ac ar adrannau'r llywodraeth sy'n gwsmeriaid iddo, ac yn rhannol gan gymorth uniongyrchol gan yr FSA.

1.10 Yng Ngogledd Iwerddon cyflawnir y swyddogaethau cyfatebol gan yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (DARD) ar ran yr FSA. Mae angen bod yn wyliadwrus iawn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolaethau llym y DU ar BSE, yn bennaf gan mai Gogledd Iwerddon yw'r unig ran o'r DU y mae ei thir yn ffinio â gwlad arall yn yr Undeb Ewropeaidd.

1.11 Cyhoeddwyd Cynllun Strategol 2001/06 yr FSA ym mis Mai 2001. Ceir y testun llawn ar wefan yr FSA yn **www.food.gov.uk.** Mae'r Cynllun Strategol yn disgrifio ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer diogelwch bwyd, gwybodaeth, labelu a dewis i'r cyhoedd, maethiad a deiet, a gorfodi cyfraith bwyd. Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y Cynllun Strategol ein nod yw:

- lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% drwy wella diogelwch bwyd ar hyd y gadwyn fwyd
- helpu pobl i wella eu hiechyd deietegol
- hyrwyddo system labelu onest a llawn gwybodaeth i helpu defnyddwyr
- hyrwyddo arferion gorau o fewn y diwydiant bwyd
- gwella gorfodaeth cyfraith bwyd
- cael pobl i ymddiried yn yr hyn a wnawn a'r ffordd y'i gwnawn

1.12 Mae adrannau 2 i 5 yr Adroddiad Blynyddol hwn yn nodi ein nodau a'n blaenoriaethau allweddol, ynghyd â throsolwg o'n gweithgareddau yn ystod 2002/03. Ceir gwybodaeth fanylach am berfformiad a chynlluniau ar gyfer y dyfodol yn *Adroddiad Adrannol Gwanwyn 2003* yr FSA[1] . Mae'r Adroddiad hwnnw yn cynnwys adroddiad manwl o berfformiad yn erbyn ei thargedau Cytundeb Darparu Gwasanaethau yn 2002/03.

1.13 Ceir rhagor o wybodaeth am waith yr FSA ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk**, a gaiff ei diweddaru'n rheolaidd. Ceir rhestr gyswllt fanwl fesul pwnc yn: www.food.gov.uk/aboutus/contactus1/contactusaz/

[1] Mai 2003, Cm, 5905, ISBN 0-10-159052-0, cyhoeddwyd gan Y Llyfrfa.

# 2 Hyder gwell ymhlith defnyddwyr

**Blaenoriaethau allweddol ar gyfer hyder ymhlith defnyddwyr**

- sicrhau gwelliannau mesuradwy o ran hyder y cyhoedd yn y ffordd y rheolir diogelwch a safonau bwyd ledled y DU
- sicrhau mai'r FSA yw ffynhonnell fwyaf dibynadwy y DU o ran cyngor a gwybodaeth am fwyd
- sicrhau y caiff materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd eu trafod yn agored

*"Ein nod yw sicrhau gwelliannau gwirioneddol o ran diogelwch a safonau bwyd. Dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o wella hyder ymhlith defnyddwyr"*



# HYDER GWELL YMHLITH DEFNYDDWYR

2.1 Credwn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o wella hyder ymhlith defnyddwyr yw drwy sicrhau gwelliannau gwirioneddol o ran diogelwch a safonau bwyd. Mae'r ffordd yr ydym yn sicrhau'r gwelliannau hyn yn hanfodol i'n llwyddiant: mae bod yn agored a gonest, a mabwysiadu ymagwedd ymgynghorol tuag at lunio polisi oll yn rhan o'r ffordd yr ydym yn gweithio.

**Ymagwedd ymgynghorol tuag at lunio polisi**

2.2 Ar ddechrau 2002 sefydlodd yr FSA Bwyllgor Defnyddwyr newydd i helpu i sicrhau bod proses llunio polisi'r FSA yn agored i amrywiaeth eang o fuddiannau defnyddwyr, a bod ei phenderfyniadau yn seiliedig ar ddealltwriaeth lawn o anghenion a barn defnyddwyr. Mae gan y Pwyllgor Defnyddwyr 12 o aelodau, yr enwebir chwech ohonynt gan gyrff defnyddwyr amlwg sydd â budd mawr mewn materion bwyd, a phenodir chwech ohonynt yn dilyn proses hysbysebu agored yn unol ag egwyddorion Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

2.3 Yn ystod y flwyddyn gyntaf ers sefydlu'r Pwyllgor arweiniodd amrywiaeth eang o arbenigedd a phrofiad ei aelodau a oedd yn berthnasol i ddefnyddwyr at roi ystyriaeth adeiladol iawn i faterion gan gynnwys: sut y gallai'r FSA roi'r nod o "rhoi defnyddwyr yn gyntaf" ar waith; anghenion a phryderon defnyddwyr sydd ar incwm isel; chwilio'r gorwelion; a chynlluniau sicrwydd. Yn benodol, gofynnodd y Bwrdd am farn y Pwyllgor ar y meysydd hynny o bolisi bwyd sy'n cael effaith benodol ar blant a phobl ifanc ac ar feithrin dealltwriaeth well o'r ffordd orau o dargedu negeseuon i gyrraedd plant a phobl ifanc [2].

2.4 Sefydlwyd Cangen Defnyddwyr yr FSA fel rhan graidd o'r FSA ar ddechrau 2002. Yn ogystal â darparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Pwyllgor Defnyddwyr mae'r gangen yn wasanaeth ymgynghori mewnol i helpu pob aelod o staff yr FSA i ystyried effaith eu polisïau ar grwpiau gwahanol o ddefnyddwyr (ac ar grwpiau o bobl dan anfantais yn benodol). Mae hyn wedi codi proffil gwaith defnyddwyr ar draws yr Asiantaeth.

[2] Roedd hyn yn sail i gyfarfod agored cyntaf y Pwyllgor ym mis Mehefin 2003; cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol 2003 y Pwyllgor y mis hwnnw hefyd ac mae ar gael ar wefan yr FSA.

2.5 Mae pob un o'r pwyllgorau a'r grwpiau arbenigol a sefydlwyd i gynghori'r FSA yn cynnwys cynrychiolwyr lleyg neu gynrychiolwyr defnyddwyr ymhlith eu haelodau. Mae'r Asiantaeth wedi datblygu pecyn sefydlu i helpu i gynorthwyo'r cynrychiolwyr hyn, a chynhaliodd dau weithdy yn ystod 2002/03 i drafod materion mewn perthynas â'u rôl. Yn ogystal, cynhaliodd yr FSA gwrs hyfforddi peilot ar gyfer ei chynrychiolwyr defnyddwyr; roedd y cwrs hwn yn seiliedig ar raglen Llais Cryfach y Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol.

2.6 Mae'r FSA yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r prif sefydliadau defnyddwyr megis y Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol, Cymdeithas y Defnyddwyr a Sustain: the alliance for better food and farming. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd hefyd â chynrychiolwyr sefydliadau defnyddwyr er mwyn trafod meysydd polisi penodol. Yn ogystal, mae'r FSA yn ariannu gweithgor chwarterol annibynnol i helpu amrywiaeth o sefydliadau defnyddwyr i ddatblygu polisi cyffredin ac felly i gyfrannu'n fwy effeithiol at ymgynghoriadau'r FSA, yn enwedig y rhai sydd â ffocws yr UE. Mae hyn yn galluogi'r Asiantaeth i gael adborth rheolaidd gan sefydliadau defnyddwyr ar y gwaith y mae'n ei wneud.

2.7 Mae'r Asiantaeth yn parhau i archwilio ffyrdd gwahanol o agor ei phrosesau ymgynghori i gyrraedd y tu hwnt i'r grwpiau defnyddwyr a'r grwpiau buddiannau cyhoeddus eraill sy'n cyfrannu at ymgynghoriadau'r FSA eisoes. Er enghraifft, seiliwyd ymateb yr FSA i'r Comisiwn Polisi ar Ffermio a Bwyd ar arolwg barn, grwpiau ffocws, gwefan ryngweithiol, gweithdai senario gyda defnyddwyr sydd ar incwm isel, cyfres o seminarau rhanbarthol, a fforwm ieuenctid.

2.8 Fel rhan o'n polisi o ehangu'r broses ymgynghori i gynnwys pob grŵp o ddefnyddwyr, mae'r FSA wedi datblygu Cynllun Gweithredu ar ddefnyddwyr sydd ar incwm isel. Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i'n helpu i ddysgu mwy am anghenion penodol grwpiau o ddefnyddwyr o dan anfantais ac i ystyried eu hanghenion wrth ddatblygu polisi, ac mae rhaglen ymchwil wedi'i sefydlu ar gynnwys defnyddwyr yn y broses o lunio polisi. Nod y ddau brosiect cyntaf yw profi dulliau arloesol ar gyfer cynnwys grwpiau o dan anfantais yn y broses o lunio polisi. Yn ogystal, dechreuwyd ar waith i ddatblygu partneriaethau â sefydliadau eraill sy'n gweithio ar faterion o ran incwm isel, a chydag Adrannau eraill y Llywodraeth i roi cyhoeddusrwydd i'n gwaith ac atgyfnerthu cydweithrediad trawslywodraethol, a datblygwyd canllawiau a hyfforddiant ar gyfer ein staff ar sut i ystyried anghenion penodol defnyddwyr sydd ar incwm isel.

2.9 Mae cyfarfodydd â defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill bellach yn rhan annatod o'r ffordd y mae'r FSA yn datblygu polisi. Er enghraifft:

- mae Fforwm Labelu Bwyd wedi'i sefydlu i alluogi'r FSA i glywyd barn defnyddwyr a'u cynrychiolwyr, ynghyd â rhanddeiliaid eraill megis sefydliadau'r diwydiant bwyd, ac i'w hysbysu am y cynnydd a wneir. Mae'r fforwm yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn;
- mae Fforwm Maethiad yr FSA yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn i alluogi amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n gweithio ledled y DU yn y maes hwn i rannu profiadau a chydlynu eu gwaith lle y bo'n briodol. Nod y fforwm yw ategu strategaeth maethiad effeithiol a chydgysylltiedig i wella iechyd drwy wella deiet a thrwy newid arferion bwyta. Mae Fforwm Deiet a Maethiad yr Alban, a gweithdai rhanddeiliaid Cymru a lywiodd strategaeth maethiad Cymru, 'Bwyd a Lles', yn chwarae rhan bwysig yma hefyd. Cyhoeddir Cynllun Gweithredu Maethiad yr Asiantaeth ar wefan yr FSA, ochr yn ochr ag ymgynghoriadau ar fentrau penodol ac adroddiadau ar eu cynnydd. Mae cydweithio'n agos â rhanddeiliaid defnyddwyr yn elfen allweddol o holl waith yr Asiantaeth ar faethiad.

### Darparu gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr

2.10 Cydnabyddwn y bydd y mwyafrif o ddefnyddwyr yn clywed gyntaf am faterion bwyd drwy'r cyfryngau cenedlaethol a lleol. Mae'r Asiantaeth yn cydweithio'n agos â'r wasg, y radio a'r teledu yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol i roi gwybodaeth amserol i'r cyhoedd ac mae'n gweithio'n galed i sicrhau y caiff y cyfryngau perthnasol eu targedu ar gyfer ymgyrchoedd a chyngor penodol.

2.11 Er enghraifft, gall hyn olygu cysylltu â chyhoeddiadau a darlledwyr cymunedol lleol yn uniongyrchol i'w hysbysu am faterion penodol o ran diogelwch bwyd sy'n berthnasol i'w cymuned neu dargedu ymgyrch bwyta'n iach ar ran benodol o'r boblogaeth. Yn ogystal, mae'r Asiantaeth yn ceisio sicrhau bod y

cyfryngau yn cyflwyno adroddiadau cywir ar yr hyn y mae'n ei ddweud ac nad yw'n gorliwio neu'n camliwio negeseuon o ran iechyd a diogelwch bwyd: caiff adroddiadau anghywir eu herio ac, os bydd angen, gweithiwn gyda'r newyddiadurwr dan sylw i sicrhau y caiff nodyn cywiro ei gyhoeddi neu ei ddarlledu.

2.12 Mae'r Asiantaeth yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau i gyfleu ein neges – yn ogystal â siarad â chyfryngau penodol rydym hefyd yn defnyddio taflenni, cyfarfodydd cyhoeddus, a gwefan yr FSA – gan ddibynnu ar y gynulleidfa yr ydym yn ei thargedu. Credwn fod y Rhyngrwyd yn gyfrwng cynyddol bwysig ar gyfer cyfathrebu â'n rhanddeiliaid ac yn ffordd o ddangos ein hymrwymiad i fod yn agored ac yn dryloyw.

2.13 Lansiwyd gwefan newydd yr FSA sy'n haws ei defnyddio yn 2001. Roedd y wefan ar y rhestr fer ar gyfer dwy wobr genedlaethol, gan ddod yn ail ("clod uchel") yng nghategori gwobr e-lywodraeth y New Statesman. Mae tîm y wefan wedi parhau i ychwanegu cynnwys a swyddogaethau ar gyfer defnyddwyr a rhanddeiliaid, gan gynnwys arolwg wythnosol, cwisiau a gemau, Gweddarllediad byw o Gyfarfod y Bwrdd ym Mrwsel, microwefannau ar hylendid bwyd a GM, yn ogystal ag integreiddio gwefan yr Adolygiad o BSE yn ein prif wefan. Yn 2003 cyflwynwyd peiriant chwilio gwell, gwellwyd perfformiad y wefan, ac ym mis Medi 2003, lansiwyd porth ar gyfer gorfodwyr bwyd. Mae mwy na 100,000 o bobl yn defnyddio'r wefan bob wythnos erbyn hyn ac mae nifer y tudalennau y gwneir cais amdanynt wedi cynyddu chwe gwaith ers ail-lansio'r wefan yn 2001. Mae bron 5,000 o bobl bellach wedi cofrestru i gael rhybudd e-bost pan gaiff eitemau sydd o ddiddordeb penodol iddynt eu rhoi ar y wefan.

### Meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd

2.14 Ein nod yw meithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth y cyhoedd drwy fod yn agored ac yn dryloyw. Mae hyn yn golygu bod ein cyngor a'n gwybodaeth gyhoeddus yn fwy effeithiol, ac mae'n gwella ansawdd ein gwaith llunio polisi a'n penderfyniadau. Yn bwysicaf, pan fydd ansicrwydd ynghylch rhywbeth, rydym yn onest yn ei gylch, fel y gall defnyddwyr wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth lawn.

2.15 Sefydlodd arolwg cyntaf yr FSA o agweddau defnyddwyr, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2001, lefel sylfaenol y gellid mesur hyder ymhlith defnyddwyr mewn diogelwch a safonau bwyd a chredadwyedd yr FSA yn ei herbyn. Dengys yr arolygon a gyhoeddwyd yn 2002 a 2003 gynnydd parhaus o ran hyder ymhlith defnyddwyr yn y mesurau presennol i ddiogelu iechyd mewn perthynas â diogelwch bwyd a chynnydd yn yr ymwybyddiaeth o'r FSA[3]. Ceir canlyniadau manwl yr arolwg ar ein gwefan: **http://www.food.gov.uk/yourviews/surveys/foodsafety-nutrition-diet/**

2.16 Mae'r canlyniadau yn seiliedig ar sampl gynrychioliadol o dros 3000 o ddefnyddwyr ledled y DU. Dengys canlyniadau arolwg 2002 fod hyder pobl ynghylch diogelwch a safonau bwyd yn gwella'n araf. Y duedd gyffredinol fwyaf trawiadol yw lleihad bach ond cyson yn y pryder am ddiogelwch cig, gyda gostyngiad sylweddol yn y pryder am fathau o gig megis cig eidion, porc, cig oen, a chig amrwd dros y tair blynedd diwethaf. Datgelodd arolwg 2002 hefyd gynnydd bach ond sylweddol yn ystadegol yn nifer y bobl sy'n honni eu bod yn bwyta bwyd 'cyfleus', a ddangosir gan gynnydd yn nifer y bobl sy'n bwyta prydau parod ac sy'n prynu cludfwyd.

2.17 Mae hyder yn y rôl a chwaraeir gan yr FSA wedi gwella'n sylweddol hefyd, ac mae 60% o ddefnyddwyr bellach yn honni eu bod yn hyderus iawn neu'n weddol hyderus yn ein gallu i ddiogelu iechyd mewn perthynas â diogelwch bwyd, sef cynnydd cyffredinol o 10 pwynt canran ers 2000.

[3] Mae canlyniadau arolwg 2003, a gyhoeddwyd ar ddechrau 2004, yn cadarnhau'r tueddiadau hyn.

# 3 Diogelwch a safonau bwyd gwell

**Blaenoriaethau allweddol ar gyfer diogelwch bwyd: salwch a gludir gan fwyd**

- lleihau nifer yr achosion o glefydau a gludir gan fwyd 20% yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2001 (yn seiliedig ar ffigur blynyddol ar gyfer 2000) i fis Ebrill 2006
- lleihau haentiad salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% yn ystod y pedair blynedd o 2000 i 2003

**Blaenoriaethau allweddol ar gyfer diogelwch bwyd: BSE (Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol)**

- sicrhau bod y rheolaethau yn seiliedig ar y wybodaeth wyddonol ddiweddaraf
- sicrhau y caiff rheolaethau BSE eu gorfodi'n effeithiol
- darparu gwybodaeth annibynnol gywir ar faterion BSE ac effeithiolrwydd gorfodi
- sicrhau y caiff cig a fewnforir ei fonitro er mwyn gwirio bod rheolaethau'r Undeb Ewropeaidd wedi'u cymhwyso

**Blaenoriaethau allweddol ar gyfer diogelwch bwyd: diogelwch cemegol bwyd**

- sicrhau nad yw'r cemegion mewn bwyd yn peryglu diogelwch bwyd
- rhoi rheolaethau priodol ar waith a sicrhau y cânt eu gorfodi'n briodol
- annog rhanddeiliaid i drafod y materion yn agored

**Blaenoriaethau allweddol ar gyfer diogelwch bwyd: Cynhyrchion a phrosesau bwyd, eu trwyddedu neu eu cymeradwyo**

- mae'r prosesau asesu diogelwch sy'n diogelu defnyddwyr yn gadarn a chânt eu cymhwyso'n drwyadl
- gwaith asesu diogelwch sy'n agored, yn dryloyw ac yn seiliedig ar yr arferion gorau sydd ar gael
- cyhoeddi meini prawf asesu a gwybodaeth arall i wella hyder defnyddwyr yn y gweithdrefnau
- gostyngiad yn y cemegion a'r radioniwclidau o'r man cychwyn, neu leihau eu heffaith bosibl ar y gadwyn fwyd fel arall

**Blaenoriaethau allweddol ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd**

- gwella effeithiolrwydd trefniadau gorfodi Awdurdodau Lleol a'r MHS
- sicrhau trefniadau gorfodi cymesur a mwy cyson
- gwella tryloywder trefniadau gorfodi ar gyfer rhanddeiliaid
- hyrwyddo proses ehangach o weithredu systemau yn seiliedig ar risgiau ar gyfer gwella safonau diogelwch ar draws y gadwyn fwyd



# DIOGELWCH A SAFONAU BWYD GWELL

### Salwch a gludir gan fwyd

3.1 Cytunodd y Bwrdd ar strategaeth yr Asiantaeth ar glefydau microbiolegol a gludir gan fwyd ym mis Mai 2001; nod y strategaeth hon yw lleihau nifer y clefydau a gludir gan fwyd 20% yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2001 (yn seiliedig ar ffigur blynyddol ar gyfer 2000) i fis Ebrill 2006. Roedd nifer yr adroddiadau labordy o'r pum prif facteriwm a gludir gan fwyd, a ddefnyddir i fonitro'r cynnydd a wneir wrth gyrraedd ein targed o ran clefydau a gludir gan fwyd, bron yr un peth yn 2001 ag yr oedd yn 2000. Yn 2002 dangosodd adroddiadau labordy ostyngiad o ychydig dros 13% o gymharu â'r ffigur sylfaenol ar gyfer 2000.

3.2 Ymhlith elfennau allweddol cam 2002/03 strategaeth yr FSA roedd:

- ymgyrchoedd i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o negeseuon hanfodol am ddiogelwch bwyd;
- camau gweithredu i wella safonau hylendid wrth gynhyrchu cig;
- datblygu strategaeth i reoli campylobacter yn y gadwyn fwyd;
- camau gweithredu i wella cysondeb o ran gorfodi (gweler paragraffau 3.21 i 3.31)

### Yr Ymgyrch Hylendid Bwyd

3.3 Canolbwyntiodd cam 1 Ymgyrch Hylendid Bwyd yr FSA ar leihau'r bwyd a gaiff ei heintio gan facteria mewn sefydliadau arlwyo, a pharhaodd tan fis Ebrill. Parhaodd Cam 2, a ganolbwyntiodd ar arlwywyr, tan fis Hydref-Tachwedd 2002. Fel rhan o weithgarwch Cam 2, anfonwyd fideo pwrpasol at ddibenion hyfforddi at bob arlwywr sydd ar ein cronfa ddata. Mae'r fideo wedi ennill sawl gwobr fawr a bu'n boblogaidd iawn ymhlith arlwywyr a hyfforddwyr hylendid bwyd. Dengys gwerthusiad cynhwysfawr o weithgaredd ymgyrchu fod y negeseuon yn dechrau cael effaith a bod ymwybyddiaeth yn parhau i godi. Cafwyd ymgyrch teledu ar raddfa fach ar gyfer defnyddwyr a oedd yn gysylltiedig â'r Ymgyrch Hylendid Bwyd ar yr ychydig ddiwrnodau olaf cyn Dydd Nadolig a ddangosodd sut i goginio a dadrewi'n ddiogel mewn ffordd ddoniol a digrif. Dangosodd y gwerthusiad fod pobl wedi deall y negeseuon.

3.4 Lansiwyd ymgyrch fach wedi'i anelu at arlwywyr newydd yn benodol ym mis Chwefror 2003 ac o ganlyniad gofynnwyd am dros 50,000 o gopïau o'r llyfryn *Dechrau Busnes*[4].

3.5 Yn ystod penwythnos Gŵyl y Banc a'r Jiwbilî Aur cynhaliwyd ein hymgyrch gyntaf ynghylch barbeciwiau. Yn ogystal â hysbysebion ar y teledu, argraffwyd cyngor syml o ran hylendid bwyd ar 2 filiwn o becynnau barbeciw untro a bagiau o siarcol, a dosbarthodd cigyddion annibynnol ledled y wlad daflen syml am ddiogelwch barbeciwiau. I baratoi ar gyfer lansio'r Ymgyrch Hylendid Bwyd ymhlith defnyddwyr, rhedodd ymgyrch deledu beilot yn rhanbarth teledu Granada wedi'i hanelu at famau plant ifanc am 3 wythnos yn ystod mis Mawrth 2003. Mae cyngor i ategu'r holl weithgaredd hysbysebu wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan **www.food.gov.uk**. Mae'r gwerthusiad o'r gweithgaredd hwn wedi helpu i lunio cynlluniau ar gyfer cam nesaf yr ymgyrch a fydd yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr yn ogystal ag arlwywyr. Dangosodd y gwerthusiad o'r gweithgaredd hysbysebu ei fod wedi llwyddo i gyfleu negeseuon allweddol mewn ffordd arloesol a chreadigol, yn ogystal â chodi proffil gwaith yr FSA i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

### Gwella safonau hylendid wrth gynhyrchu cig

3.6 Yn ystod 2001/02, ymgynghorodd yr FSA ar Benderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd a'i gwnaeth yn ofynnol i reolaethau gorfodol yn seiliedig ar drefniadau Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP) gael eu dilyn mewn gweithfeydd cig ffres a chig dofednod a rheolau microbrofion ar gyfer lladd-dai cig ffres a gweithfeydd torri ac yna dechreuodd weithredu'r Penderfyniad hwnnw. Defnyddiodd y DU yr hyblygrwydd yn y ddeddfwriaeth i ohirio'r dyddiad gweithredu ar gyfer gweithfeydd llai 12 mis tan 7 Mehefin 2003. Cyhoeddwyd llawlyfr, CD-ROM a chanllawiau eraill i weithredwyr gweithfeydd i'w cynorthwyo i baratoi ar gyfer gweithredu'r Penderfyniad. Cynhaliwyd 13 o weithdai HACCP mewn rhannau gwahanol o'r DU ar gyfer gweithredwyr a chafodd milfeddygon yr MHS hyfforddiant gorfodi HACCP. Mae canllawiau ar ba mor aml y dylid cynnal profion microbiolegol ar garcasau cig coch wedi'u cyhoeddi.

3.7 Datblygwyd y Cynllun Gwartheg Glân a Diogelwch Cig i leihau clefydau a gludir gan fwyd drwy weithio gyda ffermwyr, cludwyr da byw, milfeddygon, rheolwyr lladd-dai, cigyddion a manwerthwyr. Cynhaliwyd diwrnodau gwybodaeth o fis Ionawr i fis Ebrill 2003, a chynhyrchwyd cyfres o bosteri, i helpu i hyrwyddo negeseuon mewn perthynas â Pholisi Da Byw Glân y Gwasanaeth Hylendid Cig, HACCP a phrofion microbiolegol ar anifeiliaid o'r fferm i'r lladd-dy.

3.8 Campylobacter yw'r prif achos salwch a gludir gan fwyd yn y wlad hon a cheir tystiolaeth gref mai cyw iâr yw'r brif ffynhonnell. Felly rydym wedi datblygu strategaeth ar gyfer rheoli Campylobacter mewn ieir a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ym mis Mehefin 2003. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar wella mesurau hylendid ar y fferm ac yn ystyried yr opsiynau ar gyfer rheoli mewn gweithfeydd prosesu dofednod.

3.9 Comisiynwyd 4 adroddiad sefyllfa a adolygodd statws presennol diwydiant dofednod y DU i ddarparu sylfaen ar gyfer y strategaeth. Roedd yr adroddiadau, sydd wedi'u hadolygu gan randdeiliaid ac a gafodd eu cyhoeddi, yn cwmpasu'r broses o reoli Campylobacter a Salmonela, golchi cewyll cludo a phrofi a rhestru diadellau wrth iddynt gael eu lladd. Roedd y gwaith hwn, ynghyd â chyngor Pwyllgor Ymgynghorol Diogelwch Microbiolegol Bwyd ar reolaethau ar y fferm ar gyfer Campylobacter a thrafodaethau â'r diwydiant dofednod a rhanddeiliaid eraill, yn hanfodol er mwyn datblygu'r strategaeth.

3.10 Yn ogystal, cydweithiodd yr FSA â diwydiant, Defra a Gweithrediaeth Moch Prydain i leihau salmonela mewn moch drwy weithredu cynllun monitro Salmonela ZAP.

### BSE

3.11 Mae'r Rheol Dros Dri Deg Mis (OTM), a fu ar waith yn y DU ers 1996, yn gwahardd cig o wartheg dros dri deg mis oed ar adeg eu lladd rhag cael ei werthu i'w fwyta gan bobl. Dyma un o'r ddwy brif reolaeth diogelwch bwyd mewn perthynas â BSE yr ydym yn eu gweithredu yn y DU – y rheolaeth arall yw rheolaethau Deunydd Risg Penodedig (SRM).

[4] Ceir gwybodaeth am strategaeth ehangach yr FSA i wella safonau hylendid mewn busnesau bwyd, gan gynnwys busnesau arlwyo, drwy wella'r broses o reoli diogelwch bwyd ("HACCP") ar wefan yr FSA.

3.12 Cyhoeddodd yr FSA ei hadolygiad cyntaf o reolaethau BSE yn 2000. Argymhellodd yr adolygiad hwnnw y dylid adolygu'r rheol dros dri deg mis, i weld a oedd gwaharddiad ar werthu cig dros dri deg mis oed i'w fwyta yn parhau i fod yn briodol yng ngoleuni'r ffaith bod nifer yr achosion o BSE yn lleihau.

3.13 Felly dechreuodd yr FSA adolygiad o'r Rheol Dros Dri Deg Mis ym mis Gorffennaf 2002. Fe'n cynorthwywyd yn yr adolygiad gan ddau bwyllgor - grŵp asesu risg SEAC/FSA ar y cyd a grŵp rhanddeiliaid craidd a oedd yn cynrychioli amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys y diwydiannau ffermio a chig a defnyddwyr[5].

3.14 Nid yw BSE erioed wedi'i ganfod yn niadell y DU. Fodd bynnag, bwytaodd defaid yr un bwyd a roddodd BSE i wartheg ac mae ymchwil labordy wedi dangos y gellir heintio defaid â BSE yn artiffisial. Felly, ceir risg bosibl y gallai BSE fodoli mewn defaid. Nid yw'r FSA yn cynghori pobl i beidio â bwyta cig defaid, ond bydd yn parhau i fod yn rhagofalus ac i argymell mesurau rhagofalus a chymesur i ddiogelu'r cyhoedd, pe câi BSE ei ganfod mewn defaid. Yn 2001 gofynnodd yr Asiantaeth i grŵp craidd o randdeiliaid roi adroddiad ar oblygiadau BSE mewn defaid a gwneud argymhellion ar gyfer cyflwyno unrhyw fesurau rhagofalus pellach. Yna cyhoeddwyd adroddiad y grŵp craidd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mai 2002 a gellir ei weld ar wefan yr FSA.

3.15 Yn dilyn argymhellion un o'r grwpiau rhanddeiliaid craidd a oedd wedi bod yn adolygu cwestiynau o ran BSE a defaid, trefnodd yr FSA sesiynau briffio ar gyfer y cymunedau Moslemaidd, Asiaidd ac Affricanaidd-Caribïaidd ynghylch y risg bosibl o BSE. Cynhaliwyd y sesiwn gyntaf, ym mis Tachwedd 2002, gyda chroestoriad o sefydliadau yn cynrychioli'r tair cymuned. Roedd yr ail sesiwn a'r drydedd sesiwn, a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2003, yn cynnwys cyflwyniadau i Ysgolheigion Moslemaidd ac Imamiaid. Yn yr holl sesiynau briffio, nodwyd y risg bosibl o BSE mewn defaid a geifr hŷn. Ar yr un pryd eglurwyd nad oedd yr FSA yn cynghori pobl i beidio â bwyta cig defaid a geifr. Cafodd y cyflwyniadau groeso da.

### Diogelwch cemegol bwyd a chynhyrchion a phrosesau bwyd, eu trwyddedu neu eu cymeradwyo

### Digwyddiadau yn ymwneud â bwyd

3.16 Gan mai un o nodau allweddol yr FSA yw sicrhau y caiff defnyddwyr eu hysbysu am y risgiau posibl i'w hiechyd yn sgîl bwyta bwyd, mae'r Asiantaeth yn rhoi cyngor yn rheolaidd ar amrywiaeth eang o gynhyrchion drwy ddatganiadau i'r wasg a thrwy adroddiadau ar wefan yr FSA. Ymhlith yr enghreifftiau a fu yn ystod 2002/03 roedd:

- melysion gel ffrwythau bach yn cynnwys Konjac
- haentiad gan fethanol o frandiau ffug o fodca
- lefelau uchel o gloropropanolau mewn rhai cyflenwadau o saws soi

3.17 Yn ystod 2002/03, ymchwiliwyd i gyfanswm o 215 o ddigwyddiadau a allai effeithio ar ddiogelwch bwyd. O ganlyniad, cyhoeddwyd 30 o Rybuddion rhag Peryglon Bwyd, codwyd 208 o hysbysiadau RASFF gyda'r CE a chytunwyd ar gyfyngiadau gwirfoddol ar gyfer 46 o ddigwyddiadau ar y fferm. Yn ogystal, gweithredwyd deddfwriaeth frys y Gymuned Ewropeaidd ynghylch afflatocsinau mewn ffigys, cnau cyll a chnau pistasio o Dwrci, a physgnau o Dsieina. Cydweithiodd yr FSA ag adrannau eraill o'r Llywodraeth hefyd i ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer delio ag amrywiaeth eang o achosion brys posibl gwahanol gan gynnwys damweiniau diwydiannol mawr ac ymosodiadau terfysgol.

### Monitro

3.18 Yn ystod 2002/03 parhaodd yr Asiantaeth â'i rhaglen o arolygon i fonitro ar gyfer difwynwyr mewn bwyd, gan gwblhau a chyhoeddi canlyniadau 10 arolwg o'r fath. Rydym yn rhoi cyngor i ddefnyddwyr yn ôl yr angen yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolygon hyn. Er enghraifft, yn 2003, cyhoeddwyd cyngor rhagofalus na ddylai merched beichiog, merched a oedd yn bwriadu beichiogi, babanod a phlant fwyta morgi, cleddbysgod a marlyn yn dilyn canfod lefelau cymharol uchel o fercwri yn y pysgod hyn.

[5] Cytunodd Bwrdd yr FSA ar argymhellion yr adolygiad yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2003. Ceir manylion ar wefan yr FSA.

3.19 Roedd enghraifft arbennig o arwyddocaol o'n gwaith monitro yn ymwneud ag acrylamide. Ym mis Ebrill 2002, darganfu gwyddonwyr yn Sweden lawer iawn o'r cemegyn hwn yn annisgwyl mewn bwydydd a oedd yn cynnwys llawer o startsh ac a oedd wedi'u coginio ar dymheredd uchel. Gwyddys bod acrylamide yn achosi canser mewn anifeiliaid ac mae'n bosibl y bydd yn niweidio iechyd pobl os bydd yn bresennol mewn rhai bwydydd. Cymerodd yr FSA y mater hwn o ddifrif a'i gwaith ymchwil dioed oedd y cyntaf i gadarnhau canfyddiadau Sweden. Parhaodd yr Asiantaeth i chwarae rhan arweiniol wrth gyfrannu at ymdrechion Ewropeaidd ac ymdrechion rhyngwladol eraill i ddarganfod sut mae acrylamide yn ffurfio mewn bwyd a pha gamau rhesymol y gellid eu cymryd i leihau hyn. Tra'n aros am ddatblygiadau pwysig o waith ymchwil o'r fath, cyngor yr FSA yn hyn o beth oedd y dylai defnyddwyr fwyta deiet cytbwys, iach a oedd yn cynnwys llawer o ffrwythau a llysiau ond nad oedd angen iddynt newid eu deiet fel arall na newid y ffordd yr oeddent yn coginio eu bwyd.

3.20 Mae'r Asiantaeth yn gyfrifol am drwyddedu a chymeradwyo cynhyrchion bwyd hefyd. Yn dilyn pwysau gan yr FSA, cyhoeddodd y Pwyllgor Gwyddonol Ewropeaidd ar Fwyd ei adolygiad o'r melysydd aspartame ym mis Rhagfyr 2002. Yn 2002 cyfrannodd yr FSA at sicrhau cytundeb ar ganllawiau asesu diogelwch rhyngwladol ar gyfer micro-organeddau GM a ddefnyddir mewn bwyd i ategu canllawiau planhigion GM y cytunwyd arnynt yn 2001/02. Yn ystod 2002/2003 darparwyd barn gennym ar 8 cais o dan y system Ewropeaidd ar gyfer awdurdodi bwydydd newydd a chynhwysion bwyd.

### Gwella gorfodaeth cyfraith bwyd

3.21 Er mwyn hyrwyddo ansawdd uwch a safonau mwy cyson, mae'r Asiantaeth yn monitro gwaith gorfodi cyfraith bwyd gan awdurdodau lleol (ALl). O dan y Cytundeb Fframwaith, mae'n ofynnol i bob ALl gyflwyno eu rhaglenni arolygu blynyddol arfaethedig i'r Asiantaeth, ynghyd â ffurflenni chwarterol sy'n cwmpasu eu holl weithgareddau gorfodi. Cyhoeddir y data hwn gan yr Asiantaeth. Nododd y data ar gyfer 2001/02:

- 468 o ALl;
- 577,893 o safleoedd bwyd;
- 702,023 o archwiliadau ac ymweliadau gan staff ALl;
- cymerwyd 165,224 o samplau bwyd,
- cymerwyd 176,207 o gamau gorfodi. Rhybuddion ysgrifenedig oedd 95% o'r rhain. Cafwyd 654 o erlyniadau.

3.22 Hysbyswyd y Bwrdd am fanylion llawn y gweithgaredd hwn ym mis Chwefror 2003, ac wedyn fe'u cyhoeddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol ar Weithgaredd Gorfodi Awdurdodau Lleol ar gyfer 2001. Mae papur y Bwrdd (FSA 03/02/02) a'r Adroddiad ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

3.23 Yn seiliedig ar y wybodaeth yn y ffurflenni monitro ar gyfer 2001/02, mae'r Asiantaeth wedi cymryd camau, lle bo angen hynny, i gydweithio ag ALl i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau, er enghraifft:

- cynnal cyfres o archwiliadau penodol i ymchwilio i'r hyn sy'n achosi'r gostyngiad o 7% yn nifer y samplau bwyd a gymerwyd. Yn ogystal sefydlodd yr FSA weithgor gyda LACORS i roi cyngor ar ffordd well o gydlynu rhaglenni samplu bwyd ALl a'r Asiantaeth, ac mae'n treialu cronfa ddata samplu bwyd y DU, i wella'r broses o gyfnewid gwybodaeth a thargedu adnoddau;
- comisiynu ail gyfres o archwiliadau penodol i ymchwilio i'r rhesymau dros ostyngiad yn nifer yr erlyniadau o 753 yn 2000 i 654 yn 2001;
- cynnal archwiliadau llawn o'r ugain ALl y barnwyd eu bod wedi cyflawni lefelau annerbyniol o isel o ran darpariaeth gwasanaethau yn 2001/02. Roedd yr asesiad hwn yn seiliedig ar ganran yr arolygiadau arfaethedig a gyflawnwyd, a oedd unrhyw samplau wedi'u cymryd, neu fethiant i gyflwyno unrhyw un o'r ffurflenni yr oedd yn rhaid eu cyflwyno.

Cyhoeddir adroddiadau archwilio (gan gynnwys adroddiadau cryno o archwiliadau â thema benodol) a chynlluniau gweithredu ar wefan yr FSA.

3.24 Ym mis Chwefror 2003, ar ôl i'r Bwrdd drafod y mater, sefydlodd yr FSA weithgor bach i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu cyfres ehangach o fesurau asesu perfformiad. Nod hyn yw sicrhau bod gwaith monitro'r FSA yn adlewyrchu holl gamau gorfodi cyfraith bwyd ALl yn well. Mae'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o LACORS a'r cyrff proffesiynol (CIEH, REHIS a TSI), yn ogystal ag uwch swyddogion ALl.

3.25 Rydym wedi parhau i gydweithio'n agos â chyrff gorfodi i fynd i'r afael ag achosion eraill o dorri rheolau diogelwch bwyd. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- rhoi help, arweiniad a chymorth i awdurdodau lleol sy'n ymchwilio i achosion o gig anaddas ac sy'n anelu at atal cig anaddas rhag ymuno â'r gadwyn fwyd;
- secondio swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr i gynorthwyo gydag ymchwiliadau cymhleth i droseddau cig anghyfreithlon;
- sefydlu Tasglu Bwyd Gwastraff i archwilio'r mesurau sydd eu hangen i sicrhau y caiff gwastraff bwyd ei waredu'n briodol a lleihau'r posibilrwydd o dwyll. Cyhoeddwyd adroddiad y Tasglu ar gyfer ymarfer ymgynghori cyhoeddus yn para tri mis ym mis Ionawr 2003.

3.26 Er mwyn datblygu polisi ar reolaethau gorfodi cyfraith bwyd a sicrhau mwy o gysondeb yn y rheolaethau hyn rydym wedi cydweithio â rhanddeiliaid a chyrff gorfodi ar nifer o fentrau, gan gynnwys:

- adolygu 20 o godau arfer gorfodi statudol a gyhoeddwyd o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Cyhoeddwyd cod newydd drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mawrth 2003;
- darparu seminarau diweddaru a chyrsiau hyfforddi cost isel ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol ar agweddau gwahanol ar orfodi cyfraith bwyd gan gynnwys HACCP, canio bwyd, cynhyrchu caws, labelu bwyd, cynhyrchion cig, ac archwilio ffatrïoedd bwyd;
- asesu materion o ran diogelwch bwyd a safonau sy'n berthnasol i grwpiau cymunedol gwahanol. Yn benodol, mae hyn wedi arwain at gyhoeddi canllawiau gorfodi newydd ar faterion sy'n ymwneud â bwydydd halal.

3.27 Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ym mis Hydref, cytunodd Bwrdd yr FSA ar Gynllun Gweithredu 10 Pwynt i wella rheolaethau'r DU ar fwyd a gaiff ei fewnforio. Ers hynny mae'r FSA wedi gweithio'n agos gydag adrannau eraill y Llywodraeth i ddatblygu Cynllun Gweithredu'r Llywodraeth ar fewnforion anghyfreithlon, a gyhoeddwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ar ddiwedd mis Mawrth 2002. Diben y cynllun yw gwella gallu'r DU i atal a chanfod mewnforion anghyfreithlon o gynhyrchion anifeiliaid a phlanhigion.

3.28 Cyflwynodd adroddiad Swyddfa'r Cabinet *(The Organisation of the Government's Controls of Imports of Animals, Fish, Plants and their Products, Tachwedd 2002)* ddadl dros Newid Sylweddol yn y gwaith o gydlynu a darparu archwiliadau gan awdurdodau lleol o fwydydd a gaiff eu mewnforio. Gan fod y prosiect hwn yn gorgyffwrdd â'r cynllun gweithredu 10 pwynt sy'n bodoli eisoes, mae'r ddwy ffrwd waith wedi'u cyfuno, ac maent bellach yn cael eu datblygu gan Adran Bwyd a Fewnforir yr FSA, mewn cydweithrediad ag awdurdodau iechyd porthladdoedd a chynrychiolwyr awdurdodau lleol.

3.29 Mae'r Adran Bwyd a Fewnforir yn ganolbwynt ar gyfer materion o ran mewnforio, ac mae'n gwella cysylltiadau â phorthladdoedd a meysydd awyr gan ddefnyddio e-dechnoleg, ac mae wedi datblygu hyfforddiant a chanllawiau i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd.

3.30 Yn 2002 rhoddwyd pwerau i swyddogion gorfodi mewn porthladdoedd a meysydd awyr chwilio am fewnforion bwyd anghyfreithlon mewn bagiau personol. Atafaelodd staff awdurdodau lleol a staff awdurdodau iechyd porthladdoedd a oedd yn cydweithio'n agos â'r Tollau Tramor a Chartref lawer o fewnforion bwyd anghyfreithlon. Arweiniodd rhai o argymhellion Swyddfa'r Cabinet (Tachwedd 2002) at newidiadau mewn deddfwriaeth, ac o fis Ebrill 2003 daeth y Tollau yn gyfrifol am archwilio bagiau teithwyr fel rhan o'r gwaith gwrthsmyglo.

3.31 Yr MHS ei hun, sef un o Asiantaethau'r FSA, yw'r awdurdod gorfodi mewn perthynas â hylendid mewn lladd-dai, adeiladau torri a storfeydd oer trwyddedig. Nodir gofynion mewn Offerynnau Statudol gwahanol a gall torri'r gofynion arwain at gyhoeddi hysbysiadau yn gofyn am gydymffurfiaeth, atal a dirymu trwyddedau, ac yn y pen draw erlyn. Yn y flwyddyn hyd at 13 Mawrth 2003 enillodd yr FSA 14 o achosion. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 22 o achosion eraill yn cael eu hystyried neu'n mynd rhagddynt ac ymchwilid i 49 o achosion eraill.

# 4 Gwell dewis a deiet i ddefnyddwyr

**Blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwybodaeth, labelu a dewis y cyhoedd**

- hyrwyddo dull o labelu gonest a llawn gwybodaeth, ac annog a chefnogi mentrau i wella eglurder a gwerth y wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr
- cychwyn, datblygu, negodi'n rhyngwladol a gweithredu rheolau ar gyfansoddiad, labelu a hysbysebu bwyd sy'n diogelu buddiannau defnyddwyr
- diogelu defnyddwyr drwy roi rheolaethau ar fwydydd sy'n gwneud honiadau o ran iechyd neu sy'n gofyn am driniaeth arbennig am resymau eraill (megis bwydydd i fabanod)

**Blaenoriaethau allweddol ar gyfer maethiad a deiet**

- gwelliannau hirdymor o ran deiet a maethiad poblogaeth y DU
- lleihau anghydraddoldebau drwy alluogi ac annog pobl o dan anfantais a phobl fregus i wella eu deiet

> *"Rydym wedi sefydlu 'Tasglu Labelu Clir', sy'n cynnwys cynrychiolwyr diwydiant, grwpiau defnyddwyr, gorfodwyr a'r Plain English Campaign"*



# GWELL DEWIS A DEIET I DDEFNYDDWYR

**Gwybodaeth, labelu a dewis y cyhoedd**

4.1 Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd ein Cynllun Gweithredu ar labelu, sydd ar gael ar ein gwefan yn **www.food.gov.uk**. Mae'r holl fentrau arfaethedig ar waith erbyn hyn. Rydym wedi dechrau adolygiad ychwanegol o gynlluniau sicrwydd bwyd, am fod canlyniadau ein hymchwil defnyddwyr yn dangos bod defnyddwyr yn drysu o ran beth yw ystyr logos gwahanol. Cwblhawyd a chyhoeddwyd adroddiadau'r Pwyllgor Ymgynghorol Bwyd ar y defnydd o eiriau megis *Ffres, Pur a Naturiol ac ati mewn Labeli Bwyd; Adolygiad o Labeli Bwyd; a'r Adolygiad o Werthu o Bell.*

4.2 Mae ein Tasglu Labelu Clir yn cynnwys cynrychiolwyr o ddiwydiant, grwpiau defnyddwyr, gorfodwyr, a'r Plain English Campaign. Mae'r Tasglu wedi argymell y dylai mwy o wybodaeth gael ei chynnwys ar y label sy'n angenrheidiol yn ôl y gyfraith, y dylid nodi'r wybodaeth yn y fath fodd fel ei bod yn haws dod o hyd iddi ac y dylid dewis lliwiau a theipiau sy'n ei gwneud yn haws i bobl ddarllen y wybodaeth. Mae adroddiad y Tasglu ar ein gwefan.

4.3 Yn ogystal, rydym yn pwyso'n rhyngwladol am fwy o labeli ar fwydydd yn dangos o ba wlad y mae'r bwyd yn dod. Mae ein cyfrifoldebau o ran yr Undeb Ewropeaidd a Chorff Masnach y Byd yn golygu mai dim ond drwy weithredu yn rhyngwladol y gellir sicrhau gwelliannau, ond yn y cyfamser, rydym wedi cyhoeddi canllawiau newydd sydd â'r nod o dynhau'r broses o ddehongli a chymhwyso'r rheolau presennol o fewn y DU.

4.4 Ym mis Gorffennaf 2001 cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei gynnig ar olrhain a labelu organebau wedi'u haddasu'n enetig a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt a chynnig ar gyfer awdurdodi a labelu bwyd a phorthiant GM. Cynhaliwyd dau gyfarfod i randdeiliaid cyn i'r Bwrdd ystyried y cynigion. Byddwn yn cynnal rhagor o gyfarfodydd i randdeiliaid wrth i'r trafodaethau ar y cynigion fynd rhagddynt.

### Maethiad a deiet

4.5 Mae Fframwaith Strategol Maethiad yr FSA ar gael ar wefan yr Asiantaeth. Nod y Fframwaith hwn yw helpu pobl i wella eu deiet. Mae gan y strategaeth bedair prif elfen:

- sicrhau bod tystiolaeth gadarn ar gael er mwyn cymryd camau i hybu deiet iach
- datblygu ffyrdd priodol o hysbysu'r cyhoedd
- nodi ac ymdrin â rhwystrau i newid arferion deietegol
- gwerthuso a monitro effeithiolrwydd y camau a gymerir

Mae'r Cynllun Gweithredu Maethiad, sydd ar wefan yr FSA hefyd, yn sail i'r strategaeth hon.

4.6 Bydd yr Asiantaeth yn gweithio gyda sefydliadau eraill ac yn ceisio dylanwadu arnynt er mwyn datblygu'r Cynllun Gweithredu. Mae trefniadau cydweithio agos wedi'u datblygu gydag Adrannau Iechyd y DU, adrannau eraill y Llywodraeth (megis addysg ac amaethyddiaeth) ac awdurdodau lleol ym maes deiet a maethiad. Cydweithiwn â'r diwydiant bwyd a'r gymuned wyddonol hefyd.

4.7 Anelwn at sicrhau bod defnyddwyr sy'n rhanddeiliaid yn chwarae rhan fawr yn ein holl waith ar faethiad, drwy ymgynghoriadau anffurfiol a ffurfiol a thrwy roi'r holl wybodaeth am feysydd y cynllun gweithredu ar ein gwefan. Mae'r Fforwm Maethiad, Fforwm Deiet a Maethiad yr Alban a Gweithgor Gweithredu a Monitro Strategaeth Maethiad Cymru yn chwarae rhan bwysig yn y maes hwn hefyd. Mae'r fforymau hefyd yn helpu sefydliadau rhanddeiliaid sy'n gweithio i wella deiet a maethiad i rannu gwybodaeth ac arferion da gan sicrhau'r effeithiolrwydd gorau ac osgoi dyblygu ymdrech. Ymhlith yr aelodau fel arfer mae cynrychiolwyr o lywodraeth ganolog a llywodraeth leol, cyrff defnyddwyr a chyrff gwirfoddol, diwydiant a buddiannau iechyd.

### Sicrhau tystiolaeth gadarn

4.8 Mae'r FSA yn cael cyngor arbenigol ym maes maethiad drwy'r Pwyllgor Ymgynghorol Gwyddonol ar Faethiad (SACN). Mae SACN yn gorff ymgynghori annibynnol sy'n rhoi cyngor i Adrannau Iechyd y DU a'r Asiantaeth ar faterion sy'n ymwneud â Maethiad. Yn 2002/03 roedd gwaith SACN yn cynnwys dechrau adolygiadau o haearn a halen yn y deiet (gwnaed argymhellion ym mis Mai 2003).

4.9 Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys ymrwymiad parhaus i fuddsoddi mewn ymchwil, arolygon ac ymgyrchoedd gwybodaeth. Targedir ymchwil tuag at ddarparu tystiolaeth i ategu'r broses o ddatblygu polisi a chamau gweithredu; ymhlith y prosiectau presennol mae rôl lipidau o ran datblygiad clefyd coronaidd y galon a datblygu'r dystiolaeth ymhellach ar gyfer cyngor o ran bwyta'n iach. Yn hyn oll, caiff y gwahaniaethau o ran amgylchiadau a blaenoriaethau ledled y DU eu hystyried. Mae'r flaenoriaeth a roddir i waith ar draws y meysydd hyn yn ystyried tystiolaeth ar bwysigrwydd deiet mewn perthynas ag amrywiaeth o glefydau cronig yn y boblogaeth yn gyffredinol, a rhai clefydau mewn categorïau risg penodol.

4.10 Ym mis Rhagfyr 2002 dechreuodd yr Asiantaeth gyhoeddi canlyniadau'r Arolwg Deiet a Maethiad Cenedlaethol diweddaraf o oedolion. Mae'r arolwg hwn yn darparu gwybodaeth groestoriadol am arferion deietegol a statws maethol sampl gynrychioliadol o boblogaeth Prydain. Roedd y gyfres gyntaf o ddata yn cwmpasu'r math o fwyd a faint o fwyd oedd yn cael ei fwyta, a bydd cyfresi eraill (i'w cyhoeddi yn 2003/04) yn cwmpasu, ymhlith pethau eraill, maetholion a fwyteir a statws maethol, mesuriadau corfforol (megis taldra, pwysau, pwysedd gwaed) a gweithgarwch corfforol. Cyflawnwyd gwaith paratoi gennym hefyd gan gynnwys astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer arolwg mawr i gasglu data sylfaenol ar faterion o ran deiet a maethiad sy'n effeithio ar ddefnyddwyr sydd ar incwm isel. Bydd yr arolwg hwn yn darparu gwybodaeth fanwl mewn un sampl am y tro cyntaf ar fwyd a fwyteir, maetholion a fwyteir a mesuriadau corfforol yn ogystal â ffactorau demograffig, ffactorau o ran ffordd o fyw a ffactorau cymdeithasol eraill sy'n effeithio ar y bwyd a ddewiswyd gan y bobl a gymerodd ran yn yr arolwg[6].

[6] Dechreuodd y prif waith maes ar gyfer yr arolwg ym mis Tachwedd 2003, a chaiff adroddiad ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2006.

4.11 Er mwyn sicrhau bod pob rhanddeiliad yn cael cyfle i leisio barn cyn i'r Bwrdd ystyried asid ffolig ac atal clefydau, cynhaliodd yr FSA gyfarfod agored i randdeiliaid gyda 4 adran iechyd y DU ym mis Mawrth 2002. Ystyriodd y Bwrdd y mater hwn ym mis Mai 2002 a chafodd gyngor gan y Pwyllgorau Ymgynghori yn y gwledydd datganoledig. Rhoddwyd cyngor i'r Gweinidogion Iechyd ym mis Gorffennaf 2002. Mae'r FSA yn parhau i fonitro datblygiadau yn y gwledydd eraill sydd wedi defnyddio asid ffolig i gryfhau blawd er mwyn canfod effaith cryfhau ar gyfraddau diffygion y tiwb niwral, masgio fitamin B12 mewn unigolion diamddiffyn a materion technegol eraill sy'n berthnasol. Bydd y wybodaeth hon o wledydd eraill yn darparu gwybodaeth ychwanegol i'w hystyried yn y flwyddyn i ddod.

**Hysbysu'r boblogaeth**

4.12 Mae'r Asiantaeth wedi gwella ac ehangu'r wybodaeth i ddefnyddwyr a ddarperir drwy ei gwefan. Nod y wybodaeth hon yw helpu pobl i fwyta deiet iach yn ymarferol. Mae'r wefan ryngweithiol yn darparu cyngor arbenigol, canlyniadau arolygon, megis lefelau halen mewn bara, a chanllawiau ar sut i ddefnyddio gwybodaeth ar labeli. Bydd hyn oll yn helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau yn seiliedig ar wybodaeth lawn.

4.13 Rydym wedi cynhyrchu dwy gyfres o daflenni newydd. Mae un gyfres yn trafod y materion hynny sy'n peri'r pryder mwyaf i ddefnyddwyr (fel y nodwyd gan yr Arolwg o Agweddau Defnyddwyr) ac mae'r llall yn esbonio negeseuon bwyta'n iach ac yn eu targedu'n uniongyrchol at gynulleidfaoedd penodol e.e. mamau sy'n bwydo ar y fron, dynion, oedolion hŷn, ac ati. Rydym yn cynhyrchu nifer o daflenni gwybodaeth mewn ieithoedd gwahanol gan gynnwys Cymraeg, Bengaleg, Hindi, Gwjarati, Pwnjabeg, Wrdw, Groeg, Tyrceg a Tsieinëeg.

4.14 Yng Nghymru, lansiodd Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol "Bwyd a Lles – lleihau anghydraddoldebau drwy strategaeth maethiad i Gymru" ar 13 Chwefror 2003. Datblygwyd y strategaeth gan FSA Cymru ar y cyd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a rhanddeiliaid allweddol er mwyn cydnabod salwch sy'n gysylltiedig â deiet yng Nghymru. Bwriedir iddi annog holl boblogaeth Cymru i gael deiet gwell, ond ceir pwyslais penodol ar y rhai mewn grwpiau o dan anfantais, ac ar blant a babanod.

4.15 Yn yr Alban, cyfrannodd yr FSA at ymgyrch 'Healthyliving' Gweithrediaeth yr Alban, a lansiwyd ym mis Ionawr 2003. Mae'r ymgyrch hon yn annog y cyhoedd i ffonio llinell wybodaeth i gael pecynnau cyngor a gwybodaeth ymarferol yn ymwneud â bwyta'n iach. Mae'r pecyn yn cynnwys taflen 'Ten Tips for Food Safety', a frandiwyd ar y cyd â logo FSA yr Alban a 'Healthyliving'. Gwnaethom gydweithio'n agos â GIG Iechyd yr Alban i helpu i goladu cyngor o ran diogelwch bwyd a bwyta'n iach i ategu cronfa ddata'r ymgyrch.

4.16 Yng Ngogledd Iwerddon, bu'r FSA yn cydweithio â Bwrdd Hybu Diogelwch Bwyd, sef corff i Iwerddon gyfan a sefydlwyd o dan Gytundeb Belfast, a phartneriaid eraill yn y Gogledd a'r De i sefydlu Fforwm Bwyd a Maethiad. Y gobaith yw y bydd y Fforwm yn ganolbwynt allweddol mewn perthynas â materion o ran maethiad ledled Iwerddon.

**Nodi ac ymdrin â'r rhwystrau i newid arferion deietegol**

4.17 Ymhlith y blaenoriaethau allweddol a gafodd eu cynnwys yma roedd gwaith yn y sector addysg a chamau gweithredu i wella'r hyfforddiant i bobl sy'n gweithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gyda bwyd, yn amrywio o arlwywyr i'r sector gwirfoddol.

4.18 Yn Lloegr, cydweithiodd yr FSA yn agos â'r Adran Addysg a Sgiliau (DfES), yn arbennig i gefnogi gwerthusiad cyntaf DfES o safonau prydau bwyd ysgol ers iddynt gael eu cyflwyno yn Lloegr yn 2001. Bydd yr astudiaeth, y bwriedir cyhoeddi adroddiad arni yn 2004, yn rhoi gwybodaeth am y canlynol:

- a oedd y bwyd a ddarparwyd gan arlwywyr yn cyrraedd y safonau statudol o ran maethiad
- a oedd y bwyd a ddarparwyd yn bodloni'r canllawiau o ran maethiad ar gyfer prydau bwyd ysgol
- cyfansoddiad bwyd a maetholion mewn bwyd plant ysgolion uwchradd o brydau bwyd ysgol.

4.19 Roedd FSA yr Alban yn aelod o Banel Arbenigol Gweithrediaeth yr Alban ar Brydau Bwyd Ysgol a'r is-grŵp maethiad. Yn sgîl hyn, cyhoeddwyd yr adroddiad 'Hungry for Success' ym mis Chwefror 2003. Mae'r adroddiad yn cynnig argymhellion ar gyfer pennu safonau ar gyfer cynnwys maethol prydau bwyd ysgol, cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael prydau bwyd ysgol yn gyffredinol, a chael gwared â'r stigma sy'n gysylltiedig â chael prydau bwyd ysgol am ddim.

4.20 Yng Nghymru, comisiynwyd astudiaeth i effaith y rheoliadau newydd ar safonau maethol ciniawau ysgol. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys nodi faint o fwyd oedd ar gael a'r dewis o fwyd oedd ar gael mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru cyn ac ar ôl y rheoliadau. Mae'r adroddiad drafft, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2003, yn awgrymu, er bod mwy o lysiau a ffrwythau ar gael yn awr, nad yw hyn wedi cael llawer o effaith ar y bwydydd y mae disgyblion yn eu bwyta mewn gwirionedd.

4.21 Mae canllaw yr FSA *Catering for Health* yn cynorthwyo darlithwyr a myfyrwyr arlwyo drwy roi cymorth ymarferol ar sut i gymhwyso egwyddorion arlwyo iachach wrth baratoi a chyflwyno bwyd. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r cyhoeddiad gennym, a gyhoeddwyd ar ein gwefan ar 10 Gorffennaf 2003. Nod y gwerthusiad oedd pennu ymwybyddiaeth darlithwyr pen-cogyddion CGC, sef y brif gynulleidfa darged, o'r cyhoeddiad, eu defnydd ohono a'u barn amdano. Lansiwyd fersiynau o'r cyhoeddiad "Catering for Health" ("Arlwyo ar gyfer Iechyd") ym mis Mai 2002 yng Nghymru a'r Alban. Yn ogystal, comisiynwyd Canolfan Iechyd Cymru i adolygu hyfforddiant ac addysg maethiad ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd yng Nghymru, ac i argymell gwelliannau.

4.22 Yn yr Alban, gweithiodd yr FSA mewn partneriaeth â Gweithrediaeth yr Alban, GIG Iechyd yr Alban, Prosiect Deiet Cymunedol yr Alban a Chynllun Gwobrau Dewisiadau Iach hefyd i gynhyrchu cwrs hyfforddi byr a oedd yn rhoi gwybodaeth sylfaenol am y cysylltiad rhwng bwyd ac iechyd. Anelir y cwrs hwn at bawb sy'n gweithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gyda bwyd mewn amrywiaeth o leoliadau megis y sector gwirfoddol, y sector cyhoeddus, lletygarwch a'r gweithle.

4.23 Bu FSA Gogledd Iwerddon yn rhan o adolygiad Gwerth Gorau sylfaenol o'r Gwasanaeth Arlwyo i Ysgolion. Mae'r adroddiad yn cynnig cyfres o argymhellion ar yr angen i fabwysiadu ymagwedd strategol tuag at hybu ffordd iachach o fyw ymhlith plant ysgol. Bydd FSA Gogledd Iwerddon yn rhan o grŵp amlasiantaeth sydd â'r dasg o nodi a hybu arferion gorau mewn ysgolion a gaiff ei chyflawni ar y cyd â'r broses o weithredu fframwaith Safonau Maethiad Adran Addysg Gogledd Iwerddon.

4.24 Mae FSA Gogledd Iwerddon yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill i ymdrin â materion o ran bwyd megis anghydraddoldebau o ran y cyfle i bawb gael bwyd iach a fforddiadwy, ffordd o annog arferion iach a chodi ymwybyddiaeth o arferion bwyta'n iach a diogel. I'r perwyl hwnnw rydym wedi gweithio gyda Pharth Gweithredu Iechyd Armagh a Dungannon mewn menter beilot o'r enw "Decent Food For All". Mae'r fenter amlasiantaeth hon yn canolbwyntio'n arbennig ar gartrefi ar incwm isel ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid o'r sector gwirfoddol a'r sector statudol. Bu FSA Gogledd Iwerddon yn darparu arian ar gyfer y prosiect ar y cyd â Bwrdd Hybu Diogelwch Bwyd. Cysylltwyd â Sefydliad Iechyd y Cyhoedd Iwerddon gyfan hefyd er mwyn helpu i ddatblygu meini prawf gwerthuso ar gyfer y prosiect.

# 5 Ffyrdd mwy effeithiol ac effeithlon o weithio

**Blaenoriaethau allweddol ar gyfer ein rôl fel Adran o'r Llywodraeth**

- cynghori a hysbysu Llywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig a chyrff rhyngwladol fel eu bod yn gwneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu ein hamcanion sylfaenol sef diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr

**Blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygu ein staff a'n ffordd o weithio**

- parhau i ddatblygu proses llunio polisi agored, ymgynghorol, yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n diogelu defnyddwyr yn well
- sicrhau bod ein staff yn meddu ar yr arbenigedd, y wybodaeth, a'r sgiliau a datblygu'r diwylliant mewnol sydd ei angen i gyflawni ein strategaeth yn unol â'n gwerthoedd craidd
- adolygu ein gweithrediadau yn barhaus er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian
- parhau i ddysgu a datblygu fel sefydliad

*"Rydym wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i gynnal ein busnes mewn ffordd mor agored a thryloyw â phosibl"*






# FFYRDD MWY EFFEITHIOL AC EFFEITHLON O WEITHIO

5.1 Mae Cynllun Strategol yr FSA yn nodi ein blaenoriaethau yn y prif feysydd polisi – diogelwch, labelu a dewis bwyd, maethiad a deiet, a gorfodi cyfraith bwyd. Mae hefyd yn disgrifio sut y byddwn yn rhoi ein gwerth craidd o fod yn agored, a'n hatebolrwydd democrataidd, ar waith a'r hyn a wnawn i wella ein ffordd o weithio. Mae'r broses o ddatblygu staff – yn unol â'n gwerthoedd craidd – yn parhau i fod yn un o'n nodau allweddol.

**Ein rôl fel Adran o'r Llywodraeth**

5.2 Mae'r FSA yn parhau i fod yn ymrwymedig iawn i'w thri gwerth craidd; rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf, bod yn agored ac yn hygyrch, a bod yn llais annibynnol. Rydym yn gweithio'n unol â'n Cod Ymarfer ar Fod yn Agored a'n Datganiad o Amcanion ac Arferion Cyffredinol (a geir ar wefan yr FSA). Anelwn at ddilyn egwyddorion rheoliadau gwell, yng nghyd-destun ein prif amcan o ddiogelu defnyddwyr. Er ein bod yn ceisio cael gwared ar y beichiau diangen ar ddiwydiant, ni fyddwn yn peryglu iechyd y cyhoedd o ganlyniad i ddileu, llacio neu symleiddio rheolaethau presennol. Rydym yn ymgynghori ar ein gweithgareddau â'r rhai y mae ein penderfyniadau yn effeithio arnynt, ac rydym yn ystyried bod ymgynghoriad â'n rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o gyflawni ein gwerthoedd craidd. Caiff pob un o'n hymgynghoriadau ffurfiol eu cyhoeddi ar ein gwefan fel y gall aelodau o'r cyhoedd eu gweld ac ymateb iddynt os dymunant wneud hynny.

5.3 Mae llais annibynnol yr FSA wedi ei seilio ar ymagwedd yn seiliedig ar dystiolaeth tuag at lunio polisi. Seilir penderfyniadau ar asesu'r wybodaeth wyddonol ddiweddaraf lle y bo'n berthnasol. Fel arfer, cynhelir asesiadau risg gan ein pwyllgorau ymgynghori annibynnol, ond nid bob tro. Mae'r Asiantaeth wedi datblygu fframwaith ar gyfer ymdrin â materion o ran diogelwch bwyd sy'n rhoi'r gwersi a nodwyd yn *Adroddiad yr Ymchwiliad BSE* ar waith. Mae'r fframwaith hwn ar wefan yr FSA hefyd. Fe'i dyfynnwyd yn adroddiad yr Uned Strategaeth ar Risg, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2002, ac fe'i defnyddir wrth hyfforddi staff yr FSA hefyd.

5.4 Mae'n rhaid i'r FSA gydweithio'n agos ag adrannau eraill y llywodraeth ac asiantaethau eraill er mwyn cyflawni ei nodau. Caiff ein cydberthnasau ag adrannau eraill y Llywodraeth eu dogfennu mewn concordatau. Eu diben yw nodi trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer cydweithio wrth weithio ac wrth gyfnewid gwybodaeth. Maent yn ymwneud â materion o egwyddor yn hytrach na manylion cysylltiadau gweithio o ddydd i ddydd. Maent yn canolbwyntio ar feysydd o fudd cyffredin, yn nodi prosesau cyffredin, ac yn nodi prif elfennau cydberthynas waith effeithiol. Mae ein holl goncordatau ar ein gwefan.

5.5 Fel corff y DU, rydym yn cynghori'r gweinyddiaethau datganoledig yn ogystal â'r adrannau yn Whitehall ac yn cydweithio â hwy. Rydym yn cydweithio'n agos i ddatblygu polisïau a strategaethau sy'n bodloni buddiannau penodol pobl Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac sy'n diwallu eu hanghenion. Mae Aelod o Fwrdd yr FSA hefyd yn aelod o'r Bwrdd Hybu Diogelwch Bwyd (FSPB) trawsffiniol yn Iwerddon.

5.6 Felly mae'r FSA yn gweithio'n unol â thri nod moderneiddio llywodraeth: sicrhau bod y broses o lunio polisi yn fwy cydgysylltiedig a strategol; sicrhau mai defnyddwyr yw ffocws ein gwaith; a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus effeithlon o safon. Rydym yn ymrwymedig i gyflwyno canlyniadau polisi sy'n gwneud gwahaniaeth: ein nod yw datblygu ein proses llunio polisi er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried ac yn hyrwyddo arferion gorau. Mae gennym amrywiaeth lawn o fentrau ar wrando ar ddefnyddwyr: gweler pennod 2 o'r adroddiad hwn, a'r dudalen 'Your views' o'n gwefan yn **http://www.food.gov.uk/yourviews/**.

5.7 Ar ein gwefan cyhoeddwn dargedau ar gyfer ein safonau gwasanaeth, sy'n cydymffurfio â'r Chwe Safon ar gyfer Llywodraeth Ganolog: ateb gohebiaeth, gweld ymwelwyr, ateb galwadau ffôn, cyhoeddi pwyntiau cyswllt, cyhoeddi ein gweithdrefn gwyno ac ymgynghori â defnyddwyr. Ein targedau allweddol yw:

- anfon ymateb llawn i ddefnyddwyr o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn eu llythyr, ffacs neu e-bost
- os na allwn gyrraedd y targed hwn, byddwn yn hysbysu gohebwyr ac yn egluro pam gan eu hysbysu pryd y cânt ymateb llawn
- gweld pobl yn ein swyddfeydd o fewn 10 munud i'w hapwyntiad.
- gweld pobl heb apwyntiadau o fewn 30 munud iddynt gyrraedd
- ateb ymholiadau dros y ffôn o fewn 30 eiliad

5.8 Rydym yn ymrwymedig i wneud popeth posibl o fewn rheswm i sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i bawb, gan gynnwys pobl ag anableddau, grwpiau ethnig, grwpiau difreintiedig a'r rhai ag anghenion iechyd penodol, ac yn arbennig er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Byddwn yn parhau i ymgynghori â defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn rheolaidd ynghylch y gwasanaethau a ddarparwn a byddwn yn cyflwyno adroddiadau ar ein canfyddiadau.

5.9 Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000, yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. O dan y ddyletswydd hon, pan fyddant yn cyflawni eu swyddogaethau, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus geisio: dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil; hyrwyddo cyfle cyfartal; a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hil gwahanol. Tra bod ein gwerthoedd craidd o roi'r defnyddiwr yn gyntaf a bod yn agored yn gysylltiedig â'r egwyddorion hyn yn y bôn, yn unol â'r ddyletswydd benodol sydd ar awdurdodau cyhoeddus rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Hiliol ar ein gwefan yn **http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/res.pdf**.

5.10 Cyhoeddwn ein gweithdrefn gwyno ar ein gwefan fel rhan o'n safonau gwasanaeth, a byddwn yn dosbarthu copïau pellach ar gais. Ein nod yw ceisio datrys unrhyw broblem yn gyflym, gan egluro beth rydym wedi'i wneud a pham. Cyhoeddir gwybodaeth ynghylch cwynion yn erbyn yr FSA bob blwyddyn, ar ein gwefan ac yn yr Adroddiad hwn. Ceir gwybodaeth ar gyfer 2002/03 yn Atodiad 1.

### Datblygu ein staff a'n ffordd o weithio

5.11 Gwnaeth yr FSA gais i gael achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl ym mis Tachwedd 2002. Cynhaliwyd yr asesiad ym mis Mawrth 2003. Er na chyflawnodd statws Buddsoddwr mewn Pobl y tro cyntaf hwn, bodlonodd yr FSA saith o'r 12 o ddangosyddion, a ystyriwyd yn gamp fawr ar gyfer sefydliad newydd o'r fath. Bwriadwn ofyn am asesiad arall tua diwedd 2003/04.

5.12 Bu inni barhau i wneud cynnydd yn ystod 2002/03 yn ein rhaglen ddatblygu. Cynyddwyd y cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer pob aelod o staff. Ymhlith y rhain roedd:

- modiwlau newydd yn ein Cynllun Rheoli – rhaglen ddatblygu i bob rheolwr – er mwyn helpu i barhau i ddatblygu ein diwylliant yn unol â'n gwerthoedd craidd, sef bod yn agored ac yn hygyrch. Mae'r modiwlau newydd wedi'u cynllunio i wella arweinyddiaeth, cysylltiadau a sgiliau rheoli newid a phrosiectau mewn amgylchedd amrywiol ac yng nghyd-destun gweithio gyda gweinyddiaethau datganoledig ac yn Ewrop;
- rhaglen boblogaidd a chynhwysfawr o seminarau i gynyddu dealltwriaeth y staff o'n gwaith a'i gydberthynas â rhanddeiliaid allanol. Gall staff yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon gymryd rhan reolaidd yn y seminarau hyn drwy fideogynadledda. Mae'r seminarau wedi cynnwys cyflwyniadau gan randdeiliaid allanol a chan staff yr FSA ynghylch eu gwaith.

5.13 Bu inni barhau i ddatblygu ein mewnrwyd er mwyn gwella cysylltiadau mewnol, ac yn ogystal, comisiynwyd MORI i gynnal trydydd arolwg o agweddau staff.

5.14 Er mwyn ategu ein hymrwymiad i werthfawrogi amrywiaeth, mae cyfle cyfartal yn rhan annatod o bob polisi o ran personél. Rydym wedi cynnal amrywiaeth o fentrau o fewn ein strategaeth gyffredinol i gynyddu amrywiaeth ymhlith y gweithlu. Er mwyn ategu'r strategaeth hon, cynhaliwyd dadansoddiad cychwynnol o'n sefyllfa o ran staffio. Datgelodd hyn, ar 31 Mawrth 2002, mai merched oedd 49% o'n staff, bod 20% yn dod o grŵp ethnig lleiafrifol a bod anabledd gan 8%. Mae'r dadansoddiad hwn yn sail ar gyfer mesur newidiadau yn y dyfodol.

5.15 Ar ôl ymgynghori ag undebau llafur yr FSA, cyflwynwyd trefniadau arfarnu staff newydd. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'n fframwaith cymhwysedd, tra'n dilyn gofynion rhaglen ddiwygio'r gwasanaeth sifil. Yn ogystal, gweithredwyd ail ran ein cytundeb cyntaf ar gyflogau gyda'r undebau llafur.

5.16 Cynhaliwyd cyfarfod agored ein Bwrdd ym mis Tachwedd ym Mrwsel, sef y cyfarfod cyntaf o'r Bwrdd i gael ei gynnal y tu allan i'r DU. Mae cyfraith Ewropeaidd bellach yn rheoli llawer o'n gwaith, a rhoddodd y ffaith i'r cyfarfod gael ei gynnal ym Mrwsel gyfle i ddangos ein hawydd i helpu i ddatblygu fframwaith o gyfraith bwyd effeithiol ag iddi sylfaen dda. Ategodd hyn nod yr FSA o ddatblygu cydberthnasau gwaith adeiladol â sefydliadau Ewropeaidd, a galluogodd y Bwrdd i gynyddu ei ymdrechion i sicrhau y caiff penderfyniadau pwysig ynghylch risgiau bwyd, maethiad a labelu bwyd eu gwneud mewn modd agored a thryloyw. Cyflawnwyd busnes arferol y Bwrdd yn ystod y cyfarfod, gan gynnwys, y tro hwn, eitemau ynghylch ein cynllun gweithredu ar labelu bwyd, labelu GM a chyfranogiad defnyddwyr wrth lunio polisi, ac ar ôl y cyfarfod cafwyd sesiwn holi ac ateb gyda'r gynulleidfa. Roedd y cyfarfod, fel pob cyfarfod agored o'r Bwrdd, yn agored i bawb; roedd Gweddarllediad ar y pryd yn golygu y gallai rhanddeiliaid yn y DU wylio'r hyn a oedd yn digwydd. Roedd dros fil o bobl, a oedd yn cynrychioli amrywiaeth eang o randdeiliaid, yn gallu cymryd rhan yn y cyfarfod, naill ai drwy fod yno eu hunain neu drwy'r darllediad ar y Rhyngrwyd (a oedd yn cynnwys cyfle i anfon cwestiynau drwy e-bost yn ystod y cyfarfod). Roedd yr adborth gan y rhai a gymerodd ran yn gadarnhaol iawn, a bu'r cyfarfod yn llwyddiant mawr ac yn ffordd effeithiol o ddangos ymagwedd agored, ym Mrwsel, tuag at wneud penderfyniadau yn ymarferol.

# Atodiad 1

## Cwynion a gafwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn 2002/03

**Cyflwyniad**

1 Mae'r FSA yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth proffesiynol ac effeithlon o ansawdd uchel i'w chwsmeriaid. Mae hyn yn cyfrannu at ein hamcan craidd o roi'r defnyddiwr yn gyntaf drwy dderbyn ei bod yn bosibl ein bod yn gwneud camgymeriadau weithiau, a sicrhau bod gennym ddull o unioni'r camgymeriadau hynny. Fel rhan o'n Cytundeb Lefel Gwasanaeth cyffredinol, fel un o adrannau'r Llywodraeth, mae'n ofynnol i ni gyhoeddi gweithdrefn gwyno.

2 Mae gweithdrefn gwyno'r FSA yn cwmpasu unrhyw fynegiant ysgrifenedig neu lafar o fod yn anfodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan yr FSA. Nid oes angen i'r rhain fod yn gwynion 'ffurfiol'. Yn gyffredinol byddant yn cwmpasu achosion lle y mae'r FSA wedi methu'n weinyddol neu lle nad yw wedi cymryd camau priodol. Nid yw'r broses gwyno yn cwmpasu achosion o anghytuno â pholisïau'r FSA.

3 Cyhoeddir gweithdrefn gwyno'r FSA ar wefan yr FSA (**www.food.gov.uk**). I ddechrau, bydd Adran berthnasol yr FSA yn ceisio datrys unrhyw gŵyn yn ei herbyn. Os bydd yr achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon ar yr ymateb, gall gyflwyno cwyn i Gydlynydd Cwynion yr FSA. Os bydd y Cydlynydd Cwynion yn methu â'i fodloni, gall yr achwynydd ofyn iddo gyfeirio ei gŵyn at y Prif Weithredwr. Os bydd yn parhau i fod yn anfodlon ar ymateb y Prif Weithredwr, gall yr achwynydd ofyn i unrhyw AS gyfeirio'r mater at Gomisiynydd Seneddol y DU dros Weinyddu (yr Ombwdsmon).

**Cwynion a gafwyd yn ystod y flwyddyn**

4 Cyfanswm y cwynion a gofnodwyd a gafwyd gan yr FSA yn ystod 2002/03 oedd 12. Mae hyn yn cymharu â 15 a gofnodwyd ar gyfer 2001/02. O'r rhain, datryswyd 6 yn fewnol gan Adrannau, deliwyd â 4 ohonynt gan Gydlynydd Cwynion yr FSA a chyfeiriwyd 2 ohonynt at y Prif Weithredwr.

5 Os caiff y **12** o gwynion a gofnodwyd eu dosbarthu, ar yr un sail â'r llynedd, ceir y dadansoddiad canlynol: **Categori A:** Dim bai, lle nad oedd sail i'r gŵyn. Cyfanswm o 6 achos; cafodd pob un o'r rhain eu datrys yn llwyddiannus ar ôl cysylltu â'r achwynwyr unigol a'u terfynu.

**Categori B:** Mân achosion o esgeulustod ac oedi wrth brosesu. Cyfanswm o 5 achos; datryswyd pob un ohonynt ar ôl rhoi esboniadau llawn.

**Categori C:** Materion cymhleth a newydd, a achosodd oedi neu broblem arall. Dim achosion;

**Categori D:** Arall
1 achos; roedd hwn yn ymwneud â sylwadau annheg honedig a wnaed ynghylch rheolwyr cwmni gan aelod o staff. Cadarnhawyd y gŵyn gan yr Adran berthnasol a chymerwyd camau adferol.

6 Deilliodd y **12** o gwynion a gofnodwyd o amrywiaeth o ffynonellau. Daeth 6 ohonynt o ddiwydiant/busnesau, daeth 3 o sefydliadau anlywodraethol, cafwyd 1 gan AS a chafwyd 2 gan aelodau'r cyhoedd.

# Atodiad 2

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AME** | Gwariant a Reolir yn Flynyddol |
| **BSE** | Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol |
| **CIEH** | Sefydliad Siartredig dros Iechyd yr Amgylchedd |
| **DARD** | Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig |
| **Defra** | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| **DEL** | Terfyn Gwariant Adrannol |
| **DHSS PS** | Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd |
| **FSPB** | Bwrdd Hybu Diogelwch Bwyd |
| **GM** | Wedi'u Haddasu'n Enetig |
| **GMO** | Organeb Wedi'i Haddasu'n Enetig |
| **HACCP** | Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol: system rheoli diogelwch bwyd wedi'i dogfennu a gaiff ei hystyried yn eang fel y ffordd fwyaf effeithiol o reoli peryglon yn y broses trin a chynhyrchu bwyd. Ymagwedd strwythuredig ydyw yn seiliedig ar saith egwyddor y gellir eu cymhwyso'n hyblyg mewn busnesau bwyd o bob maint er mwyn sicrhau bod rheolaethau cymesur yn seiliedig ar risgiau ar waith ac er mwyn sicrhau y caiff bwyd diogel ei gynhyrchu. |
| **LACORS** | Cydlynwyr Gwasanaethau Rheoleiddio Awdurdodau Lleol |
| **MHS** | Gwasanaeth Hylendid Cig |
| **GIG** | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| **RASFF** | System Rhybudd Cyflym ar gyfer Bwydydd |
| **REHIS** | Sefydliad Brenhinol Iechyd yr Amgylchedd yr Alban |
| **SEAC** | Pwyllgor Ymgynghorol Enseffalopathi Sbyngffurf |
| **TSI** | Sefydliad Safonau Masnach |

Os oes cwestiynau gennych ynghylch yr Adroddiad hwn, cysylltwch â John Shepherd drwy anfon e-bost at **john.shepherd@foodstandards.gsi.gov.uk** neu drwy anfon ffacs i 020 7276 8289.

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Cyfrifon Adnoddau Cyfunol

Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003





# CYNNWYS CYFRIFON BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol | 40 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 47 |
| Datganiad o reolaeth fewnol | 48 |
| Tystysgrif archwilio – Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) | 51 |
| Crynodeb o alldro adnoddau – FSA | 53 |
| Datganiad cost weithredol | 54 |
| Datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig | 54 |
| Mantolen | 55 |
| Datganiad llif arian | 56 |
| Adnoddau yn ôl nodau ac amcanion adrannol | 57 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 58 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys ar gyfer FSA graidd | 76 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion yr Alban | 77 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd | 78 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 79 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys ar gyfer FSA Gyfunol | 80 |

# Adroddiad Blynyddol

## Paratoi Cyfrifon

Paratowyd cyfrifon adnoddau Cyfunol yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y Trysorlys. Gosodir yr adroddiad blynyddol gerbron y Senedd o dan Adran 4 Deddf Safonau Bwyd 1999, a gosodir y cyfrifon o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Ariennir yr FSA yn rhannol gan awdurdodau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Atodir y cyfarwyddiadau cyfrifon perthnasol oddi wrth yr awdurdodau hyn a pharatowyd datganiadau ar wahân ar gyfer FSA Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Cefndir Statudol

Sefydlwyd yr FSA ar 1 Ebrill 2000 gan Ddeddf Seneddol (Deddf Safonau Bwyd 1999). Prif ddiben yr asiantaeth yw:

*'Diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau a all godi mewn cysylltiad â bwyta bwyd, ac fel arall i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.'*

Ar 1 Ebrill 2000, daeth y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn asiantaeth weithredol yr FSA. Sefydlwyd yr MHS yn wreiddiol ar 1 Ebrill 1995 fel asiantaeth weithredol y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

## Nodau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

Noda ein Cynllun Strategol ar gyfer 2001/06 ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer diogelwch bwyd, gwybodaeth gyhoeddus, labelu a dewis, maeth a deiet a gorfodi cyfraith bwyd dros gyfnod o bum mlynedd. Ein nod yw cael ein hymddiried gan bobl fel ffynhonnell fwyaf dibynadwy'r DU o gyngor a gwybodaeth am fwyd. Rydym am sicrhau bod y bwyd a fwyteir gan bobl yn ddiogel a'i wneud yn fwy diogel ac yn haws i bobl ddewis deiet iach.

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan ein Cynllun Strategol ein nod yw:

- lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% drwy wella diogelwch bwyd ar hyd y gadwyn fwyd;
- helpu pobl i wella eu hiechyd deietegol;
- hyrwyddo system labelu onest a llawn gwybodaeth i helpu defnyddwyr;
- hyrwyddo arferion gorau o fewn y diwydiant bwyd;
- gwella'r broses o orfodi cyfraith bwyd;
- cael pobl i ymddiried yn yr hyn a wnawn a'r ffordd y'i gwnawn.

Rydym yn ymrwymedig i'r tri gwerth craidd hyn sy'n rheoli'r cyfan a wnawn sef:

- rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf;
- bod yn agored ac yn hygyrch;
- bod yn llais annibynnol.

## Adolygiad Gweithredol ac Ariannol

*a) Cyfrifoldebau'r FSA*

Mae gan yr FSA gylch gwaith eang sy'n cynnwys diogelu iechyd y cyhoedd, darparu gwybodaeth a chyngor, sicrhau bod cyfraith bwyd yn effeithiol ac yn cael ei orfodi, cydlynu ymchwil a datblygiad a goruchwyliaeth, datblygu polisi a chynrychioli'r DU ar faterion bwyd yn Ewrop.

Mae gwaith yr FSA yn cynnwys diogelwch bwyd ar draws y gadwyn fwyd gyfan, gan gynnwys:

- difwynwyr bwyd – diffinio lefelau rhesymol, rheoli risg a pholisi;
- ychwanegion bwyd, deunyddiau cyswllt a bwydydd newydd – gan gynnwys asesu diogelwch a goruchwyliaeth;
- diogelwch microbiolegol a hylendid bwyd gan gynnwys darparu cyngor ar reoli achosion o salwch a gludir gan fwyd ac atal salwch a gludir gan fwyd;
- arolygu a gorfodi camau gweithredu i ddiogelu defnyddwyr;
- gwaith gorfodi gan awdurdodau lleol – datblygu polisi ac archwilio a gwella gwaith gorfodi;
- plaladdwyr, milfeddyginiaethau a bwyd anifeiliaid – asesu goblygiadau o ran diogelwch bwyd;
- labeli a safonau bwyd – datblygu polisi, gwella dewis y defnyddiwr a chynrychioli'r DU yn yr Undeb Ewropeaidd; a
- maeth – darparu cyngor ac arweiniad ar gyfansoddiad maethol bwyd, a darparu gwybodaeth am ddeiet iach a chytbwys, er mwyn hyrwyddo a diogelu iechyd y cyhoedd.

*b) Beth rydym wedi ei wneud*

Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr FSA nifer o lwyddiannau yn cynnwys y canlynol:

- cwblhawyd cam cyntaf ein hadolygiad o'r cynllun Dros Dri Deg Mis, sef mesur diogelu BSE y DU sy'n atal gwartheg hŷn rhag ymuno â'r gadwyn fwyd. Cynhaliwyd yr adolygiad mewn ffordd agored a chyfranogol drwy gyfarfodydd cyhoeddus a thrwy grŵp o randdeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr o ddefnyddwyr, arbenigwyr y diwydiant, arbenigwyr allweddol ac eraill. Cyhoeddwyd adroddiad y Grŵp er mwyn ymgynghori arno ym mis Mawrth 2003. Bydd y Bwrdd yn ystyried yr adroddiad, a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ym mis Gorffennaf 2003;
- rydym wedi parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i wella safonau bwyd drwy gynyddu cysondeb ac effeithiolrwydd gorfodi cyfraith bwyd drwy gynllun archwilio o bwys. Mae'r rhaglen archwilio yn gwella ansawdd gorfodi awdurdodau lleol ac yn codi ei phroffil a'i blaenoriaeth yn lleol; roedd 73 o archwiliadau llawn yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth;
- lansiwyd ail gam ein Hymgyrch Hylendid Bwyd ym mis Hydref 2002. Yn ogystal â hysbysebion teledu yn canolbwyntio ar bwysigrwydd golchi dwylo, anfonwyd fideo hyfforddi am ddim gennym at bob busnes arlwyo ar ein cronfa ddata. Cafwyd ymgyrchoedd Barbeciw a Thwrci Nadolig ychwanegol. Enillodd yr ymgyrch barbeciw wobr y cyfryngau – un o bum gwobr a gyflwynwyd i'r FSA yn ystod y flwyddyn. Dengys gwerthusiad cynhwysfawr o weithgaredd ymgyrchu fod y negeseuon yn dechrau cael effaith ac mae ymwybyddiaeth yn parhau i godi;
- cyflwynwyd gofyniad i gyflwyno rheolaethau yn seiliedig ar HACCP ymhob gwaith cig coch a dofednod mawr. Anfonwyd canllawiau at weithfeydd yn y cyfnod cyn gweithredu, gan gynnwys chwe gweithdy undydd;
- Rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu i ddefnyddwyr ar incwm isel fel rhan o'n polisi o ehangu'r broses ymgynghori i gynnwys pob grŵp o ddefnyddwyr. Rydym wedi cynhyrchu cyfres o daflenni newydd wedi eu hanelu at gynulleidfaoedd penodol gan gynnwys mamau sy'n bwydo o'r fron, dynion ac oedolion hŷn. Rhoddwyd cyngor penodol i ni hefyd mewn perthynas â nifer o faterion diogelwch bwyd, er enghraifft acrylamide mewn bwyd cartref a bwyd wedi ei brosesu fel creision, sglodion a bara;
- Sefydlwyd Pwyllgor Defnyddwyr newydd gennym ym mis Ebrill 2002 a chynhaliwyd pedwar cyfarfod ffurfiol ganddo. Mae gwaith y Pwyllgor eisoes wedi bod yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau, yn arbennig mewn perthynas â rhoi ein gwerthoedd craidd ar waith, ymgysylltu â defnyddwyr incwm isel, chwilio'r gorwelion ac asesu cynlluniau sicrwydd;
- Dangosodd ein Harolwg o Agweddau Defnyddwyr gynnydd yn hyder cyffredinol defnyddwyr mewn mesurau cyfredol i ddiogelu iechyd o ran diogelwch bwyd, a chynnydd yn hyder yr Asiantaeth Safonau Bwyd a chynnydd sylweddol yn yr ymwybyddiaeth o'r FSA;
- Rydym wedi dechrau helpu pobl i wella eu hiechyd deietegol. Ymhlith yr enghreifftiau mae hyrwyddo pwysigrwydd deiet cytbwys i blant ysgol, adolygu'r dystiolaeth a chynghori ar yr halen a fwyteir a chomisiynu adolygiad o'r dystiolaeth ar lefelau diogel o fitaminau a mwynau;
- Rydym wedi sefydlu Tasglu Gwastraff Bwyd i ddatblygu cynigion i leihau'r posibiliadau o dwyllo drwy ailgylchu bwyd gwastraff yn anghyfreithlon.

*c) Gwariant ar adnoddau yn 2002/03*

Dangosir y gymhariaeth rhwng y gwariant gwirioneddol ar adnoddau a'r Amcangyfrif isod:

| | 2002/03 | |
|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Gwariant |
| | £m | £m |
| Pencadlys FSA San Steffan | 112.3 | 95.0 |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | 25.0 | 25.0 |
| **Cyfanswm yr FSA wedi ei hariannu gan San Steffan** | **137.3** | **120.0** |
| FSA Yr Alban | 5.5 | 4.5 |
| FSA Cymru | 2.4 | 2.1 |
| FSA Gogledd Iwerddon | 1.5 | 1.4 |
| **Cyfanswm yr FSA** | **146.6** | **128.0** |

Dangosir y ffigurau cymharol ar gyfer 2001/02 isod:

| | 2001/02 | |
|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Gwariant |
| | £m | £m |
| Pencadlys FSA San Steffan | 104.6 | 88.7 |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | 20.9 | 18.1 |
| **Cyfanswm yr FSA wedi ei hariannu gan San Steffan** | **125.5** | **106.8** |
| FSA Yr Alban | 5.8 | 5.4 |
| FSA Cymru | 2.0 | 2.1 |
| FSA Gogledd Iwerddon | 1.2 | 1.2 |
| **Cyfanswm yr FSA** | **134.5** | **115.5** |

Cost net yr FSA Gyfunol oedd £128.0m o gymharu â'r arian a oedd ar gael hyd at 31/03/03 sef £146.6m. Mae'r FSA yn ei chyfanrwydd yn rheoli ei gwariant dros Gyfnod Adolygiad o Wariant y Llywodraeth o dair blynedd. Caiff y gwarged hwn ei gario ymlaen, gyda chytundeb y Trysorlys, i 2003/04 er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r pwysau cyllido yn y dyfodol, a nodwyd eisoes.

Cost net yr MHS oedd £25.0m, a gynyddodd o £18.1m yn 2001/02. Mae cost gweithrediadau net yr MHS wedi cynyddu am fod y mwyafrif o'r gweithfeydd yn codi ffioedd arolygu yn seiliedig ar ladd a phrosesu carcasau a bennir gan yr UE nad ydynt yn ymwneud â chost wirioneddol yr archwiliadau o'r gweithfeydd. Mae'r MHS hefyd yn mynd i gostau cynyddol na ellir eu hadennill o ganlyniad i gyflwyno goruchwyliaeth lawn gan Filfeddyg Swyddogol (OVS) mewn gweithfeydd llai er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol yr UE. Cofnodir y costau a'r incwm sy'n gysylltiedig â'r MHS ar sail rhaglen yn hytrach nag ar sail cost weinyddol, yn dilyn cyngor gan y Trysorlys.

Ceir esboniad llawn, yn rhoi manylion y gwariant o'i gymharu â'r Amcangyfrif yn Atodlen 1 y cyfrifon hyn. Rhydd Atodlenni 2 i 5 y datganiad cost weithredol, y fantolen, y datganiad llif arian, a'r adnoddau yn ôl nodau adrannol yn y drefn honno gyda manylion ychwanegol yn cael eu darparu yn y nodiadau i'r cyfrifon sy'n dilyn yr atodlenni.

*d) Rhoi Adroddiad ar Berfformiad*

Roedd Adroddiad Adrannol yr FSA yng Ngwanwyn 2002 yn cynnwys amcangyfrif yr FSA o adnoddau ar gyfer 2002/03 ynghyd â thablau craidd fel y nodwyd gan y Trysorlys. Rhoddodd Adroddiad Adrannol yr FSA yn 2002 fanylion ar sut rydym yn datblygu i gyrraedd ein targedau Cytundeb Darparu Gwasanaethau, a bodloni gofynion Moderneiddio Llywodraeth. Yn y cyfamser, cyhoeddasom ein Hadroddiad ar Berfformiad yr Hydref, a gwmpasai'r cyfnod hyd at ddiwedd Medi 2002. Mae copïau o'r adroddiadau hyn ar gael o'r Llyfrfa neu o'n gwefan. Mae'r wefan hefyd yn darparu data ar berfformiad ar gyfer ein swyddfeydd datganoledig.

## Strwythur a Threfn

Mae'r FSA yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth. Mae'r staff yn atebol drwy Brif Weithredwr i'r Bwrdd, yn hytrach nag yn uniongyrchol i Weinidogion. Penodwyd y Prif Weithredwr gan Brif Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil o dan reolau Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a hyd at 12 aelod. Penodwyd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Gweinidogion yr Alban, a Gweinidogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Gogledd Iwerddon. Penodwyd dau aelod o'r Bwrdd gan Weinidogion yr Alban, un gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac un gan Weinidogion Swyddfa Gogledd Iwerddon. Mae gan yr aelodau hyn gyfrifoldebau arbennig dros faterion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Penodwyd yr wyth aelod arall gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gyfeiriad strategol cyffredinol yr FSA, am sicrhau y cyflawnir rhwymedigaethau cyfreithiol ac am sicrhau bod penderfyniadau a chamau a gymerir yn ystyried cyngor gwyddonol yn ogystal â buddiannau defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill. Seilir y cynnydd blynyddol yng nghydnabyddiaeth Aelodau'r Bwrdd ar yr hyn a argymhellir ar gyfer deiliaid swyddi gan Gorff Adolygu Cyflogau Aelodau Hŷn. Cynyddir cyflogau staff hŷn y Gwasanaeth Sifil (SCS) yn unol â system talu ar sail perfformiad ac adolygu'r Swyddfa'r Cabinet yn ganolog (SCS).

Mae'r Bwrdd yn atebol i'r Senedd drwy'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, i Weinidogion Iechyd yng Nghymru a'r Alban ac i'r Gweinidog dros Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon.

## Bwrdd yr FSA

Yn ystod y flwyddyn, bu'r canlynol yn aelodau o Fwrdd allanol yr FSA:

| | |
|---|---|
| Syr John Krebs | Cadeirydd yr FSA |
| Suzi Leather | Dirprwy Gadeirydd yr FSA (ymddeolodd ar 31 Rhagfyr 2002) |
| Ann Hemingway | Dirprwy Gadeirydd Dros Dro yr FSA (o 1 Ionawr i 13 Gorffennaf 2003) a Chadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol o Gymru. Penodwyd Julia Unwain i'r FSA fel Dirprwy Gadeirydd ar 14 Gorffennaf 2003. |

## Aelodau eraill y Bwrdd:

| | |
|---|---|
| Syr John Arbuthnott | Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Fwyd yn yr Alban, a ymddeolodd ar 30 Tachwedd 2002 |
| Michael Gibson | Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Fwyd yn yr Alban o 4 Tachwedd 2002 |
| Michael Walker | Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Gogledd Iwerddon. |
| Richard Ayre | |
| Karol Bailey | gadawodd y Bwrdd ar 20 Chwefror 2003 ar ddiwedd cyfnod ei phenodiad |
| Y Farwnes Valerie Howarth o Breckland | |
| Yr Athro Jeya Henry | gadawodd y Bwrdd ar 20 Chwefror 2003 ar ddiwedd cyfnod ei benodiad |
| Robert Rees | |
| Vernon Sankey | |
| Sandra Walbran | penodwyd ar 1 Mehefin 2002 |
| Iain MacDonald | penodwyd ar 1 Mehefin 2002 |
| Chrissie Dunn | penodwyd ar 1 Mawrth 2003 |
| Dr Sati Ariyanayagam | penodwyd ar 1 Mawrth 2003 |
| Yr Athro Andrew Miller | penodwyd ar 1 Mawrth 2003 |

## Tîm Rheoli'r FSA

Cyflawnir y gwaith o reoli'r FSA o ddydd i ddydd drwy'r Bwrdd Rheoli Gweithredol (EMB). Roedd yr aelodaeth ar 31 Mawrth 2003 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dr Jon Bell | Prif Weithredwr Dros Dro a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro (penodwyd Dr Bell yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu ar 2 Ebrill 2003 yn dilyn cystadleuaeth agored) |
| Pat Stewart | Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro a Chyfarwyddwr Adnoddau a Strategaeth Gorfforaethol (penodwyd Pat Stewart yn Ddirprwy Brif Weithredwr ar 9 Ebrill 2003) |
| David Statham | Cyfarwyddwr Gorfodi a Safonau Bwyd |
| Dr Andrew Wadge | Cyfarwyddwr Dros Dro y Grŵp Polisi ar Ddiogelwch Bwyd |
| Neil Martinson | Cyfarwyddwr Cysylltiadau |
| David Dunleavy | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Dr George Paterson | Cyfarwyddwyr FSA yr Alban |
| Joy Whinney | Cyfarwyddwr FSA Cymru |
| Morris McAllister | Cyfarwyddwr FSA Gogledd Iwerddon |

Geoffrey Podger oedd y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu nes iddo adael ar 31 Ionawr 2003. Prif Weithredwr y Gwasanaeth Hylendid Cig ar 31 Mawrth 2003 oedd Chris Lawson. Mae Prif Weithredwr yr MHS yn aelod hefyd o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA.

Penodwyd pob uwch swyddog o dan y rheolau a bennwyd gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil. Datgelir manylion am gyflogau a phensiynau'r Bwrdd a'r Bwrdd Rheoli Gweithredol yn Nodyn 3.

## Pwyllgorau Cynghori'r FSA

Yn ogystal â phrif Fwrdd yr FSA, mae gan yr FSA bwyllgorau ymgynghorol i gwmpasu Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgorau yn gweithredu fel cyrff ymgynghorol annibynnol i'r FSA. Fe'u cadeirir gan Aelodau'r Bwrdd ac mae'n ofynnol i Fwrdd yr FSA yn ôl statud ystyried eu cyngor yn ei waith. Rhestrir Aelodau'r Pwyllgorau isod:

**Cymru – Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol**

Ann Hemingway (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Dr David Casemore | Dr Robert Bell |
| Yr Athro Margaret Griffiths | Gilli Davies |
| Mrs Dilwen Philips | Yr Athro James Parry |
| David Smith | Yr Athro Robert Pickard |

**Yr Alban – Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol**

Michael Gibson (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Yr Athro William Reilly | Ann Campbell |
| Yr Athro Hugh Pennington | Dr Marnie Somerville |
| Wilma Odell | Ross MacDonald |
| Yr Athro Philip Thomas | William Davidson |
| Yr Athro Andrew Miller | Catherine Brady |

**Gogledd Iwerddon – Aelodau'r Pwyllgorau Ymgynghorol**

| | |
|---|---|
| Michael Walker (Cadeirydd) | Patricia Grace McCusker |
| Yr Athro David McDowell | Maria McGuinness |
| David Mark | William Taylor |
| David Collins | Samuel Miskelly |
| David Stewart | Dr Vinod Tohani |

## Ariannu'r FSA

Mae'r FSA yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth. Ariennir gwaith Pencadlys yr FSA a'r MHS ym Mhrydain Fawr drwy gyflenwad ar sail adnoddau. Ariennir costau'r FSA yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon drwy'r awdurdod datganoledig perthnasol.

## Y Gwasanaeth Hylendid Cig

Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn asiantaeth weithredol yr FSA. Nod yr MHS yw diogelu iechyd y cyhoedd a lles anifeiliaid pan gânt eu lladd drwy orfodi deddfwriaeth yn effeithiol. Ei brif swyddogaethau yw darparu gwasanaeth archwilio cig i bob gwaith cig trwyddedig, ac i sicrhau y bodlonir y safonau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ar gyfer cynhyrchu cig yn lân ac ar gyfer lles anifeiliaid pan gânt eu lladd. Prif weithgareddau'r MHS yw:

- gorfodi rheolau hylendid ar safleoedd cig ffres trwyddedig;
- darparu archwiliadau cig a rheolaethau ar nodau iechyd ar safleoedd cig coch, cid dofednod a chig adar hela trwyddedig;
- gorfodi rheolaethau hylendid mewn cynhyrchion cig, gweithfeydd briwgig a pharatoi cig, sydd wedi eu cyd-leoli â lladd-dai trwyddedig; a
- gorfodi, ar safleoedd cig ffres trwyddedig, reolaethau dros SRM ac isgynhyrchion anifeiliaid eraill, a rheolaethau sy'n atal cig o wartheg dros 30 mis oed rhag cael ei werthu.

Mae cyfrifon yr FSA ar gyfer adnoddau wedi eu hariannu gan San Steffan yn cynnwys y canlyniadau ar gyfer yr MHS. Mae'r MHS wedi paratoi ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon ei hun sy'n rhoi manylion ychwanegol.

## Perthynas â Staff

Mae'r FSA yn credu bod sicrhau cyfranogiad llawn pob aelod o staff yn ei gwaith yn hollbwysig. Anogir staff i fod yn flaengar a meddwl am ffyrdd newydd o weithio i wella gwaith yr FSA. Mae uwch reolwyr yn cyfarfod yn ffurfiol ac yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr undebau llafur. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd agored rheolaidd y caiff pob aelod o staff eu gwahodd iddynt a'u hannog i'w mynychu. Dosberthir '"FSA Matters", newyddlen fewnol, at bob aelod o staff bob wythnos. Mae'r staff hefyd yn cael "FSA News", a gyhoeddir pob dau fis. Mae gan staff yr MHS ei newyddlen chwarterol eu hunain sef "MHS Update".

## Pensiynau

Mae cyflogeion yr FSA yn weision sifil ac yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae hwn yn gynllun pensiwn Llywodraeth Ganolog nas ariennir. Gwneir taliadau pensiwn drwy gyfrif adnoddau'r PCSPS.

Nid yw Bwrdd yr FSA yn weision sifil ac felly nid ydynt yn aelodau o'r PCSPS. Fodd bynnag, mae gan rai Aelodau'r Bwrdd drefniadau pensiwn tebyg yn annibynnol ar y PCSPS.

Mae gan yr MHS ddau gynllun pensiwn ar wahân. Mae'r mwyafrif o'r staff yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), cynllun buddiannau diffiniedig a reolir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995, ac a weinyddir gan Awdurdod Cronfa Bensiwn Llundain (LPFA). Mae cyflogeion eraill yr MHS yn aelodau o'r PCSPS.

## Cyfle Cyfartal

Nod yr FSA yw bod yn gyflogwr modern a theg, ac mae'n cydnabod ac yn annog potensial gweithlu amrywiol. Mae'r FSA yn ymrwymedig i gyfle cyfartal ac yn anelu at sicrhau y dylai pawb sy'n gweithio ar ran yr FSA neu iddi gael eu trin yn deg a chyda pharch. O ganlyniad, ni wahaniaethir yn erbyn unrhyw gyflogai nac ymgeisydd am swydd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol am resymau megis hil, cenedl, statws priodasol, cenedligrwydd, ethnigrwydd, lliw, crefydd, credoau gwleidyddol, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, cyfrifoldeb dros ddibynyddion, patrwm gwaith neu safle yn y sefydliad. Mae'r FSA yn gweithredu cynllun cyfweld gwarantedig i bobl ag anableddau (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995) sy'n bodloni'r isafswm meini prawf hanfodol ar gyfer y penodiad.

## Polisi Talu Cyflenwyr

Polisi Llywodraeth yw y dylai pob adran ac asiantaeth dalu pob anfoneb nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i'w derbyn, neu'n unol â thermau cytundebol cytûn os nodir fel arall. Yn ystod y flwyddyn talwyd tua 97% o'r anfonebau ar amser.

## Polisi Amgylcheddol

Rydym yn llwyr ymrwymedig i arbed ynni, dŵr ac adnoddau eraill a lleihau gwastraff. Mae adeilad ein pencadlys, Aviation House, yn dilyn polisi ailgylchu gweithredol. Ar hyn o bryd, rydym yn ailgylchu 85% o'n gwastraff yn yr adeilad hwn. Rydym hefyd yn gallu monitro effeithlonrwydd ynni Aviation House drwy'r feddalwedd system rheoli adeiladau.

## Offerynnau Ariannol

Nid yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi nac yn defnyddio deilliaid neu offerynnau ariannol eraill fel y'u disgrifir yn FRS 13.

## Archwilwyr

Archwiliwyd y cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn unol ag adran 5 Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r dystysgrif archwilio ar dudalennau 51 a 52.

## Digwyddiadau pwysig ers diwedd y flwyddyn ariannol.

Dim.

**Dr Jon Bell**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**7 Tachwedd 2003**

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

1. O dan adran 5 Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid gwneud hyn er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys, sy'n manylu ar yr adnoddau a gaffaelwyd, a ddelir, neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd a wnaed o adnoddau gan yr Adran yn ystod y flwyddyn.

2. Paratoir y cyfrifon adnoddau ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Adran, alldro net yr adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd at amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

3. Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Adran gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi cyfrifon yr Adran a thros eu trosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

4. Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, ac yn benodol mae'n ofynnol iddo:

   a. dilyn y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

   b. rhoi ei farn a bwrw amcangyfrifon yn rhesymol;

   c. datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y'u nodir yn y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;

   d. paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

5. Yn ogystal, mae Trysorlys EM wedi penodi Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth (Chris Lawson) i fod yn atebol am y rhannau hynny o gyfrifon yr Adran sy'n ymwneud ag adnoddau'r Gwasanaeth Hylendid Bwyd a'r asedau, y rhwymedigaethau a'r llifau arian cysylltiedig. Nid yw'r penodiad hwn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon yr Adran.

6. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, (gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Adran) ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, a ryddhawyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn Government Accounting. O dan delerau Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, nodir yn ysgrifenedig y berthynas rhwng Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Adran a Swyddog Cyfrifyddu Asiantaeth yr MHS, ynghyd â'u priod gyfrifoldebau.

**Dr Jon Bell**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**7 Tachwedd 2003**

# Datganiad o'r rheolaeth fewnol ar gyfer cyfrifon cyfunol yr FSA

## 1. Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a bennwyd gan Fwrdd yr FSA a Deddf Safonau Bwyd 1999, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau adrannol yr wyf yn bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn Government Accounting.

Mae'r FSA yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth, sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion, ac fe'i harweinir gan Fwrdd a benodir i weithredu er budd y cyhoedd. Rwyf i ac aelodau o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd yr FSA. Rwyf hefyd yn cyfarfod â Chadeirydd Bwrdd yr FSA a'r Dirprwy Gadeirydd bob wythnos.

Fe'm penodwyd fel Swyddog Cyfrifyddu yr FSA wedi ei ariannu gan San Steffan gan y Trysorlys, ac rwyf hefyd yn gweithredu yn rhinwedd y swydd hon ar gyfer FSA Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae gan yr FSA un asiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig. Penodwyd Prif Weithredwr yr MHS fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth. Fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth, mae'n atebol i mi ac i'r Senedd am ddefnydd yr MHS o adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau fel y'u nodir yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae elfennau allweddol system effeithiol o reolaeth fewnol ar waith gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnwys:

- Bwrdd Rheoli Gweithredol, wedi ei gadeirio gennyf i ac yn cynnwys holl Gyfarwyddwyr y DU, sydd fel arfer yn cyfarfod bob mis;
- trefniadau archwilio mewnol, gan gynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad, sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth;
- adroddiadau rheolaidd gan yr uned archwiliad mewnol, sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- Pwyllgor Archwilio, a gyfansoddwyd yn unol â chanllawiau'r Trysorlys, i'm cynghori fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn gyda Chadeirydd anweithredol sy'n cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr FSA ar waith y pwyllgor;
- cynllun strategol sy'n nodi prif nodau ac amcanion yr FSA ar gyfer 2001-2006;
- cofrestr risg strategol yn ymgorffori cynlluniau trin risgiau;
- proses cynllunio busnes ac ariannol gysylltiedig (cynlluniau corfforaethol a busnes lleol) sy'n ystyried risgiau i fusnes;
- adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i gyfarfodydd misol y Bwrdd Rheoli Gweithredol ar gyfer cynllunio busnes ac ariannol;
- adroddiadau rheolaidd ar reolaethau mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg, i'r Pwyllgor Archwilio;
- Deiliaid y Gyllideb yn cymeradwyo'r gwariant yn chwarterol;
- cymeradwyo cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol gan Ddeiliaid y Gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn;
- cymorth a hyfforddiant wedi ei dargedu i ddiwallu anghenion rhannau gwahanol o'r sefydliad gan gynnwys ei swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- sicrwydd ffurfiol gan Brif Weithredwr y Gwasanaeth Hylendid Cig ar reolaethau mewnol a chynrychiolaeth ar Bwyllgor Archwilio'r MHS.

## 2. Diben y system o reolaeth fewnol

Cynllunnir y system o reolaeth fewnol er mwyn rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall y system ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion adrannol, gwerthuso pa mor debygol ydyw y bydd y risgiau hynny yn digwydd a'r effaith pe baent yn digwydd, a'u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system wedi bod ar waith yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n unol â chanllawiau'r Trysorlys.

## 3. Capasiti i ymdrin â risg

Mae tîm rheoli'r FSA wedi ymgorffori'r broses o reoli risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad a chynhelir adolygiadau a chyflwynir adroddiadau arnynt yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r cyfrifoldeb dros reoli'r prif risgiau o ddydd i ddydd wedi ei neilltuo i Uwch Reolwyr ac mae'n ofynnol iddynt sicrhau y rhoddir digon o sylw i'r dasg hon.

Cyhoeddwyd dau ddatganiad polisi risg; fframwaith ar gyfer rheoli risg i fusnes sy'n ymgorffori canllawiau'r Trysorlys, a fframwaith risg o ran bwyd sy'n disgrifio, i gynulleidfa gyffredinol, ymagwedd yr FSA tuag at reoli risgiau o ran bwyd. Sicrhawyd bod llawlyfr risg i fusnes ar gael i bob aelod o staff, sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn y sefydliad i reoli risg i fusnes, sy'n cynnwys y broses o gynyddu risg a chyfrifoldebau'r unigolion yn y sefydliad cyfan. Datblygwyd rhaglen o hyfforddiant a chymorth ar gyfer y broses o gynllunio busnes. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar reoli risg.

Adolygir y broses o gynllunio busnes yn ffurfiol bob blwyddyn a'i diwygio i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd ac ymgorffori enghreifftiau o arferion da.

## 4. Yr amgylchedd risg

Yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd, cydnabyddir a rheolir y prif gategorïau canlynol o risg:

- **risgiau strategol:** nodir y rhain a chânt eu monitro gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'u hadolygu'n ffurfiol bob chwarter. Fe'u cynhwysir hefyd yn y gofrestr risg strategol. Mae un Cyfarwyddwr yn gyfrifol am bob risg ac mae'n rheoli pa mor debygol ydyw y bydd y risg yn digwydd ac effaith y risg;
- **prif risgiau i brosiectau:** caiff y rhain eu rheoli yn ôl safonau rheoli prosiectau ac fe'u cynhwysir mewn cofrestr risgiau;
- **risgiau lleol:** mae'r FSA wedi penderfynu na fyddai cofrestrau risg lefel is yn briodol ac mae gan reolwyr lleol yr hawl i benderfynu sut y caiff y risgiau hyn eu rheoli.

Mae Bwrdd yr FSA a'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd ar reoli risg. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw fy nghynghori ar p'un a yw'r prosesau ar gyfer nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau yn gadarn, ond rôl Bwrdd yr FSA yn y cyd-destun hwn yw rhoi sylwadau ar p'un a yw'r sylw a roddir i risgiau strategol yn gynhwysfawr.

Ymhlith y prif risgiau a nodwyd hyd yma mae:

- asesiad anghywir o risg o ran bwyd;
- methiant i gyfathrebu'n effeithiol;
- methiant i orfodi Cyfraith Diogelwch Bwyd yn gywir;
- methiant i ddylanwadu ar randdeiliaid i weithredu er budd defnyddwyr;
- prinder staff â'r sgiliau priodol.

Mae Deddf Safonau Bwyd 1999 yn rhoi dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gweithredu er budd defnyddwyr.

O ran iechyd y cyhoedd mae'r FSA yn mabwysiadu ymagwedd ragofalus tuag at risg sy'n golygu y caiff camau eu cymryd efallai cyn bod prawf pendant o berygl. Cymerir camau yn gymesur â'r farn orau am y risg a chânt eu hadolygu os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg.

Cynhwysir ein rheolaeth o risg strategol yn ein gwaith o wneud, cynllunio a chyflwyno polisïau drwy ymgorffori rheolaeth o risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad fel y cânt eu hadolygu ac fel y cyflwynir adroddiadau arnynt drwy gydol y flwyddyn. Ymgorfforwyd rheolaeth o risg hefyd yn y broses cynllunio busnes ar lefelau eraill mewn ffordd gymesur. Ategwyd y broses gynllunio yn llawn gan raglen o gymorth a dargedwyd i ddiwallu anghenion y rhannau gwahanol o'r sefydliad, a rhaglen o hyfforddiant a chymorth i'r broses o gynllunio busnes sy'n cynnwys rheoli risg.

Mae ein hamgylchedd risg yn cynnwys rheoli risgiau sy'n effeithio ar y cyhoedd. Mae Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal ei holl gyfarfodydd gwneud penderfyniadau ynghylch polisïau yn gyhoeddus. Hysbysebir y lleoliadau a'r agendâu ymlaen llaw ac mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd. Mae cyfle i aelodau'r gynulleidfa ofyn cwestiynau ymhob cyfarfod.

Yn ein barn ni, mae ymgynghori â'n rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o gyflawni ein gwerthoedd craidd. Mae'n ofynnol i ni yn ôl statud ymgynghori ar ein gweithgareddau â'r rhai y mae ein penderfyniadau yn effeithio arnynt. Yn ogystal â llawer iawn o gyswllt anffurfiol â rhanddeiliaid, mae'r Asiantaeth yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ysgrifenedig ffurfiol fel rhan o'r datblygiad polisi. Rydym hefyd yn cynnal fforymau rhanddeiliaid ar faterion allweddol lle y gwahoddwn pob rhanddeiliad allweddol i gyfarfod a thrafod safbwyntiau gwahanol.

Un o'n gwerthoedd craidd yw rhoi defnyddwyr yn gyntaf ac rydym wedi sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr i hysbysu'r Asiantaeth, ymhlith pethau eraill, am faterion allweddol sy'n achos pryder ar hyn o bryd neu sy'n achos pryder newydd i ddefnyddwyr; rhoi sylwadau ar amcanion strategol yr Asiantaeth a chynllunio ymlaen llaw; a darparu'r Asiantaeth ag adborth ar effeithiolrwydd ein polisïau wrth ymateb i bryderon defnyddwyr.

## 5. Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr Adran sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol gan y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun i sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus ar waith.

Mae'r FSA yn ymdrechu'n galed i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol.

Mae Cynllun Strategol yr FSA 2001/06 yn nodi prif nodau ac amcanion yr FSA am gyfnod o bum mlynedd. Mae targedau yng nghynllun busnes corfforaethol blynyddol yr FSA, ac mewn cynlluniau busnes lleol o fewn y sefydliad, wedi eu cysylltu â'r themâu a nodir yn y Cynllun Strategol.

Mae trefniadau archwilio mewnol yr FSA yn cynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth. Mae adroddiadau gan yr uned archwiliad mewnol yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

**Dr Jon Bell**
**Prif Weithredwr**
**7 Tachwedd 2003**

# Tystysgrif archwilio

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 53 i 74 o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'u diwygiwyd drwy ailbrisio rhai asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifyddu a nodir ar dudalennau 58 i 59.

## Priod gyfrifoldebau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, y Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 47 mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn gyfrifol am baratoi gweddill cynnwys y Cyfrifon. Sefydlwyd fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a chawsant eu paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant a'r incwm ymhob ystyr berthnasol wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r Adroddiad Blynyddol, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r FSA wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn y Cyfrifon, ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad amlwg neu anghysondeb perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 48 i 50 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr FSA ag arweiniad y Trysorlys 'Llywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad Rheolaeth Fewnol'. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r farn bwysig a fynegwyd gan yr FSA wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r FSA, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm, ymhob ystyr berthnasol, wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

Tystysgrif

# Tystysgrif archwilio

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Asiantaeth Safonau Bwyd (Cyfunol) ar 31 Mawrth 2003 a'r alldro net o ran adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn a ddaeth i ben, a'u bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a'r cyfarwyddiadau a wneir o dan y Ddeddf honno gan y Trysorlys; ac
- ym mhob ystyr berthnasol mae'r gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**John Bourn**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**25 Tachwedd 2003**

**Swyddfa Archwilio Genedlaethol**
**157-197 Buckingham Palace Road**
**Victoria**
**Llundain SW1W 9SP**

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 1

## Cyfrifon cyfunol 2002/03

### Crynodeb o alldro'r adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | | 2002/03 | | | | | | | 2001/02 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Amcangyfrif | | | Alldro | | | | |
| | | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Cyfanswm Alldro Net o'i gymharu ag Arbedion Amcangyfrifedig (-gormodedd) | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Adnoddau | | | | | | | | | |
| Tŷ'r Cyffredin | | 192,569 | (55,270) | 137,299 | 157,471 | (37,435) | 120,036 | 17,263 | 106,800 |
| Senedd yr Alban | | 5,498 | - | 5,498 | 4,533 | - | 4,533 | 965 | 5,410 |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | | 2,351 | - | 2,351 | 2,060 | - | 2,060 | 291 | 2,041 |
| Cynulliad Gogledd Iwerddon | | 1,461 | - | 1,461 | 1,376 | - | 1,376 | 85 | 1,245 |
| **Cyfanswm yr adnoddau** | | **201,879** | **(55,270)** | **146,609** | **165,440** | **(37,435)** | **128,005** | **18,604** | **115,496** |
| **Gofyniad Arian Parod net** | | | | **143,935** | | | **121,900** | **22,035** | 102,039 |
| **Cysoni Adnoddau â'r Gofyniad Arian Parod** | **Nodyn** | | | | | | **£000oedd** | **£000oedd** | £000oedd |
| **Cyfanswm yr Adnoddau net** | | | | **146,609** | | | **128,005** | **18,604** | 115,496 |
| **Cyfalaf:** | | | | | | | | | |
| Prynu asedau sefydlog: prynu arian parod | 10 | | | 637 | | | 835 | (198) | 1,611 |
| Buddsoddiadau | | | | - | | | - | - | - |
| **Dyraniad cymorth anweithredol** | | | | - | | | - | - | - |
| **Addasiadau croniadau:** | | | | | | | | | |
| Eitemau anariannol | 4 | | | (3,311) | | | (2,640) | (671) | (2,983) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian parod | 11 | | | - | | | (4,498) | 4,498 | (12,586) |
| Defnyddio darpariaeth | 15 | | | - | | | 198 | (198) | 501 |
| **Gofyniad Arian Parod Net (Atodlen 4)** | | | | **143,935** | | | **121,900** | **22,035** | 102,039 |

Esboniad o'r amrywiad rhwng Amcangyfrif ac alldro (cyfanswm yr adnoddau net):
Roedd gwariant adnoddau'r FSA am y flwyddyn bron £19m yn llai na'r ddarpariaeth Amcangyfrif. Mae'r FSA yn rheoli ei gwariant dros gyfnod o dair blynedd yr Adolygiad o Wariant y Llywodraeth. Bydd y tanwariant ar gyfer 2002/03, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cael ei gario ymlaen i 2003/04 i ariannu gweithgaredd arfaethedig parhaol yr FSA.

**Esboniad o'r amrywiad rhwng gofyniad arian parod net yr Amcangyfrif a'r alldro (gofyniad arian parod net):**

**Addasiadau'r cyfnod blaenorol**
Cofnodir costau ac incwm y Gwasanaeth Hylendid Cig yn awr, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, fel gwariant rhaglen yn hytrach na gwariant gweinyddol. Ailddatganwyd ffigurau 2001/02 i adlewyrchu'r newid yn y polisi cyfrifyddu.

**Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol**
Ni ildiwyd unrhyw ddyraniadau cymorth dros ben na derbyniadau ychwanegol y Gronfa Gyfunol a oedd yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

**Alldro gwirioneddol – adnoddau:**
Cais am adnoddau: Swm gwirioneddol alldro net yr adnoddau oedd £128,005,324.78. Swm gwirioneddol yr arbedion mewn adnoddau yn ychwanegol at yr Amcangyfrif oedd £18,603,675.22.

**Alldro gwirioneddol – arian parod:**
Gofyniad arian parod net: Y gofyniad alldro net oedd £121,900,526.43 sef £22,034,473.57 yn llai na'r amcangyfrif.

Datganiad

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 2

## Datganiad cost weithredol 2002/03

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | £000oedd | 2002/03 £000oedd | 2001/02 (ailddatganwyd) £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Costau Gweinyddol** | | | | |
| Costau Staff | 2 | 24,349 | | 22,157 |
| Costau Gweinyddol Eraill | 4 | 16,336 | | 16,754 |
| **Costau Gweinyddol Gros** | | | **40,685** | 38,911 |
| Incwm Gweithredol | 6 | | (196) | (662) |
| **Costau Gweinyddol Net** | | | **40,489** | 38,249 |
| **Costau'r Rhaglen** | | | | |
| Costau staff | 2 | 44,841 | | 42,108 |
| Gwariant | 5 | 79,914 | | 76,733 |
| llai: Incwm | 6 | (37,239) | | (41,594) |
| **Costau Net y Rhaglen** | 5 | | **87,516** | 77,247 |
| **Cost Weithredol Net** | | | **128,005** | 115,496 |
| **Alldro Net yr Adnoddau** | | | **128,005** | 115,496 |

Mae pob gweithgaredd yn parhau.

## Datganiad o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig

**Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003**

| | Nodyn | 2002/03 £000oedd | 2001/02 £000oedd |
|---|---|---|---|
| Ennill (colled) net wrth ailbrisio asedau sefydlog | 17 | 508 | 40 |
| Addasiad y flwyddyn flaenorol | | - | (22) |
| **Cyfanswm yr enillion (colledion) cydnabyddedig am y flwyddyn** | | **508** | 18 |

mantolen

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 3

## Mantolen

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | £000oedd | 31 Mawrth 2003 £000oedd | 31 Mawrth 2002 £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | | | |
| Asedau anniriaethol | 9 | 286 | | 318 |
| Asedau diriaethol | 10 | 6,510 | | 7,156 |
| | | | **6,796** | 7,474 |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Dyledwyr | 12 | 11,828 | | 12,668 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 13 | 5,456 | | 8,647 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **17,284** | | 21,315 |
| **Credydwyr (symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn)** | 14 | (28,395) | | (28,714) |
| **Asedau Cyfredol net** | | | (11,111) | (7,399) |
| | | | **(4,315)** | 75 |
| **Credydwyr (symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn)** | 14 | | (4,398) | (3,663) |
| **Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau** | 15 | | (329) | (561) |
| | | | **(9,042)** | (4,149) |
| **Ecwiti'r Trethdalwr** | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 16 | | (9,611) | (4,210) |
| Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn | 17 | | 569 | 61 |
| | | | **(9,042)** | (4,149) |

**Dr Jon Bell**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**7 Tachwedd 2003**

Datganiad llif

Asiantaeth Safonau Bwyd

# Atodlen 4

## Datganiad llif arian parod

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | 2002/03<br>£000oedd | 2001/02<br>£000oedd |
|---|---|---|---|
| All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol (a) | | (121,116) | (100,428) |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol (b) | | (835) | (1,611) |
| Ariannu o'r Gronfa Gyfunol (c) | | 111,047 | 96,591 |
| Ariannu o'r Awdurdodau Datganoledig (c) | | 7,713 | 7,029 |
| **(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod yn y cyfnod** | 13 | **(3,191)** | 1,581 |

### (a) Cysoni cost weithredol â'r llifau arian parod gweithredol

| | Nodyn | 2002/03<br>£000oedd | 2001/02<br>£000oedd |
|---|---|---|---|
| Cost Weithredol Net (megis Atodlen 1) | | 128,005 | 115,496 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | 4 | (2,640) | (2,983) |
| Addasiadau ar gyfer symudiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian parod | 11 | (4,447) | (12,586) |
| Defnydd o ddarpariaethau | | 198 | 501 |
| **All-lif/(mewnlif) arian parod net o weithgareddau gweithredol** | | **121,116** | 100,428 |

### (b) Dadansoddi gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol

| | Nodyn | 2002/03<br>£000oedd | 2001/02<br>£000oedd |
|---|---|---|---|
| Ychwanegiadau asedau sefydlog anniriaethol | 9 | 96 | 160 |
| Ychwanegiadau asedau sefydlog diriaethol | 10 | 791 | 1,523 |
| Elw o waredu asedau sefydlog | | (52) | (72) |
| **All-lif/(mewnlif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **835** | 1,611 |

### (c) Dadansoddi'r dull ariannu a chysoni â'r gofyniad arian parod net

| | Nodyn | 2002/03<br>£000oedd | 2001/02<br>£000oedd |
|---|---|---|---|
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwi) | | 111,047 | 96,591 |
| O Awdurdodau Datganoledig | | 7,713 | 7,029 |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn arian parod | | 3,191 | (1,581) |
| Addasiadau ar gyfer taliadau a derbyniadau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflenwi | | (51) | - |
| **Gofyniad arian parod net (Atodlen 1)** | | **121,900** | 102,039 |

Asiantaeth Safonau Bwyd

# Atodlen 5

## Adnoddau yn ôl nodau ac amcanion adrannol

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | | | 2002/03 | | | 2001/02 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| | Gros | Incwm | Net | Gros | Incwm | Net |
| **Nod 1** | | | | | | |
| Gwella hyder yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 23,272 | (63) | 23,209 | 23,897 | (177) | 23,720 |
| **Nod 2** | | | | | | |
| Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 39,140 | (1,278) | 37,862 | 31,316 | (1,473) | 29,843 |
| **Nod 3** | | | | | | |
| Diogelu defnyddwyr drwy wella Diogelwch a Safonau Bwyd | 103,028 | (36,094) | 66,934 | 102,538 | (40,605) | 61,933 |
| | **165,440** | **(37,435)** | **128,005** | **157,751** | **(42,255)** | **115,496** |

Nodiadau i'r
# cyfrifon

nodiadau

1. Polisïau Cyfrifyddu

**1.1 Sail y Paratoi**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau 2002-03 (RAM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y RAM yn dilyn arferion cyfrifyddu i gwmnïau a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU (UK GAAP) i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus. Lle mae'r RAM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu a ystyrid yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig yr adran at ddiben rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiedir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

**1.2 Confensiwn Cyfrifyddu**

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi eu haddasu i roi cyfrif am ailbrisio asedau sefydlog, a stociau, lle bo hynny'n berthnasol, ar eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

**1.3 Sail y Cyfuno**

Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys cyfuno'r FSA graidd a'i hasiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS). Yn ogystal, mae cyfrifon cyfunol yr FSA yn ymgorffori canlyniadau gan swyddfeydd datganoledig yr FSA yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fe'u hariennir yn uniongyrchol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban, a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn y drefn honno. Mae'r FSA graidd a'r MHS yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi eu hadroddiad blynyddol a'u cyfrifon eu hunain.

Nid yw cyfarwyddiadau'r cyfrifon ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn galw am baratoi mantolenni ar wahân. O ganlyniad, mae'r cyfrifon cyfunol yn cynnwys asedau a rhwymedigaethau sy'n ymwneud â Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon nad ydynt wedi eu nodi'n unigol yn eu datganiadau ariannol.

**1.4 Asedau Sefydlog Anniriaethol**

Caiff trwyddedau meddalwedd gyfrifiadurol gyda chost prynu o fwy na £2,000 (gan gynnwys TAW na ellir ei hadennill a dosbarthiad) eu cyfalafu a'u hailbrisio bob 1 Ebrill gan ddefnyddio mynegeion priodol.

**1.5 Asedau Sefydlog Diriaethol**

Caiff asedau sefydlog diriaethol unigol neu mewn grŵp gyda chost prynu o fwy na £2,000 (gan gynnwys TAW na ellir ei hadennill a dosbarthiad) eu cyfalafu a'u hailbrisio bob 1 Ebrill gan ddefnyddio mynegeion priodol. Ailddatgenir asedau sefydlog i'w gwerth cyfredol bob blwyddyn. Nid yw'r FSA yn berchen ar unrhyw dir neu adeiladau ar hyn o bryd. Caiff asedau gweithredol nad ydynt yn gysylltiedig ag eiddo eu hailbrisio i'w gwerthu ar y farchnad agored lle mae ar gael, neu ar sail cost adnewyddu wedi ei dibrisio lle nad yw gwerth y farchnad ar gael. Fel arfer defnyddir mynegeion cyhoeddedig sy'n briodol i gategori'r ased er mwyn amcangyfrif y gwerth.

Cafodd cyfrifiaduron bwrdd gwaith a etifeddwyd gan yr FSA o'r Adran Iechyd a'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar 1 Ebrill 2000, ynghyd â swmp-brynu cyfrifiaduron newydd, eu cyfalafu ar eu gwerth teg ar y Diwrnod Breinio. Mae cyfrifiaduron bwrdd gwaith newydd a gaffaelwyd ers y dyddiad hwnnw sy'n werth llai na £2,000 wedi eu dibrisio fel treuliau.

Caiff gosodiadau a ffitiadau a gaffaelwyd mewn cysylltiad ag ailwampio eu cyfalafu os yw cyfanswm y gost yn fwy na £2,000. Nodir polisi cyfalafu'r MHS yn adroddiad blynyddol a chyfrifon yr MHS.

**1.6 Dibrisiant**

Ni chaiff tir ac asedau rhydd-ddaliadol a geir wrth adeiladu eu dibrisio. Darperir dibrisiant ac amorteiddiad ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu prisiad asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol yn y drefn honno drwy gymhwyso'r dibrisiant llinol dros y bywydau defnyddiol amcangyfrifedig canlynol:

| Asedau diriaethol: | |
|---|---|
| Gwasanaethyddion cyfrifiaduron ac offer cyfrifiadurol | 4 blynedd |
| Peiriannau swyddfa | 7 mlynedd |
| Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau | 7 mlynedd |
| Cerbydau | 4 blyned |

| Asedau anniriaethol: | |
|---|---|
| Trwyddedau cyfrifiadurol a meddalwedd | 7 mlynedd |

**1.7 Stociau a Gwaith ar Droed**

Prisir nwyddau traul ar gost, os cânt eu dal at ddefnydd presennol, neu fel arall gwerth net y gellir ei wireddu.

**1.8 Ymchwil a Datblygiad**

Ni chaiff gwariant ar ymchwil ei gyfalafu. Caiff gwariant ar ddatblygiad mewn cysylltiad â chynhyrchion neu wasanaethau sydd i'w cyflenwi ar sail adnewyddu cost lawn ei gyfalafu os yw'n bodloni'r meini prawf hynny a nodir yn SSAP13. Cyfalafir gwariant datblygu arall os yw'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y RAM a addasir o'r SSAP13 i ystyried y cyd-destun nid er elw. Nid yw gwariant sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu yn cael ei drin fel cost weithredol yn y flwyddyn y caiff ei wario. Caiff asedau sefydlog a gaffaelir i'w defnyddio ar gyfer ymchwil a datblygiad eu dibrisio dros fywyd y prosiect cysylltiedig, neu yn unol â chategori'r ased os yw'r ased i'w ddefnyddio ar gyfer gwaith cynhyrchu dilynol.

Cafodd gwariant ar ymchwil a datblygiad ei drin fel cost weithredol yn y flwyddyn y cafodd ei wario.

**1.9 Incwm gweithredol**

Incwm gweithredol yw incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredol yr FSA. Yr incwm yw cyfanswm yr incwm cronedig am y flwyddyn, ac fe'i dangosir heb Dreth ar Werth. Mae gan yr FSA incwm o waith samplu llaeth a llaethdai ac o archwiliadau radiolegol. Mae'n cynnwys incwm dyraniad cymorth y Bleidlais ac incwm i'r Gronfa Gyfunol, y mae Trysorlys EM wedi cytuno y dylid ei drin fel incwm gweithredol. Yn ychwanegol at hyn, mae gan yr MHS incwm o archwiliadau hylendid cig ac o sefydliadau'r llywodraeth.

### 1.10 Gwariant ar Weinyddu ac ar y Rhaglen

Dadansoddir y Datganiad Cost Weithredol rhwng costau gweinyddol a chostau'r rhaglen. Mae costau gweinyddol yn adlewyrchu cost rhedeg yr Adran fel y nodir o dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol, ynghyd ag incwm gweithredol cysylltiedig. Dadansoddir incwm yn y nodiadau rhwng yr hyn y caniateir iddo, o dan y gyfundrefn, gael ei wrthbwyso yn erbyn costau gweinyddol gros wrth bennu'r alldro yn erbyn y terfyn cost weinyddol a'r incwm gweithredol na chaniateir iddo gael ei wrthbwyso. Mae costau'r rhaglen yn adlewyrchu costau anweinyddol gan gynnwys taliadau eraill gan yr FSA.

Dylid nodi bod yr holl wariant gan y Gwasanaeth Hylendid Cig, gan gynnwys costau staffio a gweinyddol, yn cael ei ystyried fel costau'r rhaglen at ddibenion cyfrifyddu adnoddau.

### 1.11 Cost Cyfalaf

Caiff tâl a godir sy'n adlewyrchu cost cyfalaf a ddefnyddiwyd gan yr FSA, ei gynnwys yn y costau gweithredol. Cyfrifir y tâl a godir ar gyfradd safonol y Llywodraeth o 6% ar bob ased llai rhwymedigaethau heblaw balansau arian parod gyda Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol (PMG) a rhwymedigaethau a ildiwyd i'r gronfa gyfunol. Cyfrifir y tâl a godir yn flynyddol.

### 1.12 Cyfnewid Tramor

Caiff eitemau incwm a gwariant eu trosi yn £ Sterling ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodyn. Caiff eitemau ar y fantolen eu trosi ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y fantolen neu ar gyfradd dan gontract os yw'n berthnasol. Cofnodir unrhyw enillion neu golledion cyfnewid yn y datganiad cost weithredol.

### 1.13 Pensiynau

Cwmpesir cyflogeion presennol a chyn-gyflogeion yr FSA gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n gynllun buddiannau diffiniedig anghyfrannol a heb ei ariannu. Mae'r adran yn cydnabod cost ddisgwyliedig darparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol yn ystod y cyfnod lle y mae'n manteisio ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu symiau i'r PCSPS a gyfrifwyd ar sail groniadol. Mae rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar y PCSPS.

Mae'r mwyafrif o gyflogeion yr MHS yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cynllun buddiannau diffiniedig a reolir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995, ac a weinyddir gan Awdurdod Cronfa Pensiynau Llundain. Mae cyflogeion eraill yr MHS yn aelodau o'r PCSPS.

### 1.14 Costau Ymadael yn Gynnar

Mae'n ofynnol i'r FSA dalu cost ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Mae'r adran yn darparu yn llawn ar gyfer y gost hon pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar a chynlluniau tebyg wedi eu cyhoeddi ac yn gyfrwymol ar yr adran.

### 1.15 Prydlesau Gweithredol

Codir prydlesau gweithredol ar y datganiad cost weithredol ar sail linol dros dymor y brydles.

### 1.16 Costau Archwilio

Caiff tâl a godir sy'n adlewyrchu cost yr archwiliad ei gynnwys yn y costau gweithredol. Archwilir yr FSA gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Ni chodir tâl am y gwasanaeth hwn ond caiff tâl bychan sy'n cynrychioli cost yr archwiliad ei gynnwys yn y cyfrifon.

### 1.17 Treth Ar Werth

Dangosir swm net Treth Ar Werth (TAW) sy'n ddyledus i'r Tollau Tramor a Chartref neu ganddynt fel dyledwr neu gredydwr ar y fantolen. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y datganiad cost weithredol, neu os eir iddi wrth brynu ased sefydlog caiff ei chyfalafu yng nghost yr ased.

### 1.18 Darpariaethau a Rhwymedigaethau Wrth Gefn

Mae'r adran yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth. Lle mae effaith gwerth amserol yr arian yn sylweddol, caiff y llifau arian parod wedi eu haddasu yn ôl y risg amcangyfrifedig eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio'r Trysorlys sef 6% mewn termau gwirioneddol.

Cydnabyddir darpariaethau yn y cyfrifon lle:

a) mae rhwymedigaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad a fu;
b) mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd i setlo'r rhwymedigaeth;
c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r swm.

Datgelir rhwymedigaethau wrth gefn yn y nodiadau i'r cyfrifon oni bai fod y posibilrwydd o drosglwyddo wrth setlo yn annhebyg.

### 1.19 Rhwymedigaethau Wrth Gefn

Yn ogystal â rhwymedigaethau wrth gefn a ddatgelwyd yn unol â FRS 12, mae'r Adran yn datgelu, at ddibenion adroddiadau seneddol ac atebolrwydd, rai rhwymedigaethau wrth gefn lle mae'r tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd yn annhebyg. Mae'r rhain yn cynnwys:

Eitemau dros £100,000 (neu'n is, lle maent yn ofynnol yn ôl statud benodol) nad ydynt yn codi wrth gynnal busnes fel arfer ac a gyflwynir ar ffurf adroddiad i'r Senedd drwy gofnodion adrannol cyn i'r Adran ymrwymo i'r cytundeb;

Pob eitem (p'un a ydynt yn codi wrth gynnal busnes fel arfer ai peidio) dros £100,000 (neu'n is, lle maent yn ofynnol yn ôl statud benodol neu lle maent yn berthnasol yng nghyd-destun y cyfrifon adnoddau) y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau, gael eu nodi yn y cyfrifon adnoddau.

Lle mae gwerth amserol yr arian yn berthnasol, caiff rhwymedigaethau wrth gefn y mae'n ofynnol iddynt gael eu datgelu o dan FRS12 eu datgan ar symiau wedi eu disgowntio a'r swm a gyflwynwyd i'r Senedd wedi ei nodi ar wahân. Caiff rhwymedigaethau wrth gefn nad yw'n ofynnol iddynt gael eu datgelu gan FRS 12 eu datgan ar y symiau a gyflwynwyd i'r Senedd.

### 1.20 Newid mewn polisi cyfrifyddu ac addasiadau'r flwyddyn flaenorol

Asiantaeth weithredol yr FSA yw'r MHS. Yng nghyfrifon 2001/02 cafodd yr MHS ei gynnwys fel gwariant gweinyddol. Mae'r polisi hwn wedi ei ddiwygio a, chyda chytundeb y Trysorlys, cyfunir yr MHS yn awr yng nghyfrifon yr FSA ar sail cost y rhaglen. Ailddatganwyd y ffigurau ar gyfer 2001/02 i ystyried y newid hwn yn y polisi cyfrifyddu.

Yn unol â RAM 2002/03, symudwyd costau secondio staff yn fewnol o gostau gweinyddol i gostau talu. Ailddatganwyd y ffigurau ar gyfer 2001/02 ar y sail honno.

# 2 Costau staff

a) Asiantaeth Safonau Bwyd – costau gweinyddol

| | Pencadlys yr FSA San Steffan | | | Swyddfeydd | 2002/03 | 2001/02 (ailddatganwyd) FSA |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff | Bwrdd | Is-gyfanswm | Datganoledig | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cyflogau | 16,501 | 284 | 16,785 | 276 | 17,061 | 15,220 |
| Cost Nawdd Cymdeithasol | 1,181 | 21 | 1,202 | 22 | 1,224 | 1,126 |
| Costau Pensiwn Eraill | 2,314 | 31 | 2,345 | 42 | 2,387 | 2,104 |
| **Is-gyfanswm** | **19,996** | **336** | **20,332** | **340** | **20,672** | 18,450 |
| Secondiadau Mewnol | 413 | - | 413 | 2,462 | 2,875 | 2,882 |
| Staff Allanol | 749 | - | 749 | 124 | 873 | 842 |
| **Cyfanswm** | **21,158** | **336** | **21,494** | **2,926** | **24,420** | 22,174 |
| Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol | (71) | - | (71) | - | (71) | (17) |
| **Cyfanswm y Costau Net** | **21,087** | **336** | **21,423** | **2,926** | **24,349** | 22,157 |

b) Gwasanaeth Hylendid Cig – costau'r rhaglen

| | 2002/03 MHS Cyfanswm £000oedd | 2001/02 MHS Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|
| Cyflogau | 37,833 | 35,906 |
| Cost Nawdd Cymdeithasol | 2,716 | 2,798 |
| Costau Pensiwn Eraill | 4,292 | 3,404 |
| Is-gyfanswm | **44,841** | 42,108 |
| Secondiadau Mewnol | - | - |
| Cyfanswm | 44,841 | 42,108 |
| Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol | - | - |
| Cyfanswm y Costau Net | **44,841** | 42,108 |

Mae'r PCSPS yn gynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr heb ei ariannu ond nid yw'r FSA yn gallu nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn ar 31 Mawrth 2000. Ceir manylion yn natganiad cynllun ar wahân y PCSPS.

Ar gyfer 2002/03 talwyd cyfraniadau arferol cyflogwr o £3.4 miliwn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) ar gyfraddau yn yr ystod 11 i 19.5 y cant o gyflog pensiynadwy. Cytunwyd y bydd y cyfraniadau yn aros ar y lefel honno am y ddwy flynedd nesaf. Caiff cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr eu hadolygu bob tair blynedd yn dilyn prisiad cynllun gan Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cyfraddau cyfraniadau yn adlewyrchu buddiannau fel y maent yn cronni, nid pan eir i gostau mewn gwirionedd; a dylent adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

c) Roedd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan yr FSA a'r MHS ar gyfartaledd (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn 2002/03 fel a ganlyn:

| | 2002/03 | | | 2001/02 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (Pencadlys) yr FSA ac MHS | Swyddfeydd Datganoledig | Cyfanswm | (Pencadlys) yr FSA ac MHS | Swyddfeydd Datganoledig | Cyfanswm |
| Nod 1<br>Gwella hyder yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 169 | 26 | 195 | 172 | 27 | 199 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 238 | 37 | 275 | 195 | 21 | 216 |
| Nod 3 (gan gynnwys pob aelod o staff yr MHS)<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella Diogelwch a Safonau Bwyd | 1,820 | 45 | 1,865 | 1,716 | 57 | 1,773 |
| | **2,227** | **108** | **2,335** | **2,083** | **105** | **2,188** |

ch) Roedd costau staff fesul nod fel a ganlyn:

| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nod 1<br>Gwella hyder yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 5,224 | 657 | 5,881 | 5,797 | 884 | 6,681 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 8,580 | 1,065 | 9,645 | 6,419 | 438 | 6,857 |
| Nod 3 (gan gynnwys pob aelod o staff yr MHS)<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella Diogelwch a Safonau Bwyd | 52,460 | 1,204 | 53,664 | 49,275 | 1,452 | 50,727 |
| | **66,264** | **2,926** | **69,190** | **61,491** | **2,774** | **64,265** |

# 3 Cydnabyddiaeth y Rheolwyr

| | | | 2002/03 Cyflogau a lwfansau eraill | Cynnydd mewn Pensiwn a Enillwyd | Gwerth Pensiwn Personol Cronedig | 2001/02 Cyflogau a lwfansau eraill | Cynnydd mewn Pensiwn a Enillwyd | Gwerth Pensiwn Personol Cronedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 | £5,000 | £2,500 | £5,000 |
| a) | **FSA** | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| | Geoffrey Podger | Prif Weithredwr (hyd at 31/01/2003) | 100-105 | 2.5-5 | 40-45 | 110-115 | 2.5-5 | 35-40 |
| | Dr Jon Bell | Cyfarwyddwr, Polisi Diogelwch Bwyd (hyd at 01/02/2003) a Phrif Weithredwr Dros Dro | 90-95 | 2.5-5 | 30-35 | 75-80 | 5-7.5 | 20-25 |
| | Pat Stewart | Cyfarwyddwr, Adnoddau a Strategaeth Gorfforaethol a Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro | 90-95 | 2.5-5 | 35-40 | 80-85 | 2.5-5 | 30-35 |
| | David Statham | Cyfarwyddwr, Gorfodi a Safonau Bwyd | 85-90 | 0-2.5 | 0-5 | 75-80 | 0-2.5 | 0-5 |
| | David Dunleavy | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol | 90-95 | 2.5-5 | 20-25 | 80-85 | 0-2.5 | 15-20 |
| | Andrew Wadge | Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Polisi Diogelwch Bwyd Dros Dro, Polisi Diogelwch Bwyd (o 01/02/2003) | 65-70 | 0-2.5 | 10-15 | 60-65 | 0-2.5 | 10-15 |
| | **Swyddfeydd Datganoledig:** | | | | | | | |
| | George Paterson | Cyfarwyddwr, FSA yr Alban | 75-80 | 0-2.5 | 0-5 | 60-65 | 0-2.5 | 0-5 |
| | Joy Whinney | Cyfarwyddwr, FSA Cymru | 50-55 | 0-2.5 | 5-10 | 45-50 | 0-2.5 | 5-10 |
| | Morris McAllister | Cyfarwyddwr, FSA Gogledd Iwerddon | 60-65 | 0-2.5 | 25-30 | 55-60 | 0-2.5 | 20-25 |

Mae Neil Martinson (Cyfarwyddwr, Cysylltiadau) o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA wedi gwrthod caniatáu i'w fanylion personol gael eu cyhoeddi ac felly ni chynhwysir y cyfryw wybodaeth yn y nodiadau hyn.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| b) | **MHS** | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| | Chris Lawson | Prif Weithredwr | 90-95 | 2.5-5.0 | 30-35 | 90-95 | 10-12.5 | 30-35 |

Datgelir gwybodaeth yn ymwneud â manylion am gyflogau a phensiynau yr uwch reolwyr eraill o fewn yr MHS o fewn ei gyfrifon blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2002/03.

| | | | 2002/03 | | | 2001/02 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 03 | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 03 |
| | | *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 | £5,000 | £2,500 | £5,000 |
| c) | **Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd** | | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| | Yr Athro Syr John Krebs## | Cadeirydd | 100-105 | 0-2.5 | 0-5 | 100-105 | 0-2.5 | 0-5 |
| | Suzi Leather*# | Dirprwy Gadeirydd (hyd at 31/12/2002) | 20-25 | 0-2.5 | 0-5 | 35-40 | 0-2.5 | 0-5 |
| | Ann Hemingway | (Dirprwy Gadeirydd Dros Dro o 01/01/2003) | 25-30 | 0-2.5 | 0-5 | 20-25 | 0-2.5 | 0-5 |
| | Michael Gibson## | | 25-30 | 0-2.5 | 0-5 | 20-25 | 0-2.5 | 0-5 |
| | Michael Walker | | 20-25 | n/a | n/a | 20-25 | n/a | n/a |
| | Yr Athro Syr John Arbuthnott | (tan 30/11/2002) | 10-15 | 0-2.5 | 0-5 | 20-25 | 0-2.5 | 0-5 |
| | Jeya Henry | (tan 20/02/2003) | 5-10 | - | - | 5-10 | - | - |
| | Karol Bailey | (tan 20/02/2003) | 5-10 | - | - | 10-15 | - | - |
| | Richard Ayre | | 5-10 | - | - | 5-10 | - | - |
| | Robert Rees | | 10-15 | - | - | 10-15 | - | - |
| | Y Fonesig Valerie Howarth o Breckland, OBE | | 5-10 | - | - | 5-10 | - | - |
| | Vernon Sankey | | 5-10 | - | - | 5-10 | - | - |
| | Sandra Walbran | (o 01/06/2002) | 5-10 | - | - | - | - | - |
| | Andrew Miller*# | (o 01/03/2003) | 0-5 | 0-2.5 | 0-5 | - | - | - |
| | Christine Dunn | (o 01/03/2003) | 0-5 | - | - | - | - | - |
| | Sati Ariyanayagam | (o 01/03/2003) | 0-5 | - | - | - | - | - |

Mae Iain McDonald wedi gwrthod caniatâu i'w fanylion personol gael eu cyhoeddi ac felly ni chynhwysir y cyfryw wybodaeth yn y nodiadau hyn.

* wedi dewis ymuno â premium
** wedi dewis ymuno â classic plus
\# manylion pensiwn yn tybio'r uchafswm cyfnewidiad pensiwn ar gyfer cyfandaliad
\## heb ddewis y trefniant pensiwn eto, o'r opsiynau a nodwyd yn nodyn ii isod. Cyfrifwyd y ffigurau a ddatgelir yn y tabl ar sail y 'Classic Scheme', sef yr opsiwn awtomatig pe na bai opsiwn arall yn cael ei ddewis.

Nodiadau:

i Mae 'Cyflog' yn cynnwys cyflog gros, tâl perfformiad neu fonws; goramser; hawliau neilltuedig i Bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; recriwtio a chadw lwfansau, lwfansau swyddfeydd preifat ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau ei fod yn agored i drethiant y DU.

ii Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Hydref 2002, gall gweision sifil fod mewn un o dri chynllun buddiannau diffiniedig "cyflog terfynol" ar sail statudol (classic, premium a classic plus). Gall rhai sy'n ymuno ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth o'r cynllun 'premium' neu ymuno â threfniant ar sail rhanddeiliad "prynu arian" o ansawdd da gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

(a) Cynllun 'Classic'
Mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy wrth ymddeol. Bydd yr Aelodau yn talu cyfraniad o 1.5 y cant o enillion pensiynadwy. Ar ôl marw, bydd pensiynau yn daladwy i'r cymar sy'n goroesi ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Os bydd rhywun yn marw tra yn ei swydd, bydd y cynllun yn talu budd cyfandaliad o ddwywaith y cyflog pensiynadwy ac yn darparu taliad chwyddo gwasanaeth hefyd wrth gyfnewid pensiwn y cymar. Mae'r taliad chwyddo yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na 10 mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl os bydd salwch difrifol. Yn yr achos hwn, telir pensiynau ar unwaith heb leihad actiwaraidd a chyda thaliad chwyddo gwasanaeth fel ar gyfer pensiynau gwŷr a gwragedd gweddw.

(b) Cynllun 'Premium'
Mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i 'classic', nid oes cyfandaliad Awtomatig, ond gall aelodau gyfnewid peth o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad hyd at uchafswm o 3/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth neu 2.25 gwaith y pensiwn os yw'n fwy (y gyfradd gyfnewid yw £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a ildir). At ddibenion datgelu pensiwn mae'r tablau yn tybio'r uchafswm cyfnewidiad. Bydd yr Aelodau yn talu cyfraniadau o 3.5 y cant o enillion pensiynadwy. Ar ôl marw, bydd pensiynau yn daladwy i'r cymar sy'n goroesi neu'r partner cymwys ar gyfradd o 3/8fed o bensiynau'r aelodau (cyn unrhyw gyfnewidiad). Os bydd rhywun yn marw tra yn ei swydd, bydd y cynllun yn talu budd cyfandaliad o dair gwaith yr enillion pensiynadwy ac yn darparu taliad chwyddo gwasanaeth hefyd wrth gyfnewid pensiwn y cymar. Mae'r taliad chwyddo yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na 10 mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl os bydd salwch difrifol. Yn yr achos hwn, telir pensiynau ar unwaith heb leihad actiwaraidd. Pan fydd salwch yr aelod yn golygu ei fod yn ei atal yn barhaol rhag gwneud unrhyw waith cyflogedig, caiff y taliad chwyddo gwasanaeth ei wella fel ei fod yn debyg i'r hyn a fyddai wedi cronni ar ôl cyrraedd 60 oed.

(c) Cynllun 'Classic Plus'
Yn y bôn, amrywiad ar y cynllun 'premium' yw hwn, ond caiff y buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 eu cyfrifyddu'n fras yn yr un modd â'r 'classic'.

Cynyddir pensiynau sy'n daladwy o dan 'classic', 'premium' a 'classic plus' yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu.

(ch) Cyfrif Pensiwn Partneriaeth
Mae hyn yn drefniant ar ffurf rhanddeiliaid lle mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid. Nid yw'r cyflogai yn gorfod cyfrannu ond lle y gwnânt gyfraniadau, fe'u cyfatebir gan y cyflogwr hyd at derfyn o 3 y cant (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant arall o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd o ran risg (marw tra yn y swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch). Gall yr aelod ymddeol ar unrhyw adeg rhwng 50 a 75 oed a defnyddio'r gronfa sydd wedi cronni i brynu pensiwn. Gall yr aelod ddewis cymryd hyd at 25 y cant o'r gronfa fel cyfandaliad.

iii Mae pob aelod o Grŵp Rheoli'r FSA wedi gwrthod rhoi eu caniatâd i gyhoeddi eu hoedran.

iv Mae pum aelod o Fwrdd yr FSA yn aelodau o gynllun pensiwn drwy gydweddiad sy'n debyg i'r PCSPS. Mae gan Michael Walker gyfraniad tebyg wedi ei dalu i mewn i'w gynllun pensiwn personol.

v Peidiodd Geoffrey Podger â chael unrhyw gydnabyddiaeth ar ôl ei ymddiswyddiad ar 31 Ionawr 2003.

vi Peidiodd Suzi Leather â chael unrhyw gydnabyddiaeth ar ôl ei hymddiswyddiad ar 31 Rhagfyr 2002.

vii Peidiodd yr Athro Syr John Arbuthnott â chael unrhyw gydnabyddiaeth ar ôl ei ymddiswyddiad ar 30 Tachwedd 2002.

viii Peidiodd yr Athro Jeya Henry â chael unrhyw gydnabyddiaeth ar ôl i gyfnod ei benodiad ddod i ben ar 20 Chwefror 2003.

ix Peidiodd Karol Bailey â chael unrhyw gydnabyddiaeth ar ôl i gyfnod ei phenodiad ddod i ben ar 20 Chwefror 2003.

# 4 Costau gweinyddol eraill

| | 2002/03 £000oedd | 2001/02 (ailddatganwyd) £000oedd |
|---|---|---|
| **Rhenti o dan brydlesau gweithredol:** | | |
| Hurio offer a pheiriannau | 133 | 243 |
| Prydlesau gweithredol eraill (gan gynnwys rhent Aviation House) | 3,848 | 3,824 |
| | | |
| **Eitemau anariannol:** | | |
| Dibrisiant | 1,703 | 1,266 |
| Cost cyfalaf | (397) | 150 |
| Ffioedd archwilio | 100 | 130 |
| Colled wrth Waredu Asedau | 2 | - |
| Costau gweithredol | 1 | 72 |
| Costau adeiladau | 3,722 | 4,020 |
| Gorbenion y bwrdd a'r staff | 3,037 | 2,528 |
| Costau gweinyddol | 2,930 | 3,154 |
| Costau TG | 1,027 | 1,238 |
| Costau Pwyllgora | 169 | 142 |
| Costau Ymadael yn Gynnar | 28 | (13) |
| Drwgddyledion wedi eu dileu | 18 | - |
| Costau eraill | 15 | - |
| | **16,336** | 16,754 |

**Nodyn a) cyfanswm y trafodion anariannol a gynhwyswyd yng Nghysoniad Costau Gweithredol â Llifau Arian Parod Gweithredol yn Atodlen 4 a'r Gofyniad Arian Parod Net yn Atodlen 1**

| | 2002/03 |
|---|---|
| Costau Gweinyddol eraill – eitemau anariannol (fel uchod) | 1,408 |
| Symiau anariannol eraill a godwyd ar y gwariant gweithredol | 1,232 |
| **Cyfanswm y trafodion anariannol** | **2,640** |

# 5 Costau net y rhaglen

| | £000oedd | 2002/03 £000oedd | 2001/02 (ailddatganwyd) £000oedd |
|---|---|---|---|
| **Ymchwil a Datblygiad** | | | |
| Hylendid Cig | 4,891 | | 4,108 |
| Maeth | 3,878 | | 3,771 |
| Diogelwch Bwyd Microbiolegol | 3,072 | | 4,294 |
| Bwyd Newydd a Gwenwyneg Diogelwch Cemegol | 2,567 | | 2,811 |
| Diogelwch Cemegol | 2,547 | | 2,624 |
| Labeli a Safonau bwyd | 1,122 | | 715 |
| Difwynwyr Cemegol | 1,048 | | 940 |
| Diogelwch Radiolegol | 493 | | 624 |
| Prosesu Cregyn Bylchog | 286 | | 156 |
| Diogelwch Cadwyn Fwyd | 245 | | - |
| Porthiant Anifeiliaid | 88 | | - |
| Amrywiol | 503 | | 454 |
| | **20,740** | | 20,497 |
| **Monitro a Goruchwylio:** | | | |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | | | |
| Costau Staff | | 44,841 | 42,108 |
| Gwariant Arall | 36,374 | | 35,617 |
| Hylendid Cig | (24) | | 90 |
| Diogelwch Radiolegol | 2,481 | | 2,588 |
| Diogelwch Cadwyn Fwyd | 318 | | 829 |
| Diogelwch Bwyd Micro | 9,433 | | 6,504 |
| Pwyllgorau, y Wasg a Chyhoeddusrwydd | 2,920 | | 2,494 |
| Maeth | 2,689 | | 1,110 |
| Astudiaethau a Goruchwyliaeth | - | | 332 |
| Difwynwyr Cemegol | 1,476 | | 1,725 |
| Porthiant Anifeiliaid | 381 | | 1,538 |
| Meddygol a Chyfreithiol | 149 | | 240 |
| Diogelwch ac Addysg Bwyd | 565 | | - |
| Gorfodi ac Archwiliad | 480 | | - |
| Diogelwch y Gadwyn Fwyd | 597 | | - |
| Bwyd Newydd a Gwenwyneg Diogelwch Cemegol | 687 | | - |
| Amrywiol | 648 | | 3,169 |
| Cyfanswm costau'r rhaglen nad ydynt yn ymwneud â'r staff | | 79,914 | 76,733 |
| | **124,755** | 118,841 | |
| **Llai: Incwm y Rhaglen** | | | |
| (Pencadlys) yr FSA | (2,388) | | (2,158) |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | (34,851) | | (39,436) |
| | | (37,239) | (41,594) |
| | | **87,516** | 77,247 |

# 6 Dadansoddi incwm

| | | 2002/03 | | 2001/02 |
|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | | £000oedd |
| **Mae incwm gweithredol, wedi ei ddadansoddi yn ôl dosbarthiad a gweithgaredd fel a ganlyn:** | | | | |
| **Incwm gweinyddol:** | | | | |
| Ffioedd a thaliadau o Adrannau'r Llywodraeth ac eraill | 196 | | 662 | |
| | | 196 | | 662 |
| **Incwm y rhaglen:** | | | | |
| Hylendid Llaeth a Llaethdai – samplu ac archwiliadau | 33 | | 15 | |
| Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 | 2,355 | | 2,143 | |
| Gweithgaredd y Gwasanaeth Hylendid Cig | 34,851 | | 39,436 | |
| | | 37,239 | | 41,594 |
| | | **37,435** | | 42,256 |

Mae'r dadansoddiad o'r incwm o wasanaethau a ddarparwyd i gwsmeriaid allanol a chwsmeriaid y sector cyhoeddus fel a ganlyn:

| | | | 2002/03 | | | 2001/02 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Incwm** | **Cost Lawn** | **Gwarged/ Diffyg** | Incwm | Cost Lawn | Gwarged/ Diffyg |
| | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Gweithgaredd y Gwasanaeth Hylendid Cig** | | | | | | |
| Diwydiant | 21,517 | 46,571 | (25,054) | 20,601 | 38,736 | (18,135) |
| Llywodraeth | 13,334 | 13,334 | - | 18,835 | 18,835 | - |
| Hylendid Llaeth a Llaethdai – samplu ac archwiliadau | 33 | 111 | (78) | 15 | 107 | (92) |
| Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 | 2,355 | 2,197 | 158 | 2,143 | 2,786 | (643) |
| | **37,239** | **62,213** | **(24,974)** | 41,594 | 60,464 | (18,870) |

Nid yw'r MHS yn adennill ei holl gostau o ddiwydiant. Codir ffioedd archwilio ar weithfeydd llai ar dâl prosesu sefydlog yn hytrach na chyfradd fesul awr.

# 7 Cysoni cost weithredol net â rheoli cyfanswm ac alldro net yr adnoddau

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | **£000oedd** | £000oedd |
| Cost Weithredol Net | 128,005 | 115,496 |
| Incwm Gweithredol nas dosbarthwyd fel dyraniad cymorth | - | - |
| Gwasanaethau sefydlog Cyllido Cyfunol | - | - |
| Alldro Net yr Adnoddau | **128,005** | 115,496 |

# 8 Dadansoddiad o'r gost weithredol net

Mae'r nodyn hwn yn dadansoddi cyllid gan yr Adran i'r awdurdod gwario perthnasol.

| | 2002/03 Amcangyfrif £000oedd | 2002/03 Gwirioneddol £000oedd | 2001/02 Amcangyfrif £000oedd | 2001/02 Gwirioneddol £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Corff Gwario: | | | | |
| Adran Graidd | 112,299 | 94,982 | 104,594 | 88,665 |
| MHS | 25,000 | 25,054 | 20,871 | 18,135 |
| Senedd yr Alban | 5,498 | 4,533 | 5,805 | 5,410 |
| Cynulliad Gogledd Iwerddon | 1,461 | 1,376 | 1,200 | 1,245 |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 2,351 | 2,060 | 2,029 | 2,041 |
| **Cyfanswm** | **146,609** | **128,005** | 134,499 | 115,496 |

# 9 Asedau sefydlog anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd £000oedd |
|---|---|
| Cost neu brisiad: | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 484 |
| Ychwanegiadau | 96 |
| Ailbrisio a mynegeio | (31) |
| **Ar 31 Mawrth 2002** | **549** |
| | |
| Dibrisiant: | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 166 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 103 |
| Ailbrisio a mynegeio | (6) |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **263** |
| | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2003** | **286** |
| | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2002** | **318** |

# 10 Asedau sefydlog diriaethol

| | Gosodiadau a Ffitiadau £000oedd | Offer Swyddfa £000oedd | Offer Cyfrifiadurol £000oedd | Cerbydau Modur £000oedd | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad:** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 6,629 | 502 | 1,758 | 520 | 9,409 |
| Ychwanegiadau | 93 | 262 | 350 | 86 | 791 |
| Ailbrisio a mynegeio | 304 | 29 | (92) | (3) | 238 |
| Gwarediadau | - | - | (269) | (167) | (436) |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **7,026** | **793** | **1,747** | **436** | **10,002** |
| **Dibrisiant:** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 1,064 | 127 | 859 | 203 | 2,253 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 934 | 100 | 425 | 110 | 1,569 |
| Ailbrisio a mynegeio | 44 | 7 | 2 | (1) | 52 |
| Gwarediadau | - | - | (267) | (115) | (382) |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **2,042** | **234** | **1,019** | **197** | **3,492** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2003** | **4,984** | **559** | **728** | **239** | **6,510** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2002** | **5,565** | **375** | **899** | **317** | **7,156** |

Y gwahaniaeth sy'n codi rhwng prynu asedau sefydlog ac ychwanegiadau yw credydwyr cyfalaf a chroniadau.

# 11 Symudiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian parod

| | 2002/03 £000oedd | 2001/02 £000oedd |
|---|---|---|
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr | (840) | (2,028) |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr | (3,607) | (10,558) |
| | (4,447) | (12,586) |
| Addasiad Dros Dro | (51) | 0 |
| | **(4,498)** | (12,586) |

# 12 Dyledwyr

| | 2002/03 £000oedd | 2001/02 £000oedd |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr masnach | 5,864 | 6,850 |
| Yn ddyledus gan lywodraeth | 748 | 1,485 |
| TAW y gellir ei hadennill | 2,200 | 2,440 |
| Dyledwyr eraill | 1,056 | 1,385 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 1,722 | 439 |
| | **11,590** | 12,599 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr eraill: | 238 | 69 |
| **Cyfanswm y Dyledwyr** | **11,828** | 12,668 |

# 13 Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | 2002/03 £000oedd | 2001/02 £000oedd |
|---|---|---|
| Mantolen ar 1 Ebrill | 8,647 | 7,066 |
| Mewnlif/(all-lif) arian parod net: | (3,191) | 1,581 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **5,456** | 8,647 |
| **Delir y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn:** | | |
| Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM | 3,193 | 8,367 |
| Cyfrifon banc masnachol | 2,263 | 280 |
| | **5,456** | 8,647 |

# 14 Credydwyr

| | 2002/03<br>£000oedd | 2001/02<br>£000oedd |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Credydwyr masnach | 9,229 | 6,749 |
| Credydwyr eraill | 2,723 | 550 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 10,987 | 12,768 |
| Symiau a gyhoeddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwadau ond nas gwariwyd yn ystod y flwyddyn | 5,456 | 8,647 |
| | **28,395** | 28,714 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Rhwymedigaethau hirdymor (rhent) | 4,398 | 3,663 |
| | **32,793** | 32,377 |

# 15 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | **2002/03**<br>**Darpariaeth Ymadael yn Gynnar £000oedd** | **Darpariaeth Clwy'r Traed a'r Genau £000oedd** | **Pensiwn £000oedd** | **Ceisiadau Cyfreithiol £000oedd** | **Cyfanswm £000oedd** | 2001/02<br>Darpariaeth Ymadael yn Gynnar £000oedd | Darpariaeth Clwy'r Traed a'r Genau £000oedd | Pensiwn £000oedd | Ceisiadau Cyfreithiol £000oedd | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2002 | 398 | 48 | - | 115 | 561 | 517 | 178 | 212 | 36 | 943 |
| Yn codi yn ystod y flwyddyn | 14 | | | | 14 | 154 | 48 | - | 79 | 281 |
| A ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (83) | - | - | (115) | (198) | (111) | (178) | (212) | - | (501) |
| A wrthdrowyd heb eu defnyddio yn ystod y flwyddyn | | (48) | | | (48) | (162) | - | - | - | (162) |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **329** | **-** | **-** | **-** | **329** | 398 | 48 | - | 115 | 561 |

**Ymadael yn gynnar a chostau pensiwn**

Mae darpariaeth ymadael yn gynnar a darpariaethau pensiwn yn cyfeirio at rwymedigaethau i staff ar gyfer ymddeol yn gynnar. Mae'r FSA yn talu costau ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPC mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar drwy dalu'r symiau sy'n ofynnol yn flynyddol i'r PCSPS dros y cyfnod rhwng ymadael yn gynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Mae'r FSA yn darparu ar gyfer hyn yn llawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar yn gyfrwymol ar yr adran drwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau amcangyfrifedig a ddisgowntiwyd gan gyfradd ddisgowntio'r Trysorlys o 6% mewn termau gwirioneddol. Mewn blynyddoedd blaenorol talodd yr FSA ymlaen llaw am beth o'i rhwymedigaeth ar gyfer ymddeoliad cynnar drwy wneud taliad i Gyfrif y Tâl-feistr Cyffredinol ym Manc Lloegr ar gyfer credyd Pleidlais Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff y balans sy'n weddill ei drin fel rhagdaliad.

16

# Cysoni cost weithredol net â thaliadau yn y gronfa gyffredinol

| | 2002/03 | | 2001/02 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cost weithredol net am y flwyddyn (Atodlen 2) | (128,005) | | (115,496) | |
| Incwm heb ddyraniad cymorth i'r Gronfa Gyfunol | - | | - | |
| | | (128,005) | | (115,496) |
| Arian net | | 127,407 | | 110,724 |
| Credydwr y Gronfa Gyfunol ar gyfer arian parod nas gwariwyd | | (5,456) | | (8,647) |
| **Taliadau anariannol:** | | | | |
| Cost cyfalaf | (183) | | 150 | |
| Costau staff anariannol (datganoledig) | 754 | | 878 | |
| Costau eraill | (56) | | - | |
| Rhent a Gwasanaethau Rheoli | 8 | | 10 | |
| Ffioedd archwilio | 130 | | 170 | |
| | | 653 | | 1,208 |
| Addasiadau'r flwyddyn flaenorol | | - | | (22) |
| **Gostyngiad net yn y gronfa gyffredinol** | | **(5,401)** | | **(12,233)** |
| Y Gronfa Gyffredinol ar 1 Ebrill | | (4,210) | | 8,023 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2002** | | **(9,611)** | | **(4,210)** |

Mae'r Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli'r asedau net a gyflwynwyd i'r FSA ar 1 Ebrill 2000 (a ddatganwyd ar gost hanesyddol llai dibrisiant cronedig ar y dyddiad hwnnw), y gwarged neu'r diffyg a gynhyrchwyd o daliadau tybiannol a gweithgareddau masnachu, a chyllid y Bleidlais a ddeilliodd ers y dyddiad hwnnw. 'Mae'r 'taliadau anariannol' uchod yn cynnwys balansau'r MHS a godwyd yn erbyn Costau'r Rhaglen yn ogystal â'r Taliadau Cost Weinyddol a ddatgelwyd yn Nodyn 4.

17

# Cronfa ailbrisio wrth gefn

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Balans ar 1 Ebrill 2002 | 61 | 21 |
| Yn codi wrth ailbrisio yn ystod y flwyddyn (net) | 501 | 40 |
| Trosglwyddwyd i'r gronfa gyffredinol mewn perthynas ag elfen y gronfa ailbrisio wrth gefn a wireddwyd | 7 | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2003** | **569** | 61 |

Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn adlewyrchu elfen y balans cronnol nas gwireddwyd o addasiadau mynegeio ac ailbrisio.

# 18 Nodiadau i atodlen 5

Defnyddir cyfalaf yr FSA yn unswydd at ddibenion gweinyddol. Felly nid yw ei ddosbarthiad ymhlith amcanion yn wahanol iawn i gyfran y gost weinyddol gros gysylltiedig.

Dyrannwyd cost y rhaglen a gwariant cyfredol arall fel a ganlyn:

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| **Nod 1**<br>Gwella hyder yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 12,109 | 6,006 |
| **Nod 2**<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 22,656 | 9,966 |
| **Nod 3**<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella Diogelwch a Safonau Bwyd | 52,751 | 61,275 |
| | **87,516** | 77,247 |

# 19 Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Ymrwymiadau cyfalaf dan gontract ar 31 Mawrth 2003 na wnaed darpariaeth ar eu cyfer. | - | 32 |
| | **-** | 32 |

# 20 Ymrwymiadau blynyddol o dan brydlesau gweithredol

| | 2002/03 Tir ac Adeiladau £000oedd | 2002/03 Arall £000oedd | | 2001/02 Tir ac Adeiladau £000oedd | 2001/02 Arall £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prydlesau gweithredol sy'n dod i ben:** | | | | | |
| Ymhen blwyddyn | - | - | - | - | - |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | - | 126 | | - | 126 |
| Ar ôl pum mlynedd | 4,334 | 84 | | 4,323 | 84 |
| | **4,334** | **210** | | 4,323 | 210 |

## 21 Ymrwymiadau eraill

Mae'r FSA wedi gwneud ymrwymiadau (nad ydynt yn brydlesau gweithredol) ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygiad amrywiol gwerth £21,843,875.00 ar 31 Mawrth 2003.

Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau hyd at y flwyddyn 2007.

## 22 Rhwymedigaethau wrth gefn

Gwneir nifer o geisiadau bach gan weithwyr offer a chyflogeion yr MHS yn y gweithle ac am ddiswyddiad annheg. Caiff yr achosion hyn eu hamddiffyn a hyd yma nid yw'r canlyniad yn hysbys ond gallent gostio tua £198,000. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn y cyfrifon eleni.

Yn ogystal, mae FSA yr Alban ar hyn o bryd mewn anghydfod gyda chyflenwr ynghylch anfoneb am £75,000. Mae hyn yn destun achos cyfreithiol ar hyn o bryd, ac ni ddarparwyd ar ei gyfer yn y cyfrifon. Mae rheolwyr yr FSA o'r farn y caiff yr achos ei wrthod yn llwyddiannus.

## 23 Trafodion partïon cysylltiedig

Soniodd Aelodau canlynol y Bwrdd am y trafodion partïon cysylltiedig:

Mae Karol Bailey wedi datgelu bod aelodau o'i theulu yn rhedeg busnes lladd dofednod, sy'n derbyn gwasanaethau gan yr MHS.

Mae Michael Walker wedi datgelu fod practis, y mae ef yn bartner ynddo, wedi derbyn ffioedd gan yr FSA am ymchwil ddadansoddol.

Mae Vernon Sankey wedi datgelu ei fod yn un o gyfarwyddwyr The Really Effective Development Company Ltd, a gafodd £9k, am ddarparu hyfforddiant i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn 2002/03.

Yn ychwanegol at hyn, cafodd yr FSA nifer o drafodion gydag adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff eraill sy'n rhan o Lywodraeth ganolog.

Caiff swyddfeydd datganoledig yr FSA yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon eu staffio'n bennaf gan swyddogion ar fenthyg o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd Gogledd Iwerddon, Adran Amaethyddiaeth Gogledd Iwerddon, a Gweithrediaeth yr Alban.

## 24 Offerynnau ariannol

Nid oes gan yr FSA unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu i raddau helaeth ar grantiau adrannol am ei gofynion ariannol, ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Nid oes ganddi adneuon sylweddol ychwaith, ac enwir pob ased a rhwymedigaeth berthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg y gyfradd llog na risg arian cyfred.

# 25 Colledion a thaliadau arbennig

Yn ystod y flwyddyn gwnaeth yr FSA golledion neu daliadau arbennig mewn 5 achos gyda chyfanswm gwariant o £145,000. Roedd y mwyafrif o'r gwariant hwn yn ymwneud ag achosion a etifeddwyd oddi wrth y cyn-Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd am gyngor amhriodol i weithfeydd a arweiniodd at waith diangen yn cael ei wneud ar draul y gwaith.

Yn ogystal, gwnaeth y Gwasanaeth Hylendid Cig 23 o daliadau arbennig gwerth £102,000 ar gyfer iawndal i staff a cheisiadau am anafiadau personol.

CYFARWYDDYD

## Cyfarwyddyd Cyfrifon a Roddwyd gan y Trysorlys yn Unol ag Adran 5(2) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

1. Mae'r cyfarwyddyd hyn yn gymwys i'r adrannau hynny o'r Llywodraeth a'r cynlluniau pensiwn a restrir yn yr atodiad atodedig.

2. Bydd yr adrannau a'r cynlluniau pensiwn hyn yn paratoi cyfrifon adnoddau am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu y rhifyn o'r Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer 2002/03.

3. Bydd y cyfrifon ar gyfer **adrannau'r Llywodraeth** yn cael eu paratoi er mwyn:

   (a) rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2003 ac alldro net yr adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben; a

   (b) datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol na chymhwyswyd at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

4. Bydd y cyfrifon ar gyfer **cynlluniau pensiwn** yn cael eu paratoi er mwyn:

   (a) rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2003 ac alldro net yr adnoddau a'r llifau arian parod am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben; a

   (b) datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol na chymhwyswyd at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

5. Bydd cydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau yn angenrheidiol, ym mhob achos heblaw'r amgylchiadau mwyaf eithriadol, er mwyn i'r cyfrifon roi darlun gwir a theg. Os, mewn amgylchiadau eithriadol, bydd cydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau yn anghyson â'r gofynion i roi darlun gwir a theg, dylid gwyro oddi wrth ofynion y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i roi darlun gwir a theg. Mewn achosion o'r fath, dylid arddel barn hyddysg a diduedd i lunio triniaeth amgen briodol a ddylai fod yn gyson â nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw ac ysbryd y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau. Dylid trafod unrhyw wyro perthnasol oddi wrth y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau yn y lle cyntaf gyda'r Trysorlys.

David Loweth
Pennaeth y Tîm Cyfrifyddu Canolog, Trysorlys Ei Mawrhydi
19 Chwefror 2003

CYFARWYDDYD

# Cyfarwyddyd Cyfrifon gan Weinidogion yr Alban yn unol ag adran 39(7) ac atodlen 4 Deddf Safonau Bwyd 1999

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyflwyno adroddiadau ar ei chyllid a'i gwariant mewn perthynas â symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban mewn Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- crynodeb o alldro'r adnoddau;
- datganiad cost weithredol; ac
- atodlen yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a ddarparwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban.

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno crynodeb o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, a gwariant cyfalaf y flwyddyn mewn ffordd deg ac yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban am y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi hefyd yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym am y flwyddyn ariannol honno i'r graddau ei fod yn briodol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen rhagair ar wahân, datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol, na datganiad adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn.

Caiff y cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

Llofnodwyd drwy Awdurdod Gweinidogion yr Alban:
1 Hydref 2001

# CYFARWYDDYD

## Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd gyda chymeradwyaeth yr Adran Gyllid a Phersonél ar gyfer Gogledd Iwerddon yn unol ag adran 39(7) ac atodlen 4 Deddf Safonau Bwyd 1999.

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Gogledd Iwerddon) yn cyflwyno adroddiadau ar ei chyllid a'i gwariant mewn perthynas â symiau a dalwyd o Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd mewn Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- crynodeb o alldro'r adnoddau;
- datganiad cost weithredol; ac
- atodlen yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chais Diogelwch y Cyhoedd am Adnodd B.

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno crynodeb o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, a gwariant cyfalaf y flwyddyn mewn ffordd deg ac yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol Gogledd Iwerddon am y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi hefyd yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym am y flwyddyn ariannol honno i'r graddau ei fod yn briodol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen rhagair ar wahân, datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol, na datganiad adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn.

Caiff y cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

**Llofnodwyd drwy Awdurdod Adran Iechyd,**
**Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd**
**Medi 2001**

CYFARWYDDYD

## Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 39(7) ac atodlen 4 Deddf Safonau Bwyd 1999

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyflwyno adroddiadau ar ei chyllid a'i gwariant mewn perthynas â symiau a dalwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- crynodeb o alldro'r adnoddau;
- datganiad cost weithredol; ac
- atodlen yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno crynodeb o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, a gwariant cyfalaf y flwyddyn mewn ffordd deg ac yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi hefyd yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym am y flwyddyn ariannol honno i'r graddau ei fod yn briodol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen rhagair ar wahân, datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol, na datganiad adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn.

Caiff y cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

Llofnodwyd drwy Awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru
5 Medi 2001

CYFARWYDDYD

## Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys yn unol ag adran 4(2) atodlen 4 Deddf Safonau Bwyd 1999

1. Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn paratoi cyfrif cyfunol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002 a'r blynyddoedd ariannol dilynol yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu y rhifyn o Lawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau y Trysorlys sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn y mae'r cyfrif yn cael ei baratoi ar ei chyfer.

2. Bydd y cyfrif cyfunol yn seiliedig ar y cyfrifon ar wahân a baratowyd mewn perthynas â'r amcangyfrif a gymeradwywyd gan Dŷ'r Cyffredin o dan adran 5 Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; y symiau a dalwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 39(3)(a) Deddf Safonau Bwyd 1999 ("y Ddeddf"); y symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban o dan adran 39(3)(b) y Ddeddf; a'r symiau a ddyrannwyd gan Gynulliad Gogledd Iwerddon o dan adran 39(3)(c) y Ddeddf.

3. Bydd y cyfrif cyfunol yn cael ei baratoi er mwyn rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa gyfunol ar 31 Mawrth 2002 a'r Safonau Bwyd ar ddiwedd y flwyddyn briodol, ac o alldro net yr adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn ariannol briodol.

4. Bydd y cyfrif cyfunol yn cael ei anfon at y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol erbyn 30ain Tachwedd fan bellaf yn y flwyddyn ariannol yn dilyn yr un y mae'r cyfrif cyfunol yn cyfeirio ati; ac i'r Trysorlys erbyn 15fed Ionawr fan bellaf yn y flwyddyn honno.

David Loweth
Pennaeth y Tîm Cyfrifyddu Canolog, Trysorlys Ei Mawrhydi
31 Ionawr 2002

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Datganiad Cyfrifon ar gyfer yr Alban

Datganiad am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003





# CYNNWYS CYFRIFON BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Tystysgrif archwilio – Yr Alban | 84 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 86 |
| Datganiad rheolaeth fewnol ar gyfer FSA yr Alban | 87 |
| Crynodeb o alldro'r adnoddau – yr Alban | 90 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 91 |
| Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion yr Alban | 96 |

# Tystysgrif archwilio

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Senedd yr Alban.

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 90 i 95 o dan Atodlen 4(3) Deddf Safonau Bwyd 1999. Paratowyd y datganiadau hyn o dan y polisïau cyfrifyddu fel y'u nodir ar dudalen 91.

## Priod gyfrifoldebau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, y Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 86 mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a chyfarwyddiadau Gweinidogion yr Alban a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn gyfrifol am baratoi gweddill cynnwys y cyfrifon. Sefydlir fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiad cyfrifon yn cyflwyno'r gweithgareddau hynny gan yr FSA a ariennir gan Senedd yr Alban yn deg, ac a chawsant eu paratoi yn unol â'r Ddeddf Safonau Bwyd a chyfarwyddiadau Gweinidogion yr Alban a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant ymhob ystyr berthnasol wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Senedd yr Alban a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r FSA, yn fy marn i, wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn y Cyfrifon, ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad amlwg neu anghysondeb perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 87 i 89 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr FSA ag arweiniad y Trysorlys 'Llywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad Rheolaeth Fewnol'. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r farn bwysig a fynegwyd gan y Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Asiantaeth, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiad cyfrifon yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra arall a bod y gwariant, ymhob ystyr berthnasol, wedi ei gymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Senedd yr Alban a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

# Tystysgrif archwilio

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiad cyfrifon yn rhoi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau ar gyfer y flwyddyn ariannol, a gofynion arian parod gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd a ariannwyd gan Senedd yr Alban am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003, a'u bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a'r cyfarwyddiadau a wneir o dan y Ddeddf honno gan Weinidogion yr Alban ; ac
- ym mhob ystyr berthnasol mae'r gwariant wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Senedd yr Alban ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**John Bourn**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**25 Tachwedd 2003**

**Swyddfa Archwilio Genedlaethol**
**157-197 Buckingham Palace Road**
**Victoria**
**London SW1W 9SP**

Datganiad o
# gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

1. O dan adran 39(7) ac atodlen 4 Deddf Safonau Bwyd 1999, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi datganiad cyfrifon yn nodi ei gwariant mewn perthynas â'r symiau a dalwyd gan Senedd yr Alban ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Gwneir hyn er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon gan Weinidogion yr Alban y dylai'r datganiad cyfrifon fanylu ar y defnydd o adnoddau a ddarparwyd gan Senedd yr Alban ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y flwyddyn.

2. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf am y flwyddyn a rhaid iddynt gysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban am y flwyddyn.

3. Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Safonau Bwyd gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi cyfrifon yr Asiantaeth a thros eu trosglwyddo i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

4. Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, i'r graddau ei fod yn briodol i'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion yr Alban, ac yn benodol mae'n ofynnol iddo:

   a. dilyn y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
   b. rhoi ei farn a bwrw amcangyfrifon yn rhesymol;
   c. datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y'u nodir yn y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon.

5. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, (gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Adran) ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a ryddhawyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn Government Accounting.

**Dr Jon Bell**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**8 Tachwedd 2003**

mewnol

Datganiad rheolaeth fewnol ar gyfer

# FSA yr Alban

## 1. Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a bennwyd gan Fwrdd yr FSA a Deddf Safonau Bwyd 1999, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau adrannol yr wyf yn bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn Government Accounting.

Mae'r FSA yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth, sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion, ac fe'i harweinir gan Fwrdd a benodir i weithredu er budd y cyhoedd. Rwyf i ac aelodau o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd yr FSA. Rwyf hefyd yn cyfarfod â Chadeirydd Bwrdd yr FSA a'r Dirprwy Gadeirydd bob wythnos.

Fe'm penodwyd fel Swyddog Cyfrifyddu yr FSA wedi ei hariannu gan San Steffan gan y Trysorlys, ac rwyf hefyd yn gweithredu yn rhinwedd y swydd hon ar gyfer FSA Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er bod gweithgareddau FSA yr Alban wedi eu hariannu drwy Senedd yr Alban, mae'n rhan o Asiantaeth Safonau Bwyd y Deyrnas Unedig ac nid yw'n sefydliad cyfansoddiadol ar wahân. Mae rheolaethau mewnol, a risgiau'r swyddfeydd datganoledig yr un peth ag y maent ar gyfer gweddill yr FSA. Rheolir y sefydliad fel un endid, waeth sut yr ariennir y darnau cydrannol.

Mae elfennau allweddol system effeithiol o reolaeth fewnol ar waith gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnwys:

- Bwrdd Rheoli Gweithredol, wedi ei gadeirio gennyf i ac yn cynnwys holl Gyfarwyddwyr y DU, sydd fel arfer yn cyfarfod bob mis;
- trefniadau archwilio mewnol, gan gynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad, sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth;
- adroddiadau rheolaidd gan yr uned archwiliad mewnol, sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- Pwyllgor Archwilio, a gyfansoddwyd yn unol â chanllawiau'r Trysorlys, i'm cynghori fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn gyda Chadeirydd anweithredol sy'n cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr FSA ar waith y Pwyllgor;
- cynllun strategol sy'n nodi prif nodau ac amcanion yr FSA ar gyfer 2001-2006;
- cofrestr risg strategol yn ymgorffori cynlluniau trin risgiau;
- proses cynllunio busnes ac ariannol gysylltiedig (cynlluniau corfforaethol a busnes lleol) sy'n ystyried risgiau i fusnes;
- adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i gyfarfodydd misol y Bwrdd Rheoli Gweithredol ar gyfer cynllunio busnes ac ariannol;
- adroddiadau rheolaidd ar reolaethau mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg, i'r Pwyllgor Archwilio;
- Deiliaid y Gyllideb yn cymeradwyo'r gwariant yn chwarterol;
- cymeradwyo cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol gan Ddeiliaid y Gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn;
- cymorth a hyfforddiant wedi ei dargedu i ddiwallu anghenion rhannau gwahanol o'r sefydliad gan gynnwys ei swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## 2. Diben y system o reolaeth fewnol

Cynllunnir y system o reolaeth fewnol er mwyn rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall y system ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion adrannol, gwerthuso pa mor debygol ydyw y bydd y risgiau hynny yn digwydd a'r effaith pe baent yn digwydd, a'u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system wedi bod ar waith yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n unol â chanllawiau'r Trysorlys.

## 3. Capasiti i ymdrin â risg

Mae tîm rheoli'r FSA wedi ymgorffori'r broses o reoli risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad a chynhelir adolygiadau a chyflwynir adroddiadau arnynt yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r cyfrifoldeb dros reoli'r prif risgiau o ddydd i ddydd wedi ei neilltuo i Uwch Reolwyr ac mae'n ofynnol iddynt sicrhau y rhoddir digon o sylw i'r dasg hon.

Cyhoeddwyd dau ddatganiad polisi risg; fframwaith ar gyfer rheoli risg i fusnes sy'n ymgorffori canllawiau'r Trysorlys, a fframwaith risg o ran bwyd sy'n disgrifio, i gynulleidfa gyffredinol, ymagwedd yr FSA tuag at reoli risgiau o ran bwyd. Sicrhawyd bod llawlyfr risg i fusnes ar gael i bob aelod o staff, sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn y sefydliad i reoli risg i fusnes, sy'n cynnwys y broses o gynyddu risg a chyfrifoldebau'r unigolion yn y sefydliad cyfan. Datblygwyd rhaglen o hyfforddiant a chymorth ar gyfer y broses o gynllunio busnes. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar reoli risg.

Adolygir y broses o gynllunio busnes yn ffurfiol bob blwyddyn a'i diwygio i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd ac ymgorffori enghreifftiau o arferion da.

## 4. Yr amgylchedd risg

Yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd, cydnabyddir a rheolir y prif gategorïau canlynol o risg:

- **risgiau strategol:** nodir y rhain a chânt eu monitro gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'u hadolygu'n ffurfiol bob chwarter. Fe'u cynhwysir hefyd yn y gofrestr risg strategol. Mae un Cyfarwyddwr yn gyfrifol am bob risg ac mae'n rheoli pa mor debygol ydyw y bydd y risg yn digwydd ac effaith y risg;
- **prif risgiau i brosiectau:** caiff y rhain eu rheoli yn ôl safonau rheoli prosiectau ac fe'u cynhwysir mewn cofrestr risgiau;
- **risgiau lleol:** mae'r FSA wedi penderfynu na fyddai cofrestrau risg lefel is yn briodol ac mae gan reolwyr lleol yr hawl i benderfynu sut y caiff y risgiau hyn eu rheoli.

Mae Bwrdd yr FSA a'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd ar reoli risg. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw fy nghynghori ar p'un a yw'r prosesau ar gyfer nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau yn gadarn, ond rôl Bwrdd yr FSA yn y cyd-destun hwn yw rhoi sylwadau ar p'un a yw'r sylw a roddir i risgiau strategol yn gynhwysfawr.

Ymhlith y prif risgiau a nodwyd hyd yma mae:

- asesiad anghywir o risg o ran bwyd;
- methiant i gyfathrebu'n effeithiol;
- methiant i orfodi Cyfraith Diogelwch Bwyd yn gywir;
- methiant i ddylanwadu ar randdeiliaid i weithredu er budd defnyddwyr;
- prinder staff â'r sgiliau priodol.

Mae Deddf Safonau Bwyd 1999 yn rhoi dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gweithredu er budd defnyddwyr.

O ran iechyd y cyhoedd mae'r FSA yn mabwysiadu ymagwedd ragofalus tuag at risg sy'n golygu y caiff camau eu cymryd efallai cyn bod prawf pendant o berygl. Cymerir camau yn gymesur â'r farn orau am y risg a chânt eu hadolygu os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg.

Cynhwysir ein rheolaeth o risg strategol yn ein gwaith o wneud, cynllunio a chyflwyno polisïau drwy ymgorffori rheolaeth o risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad fel y cânt eu hadolygu ac fel y cyflwynir adroddiadau arnynt drwy gydol y flwyddyn. Ymgorfforwyd rheolaeth o risg hefyd yn y broses cynllunio busnes ar lefelau eraill mewn ffordd gymesur. Ategwyd y broses gynllunio yn llawn gan raglen o gymorth a dargedwyd i ddiwallu anghenion y rhannau gwahanol o'r sefydliad, a rhaglen o hyfforddiant a chymorth i'r broses o gynllunio busnes sy'n cynnwys rheoli risg.

Mae ein hamgylchedd risg yn cynnwys rheoli risgiau sy'n effeithio ar y cyhoedd. Mae Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal ei holl gyfarfodydd gwneud penderfyniadau ynghylch polisïau yn gyhoeddus. Hysbysebir y lleoliadau a'r agendâu ymlaen llaw ac mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd. Mae cyfle i aelodau'r gynulleidfa ofyn cwestiynau ymhob cyfarfod.

Yn ein barn ni, mae ymgynghori â'n rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o gyflawni ein gwerthoedd craidd. Mae'n ofynnol i ni yn ôl statud ymgynghori ar ein gweithgareddau â'r rhai y mae ein penderfyniadau yn effeithio arnynt. Yn ogystal â llawer iawn o gyswllt anffurfiol â rhanddeiliaid, mae'r Asiantaeth yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ysgrifenedig ffurfiol fel rhan o'r datblygiad polisi. Rydym hefyd yn cynnal fforymau rhanddeiliaid ar faterion allweddol lle y gwahoddwn pob rhanddeiliad allweddol i gyfarfod a thrafod safbwyntiau gwahanol.

Un o'n gwerthoedd craidd yw rhoi defnyddwyr yn gyntaf ac rydym wedi sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr i hysbysu'r Asiantaeth, ymhlith pethau eraill, am faterion allweddol sy'n achos pryder ar hyn o bryd neu sy'n achos pryder newydd i ddefnyddwyr; rhoi sylwadau ar amcanion strategol yr Asiantaeth a chynllunio ymlaen llaw; a darparu adborth i'r Asiantaeth ar effeithiolrwydd ein polisïau wrth ymateb i bryderon defnyddwyr.

## 5. Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr Adran sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol gan y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun i sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus ar waith.

Mae'r FSA yn ymdrechu'n galed i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol.

Mae Cynllun Strategol yr FSA 2001/06 yn nodi prif nodau ac amcanion yr FSA am gyfnod o 5 mlynedd. Mae targedau yng nghynllun busnes corfforaethol blynyddol yr FSA, ac mewn cynlluniau busnes lleol o fewn y sefydliad, wedi eu cysylltu â'r themâu a nodir yn y Cynllun Strategol.

Mae trefniadau archwilio mewnol yr FSA yn cynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth. Mae adroddiadau gan yr uned archwiliad mewnol yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

**Dr Jon Bell**
**Prif Weithredwr**
**8 Tachwedd 2003**

Asiantaeth Safonau Bwyd – Yr Alban

# Crynodeb o Alldro'r Adnoddau

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | 2002/03 | | | | | | | 2001/02 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Alldro | | | Cyfanswm Alldro Net o'i gymharu ag Arbedion Amcangyfrifedig/ (gormodedd) | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol (ailddatganwyd) |
| | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | | |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cais am adnoddau | | | | | | | | |
| Diogelu a hyrwyddo iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd | 5,498 | - | 5,498 | 4,533 | - | 4,533 | 965 | 5,410 |
| **Cyfanswm yr adnoddau** | **5,498** | **-** | **5,498** | **4,533** | **-** | **4,533** | **965** | **5,410** |

## Cysoni Alldro Net yr Adnoddau â'r gofyniad arian parod net

| | Nodyn | 2002/03 £000oedd | 2001/02 £000oedd |
|---|---|---|---|
| Alldro Net yr Adnoddau | | 4,533 | 5,410 |
| **Addasiadau croniadau:** | | | |
| Tâl a ailgodwyd ar gyfer defnydd o asedau sefydlog | 3 | (102) | (65) |
| Eitemau anariannol eraill | 3 | (10) | (10) |
| Cynnydd (+)/Gostyngiad (-) mewn dyledwyr a rhagdaliadau | 6 | 39 | (257) |
| Cynnydd(-)/Gostyngiad (+) mewn credydwyr | 6 | 1,188 | (1,420) |
| **Cyfalaf:** | | | |
| Gwariant Cyfalaf | | 30 | 95 |
| **Gofyniad Arian Parod Net** | | **5,678** | **3,753** |

### Cysoni'r gofyniad arian parod net â chyllid gan Senedd yr Alban

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| **Gofyniad arian parod net** | **(5,678)** | **(3,753)** |
| **Arian parod a ddygwyd ymlaen** | **896** | **(51)** |
| **Cyllid arian parod a ddarparwyd gan Senedd yr Alban ar gyfer 2002/03** | **4,800** | **4,649** |
| **Cyllid arian parod a ddarparwyd gan Senedd yr Alban ar gyfer 2001/02** | **-** | **51** |
| **Arian parod a gariwyd ymlaen** | **18** | **896** |

## Datganiad Cost Weithredol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| *Costau gweinyddol* | | | | |
| Costau staff | 2 | 1,666 | | 1,612 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 1,155 | | 1,112 |
| Costau Gweinyddol Gros | | | 2,821 | 2,724 |
| Incwm Gweithredol | | | - | - |
| **Costau Gweinyddol Net** | | | **2,821** | **2,724** |
| *Costau'r Rhaglen* | | | | |
| Diogelu a hyrwyddo iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd | | | | |
| Gwariant | | 1,712 | | 2,686 |
| Llai incwm | | - | | - |
| **Cyfanswm** | 4 | | **1,712** | **2,686** |
| **Cost Weithredol Net** | | | **4,533** | **5,410** |

Mae'r crynodeb o alldro'r adnoddau yn cymharu amcangyfrifon gwariant net a gros FSA Yr Alban â gwariant gwirioneddol. Nid oes ganddo'r un swyddogaeth â'r 'Crynodeb o Alldro'r Adnoddau', fel y'i diffinnir gan Lawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM ac nid yw'n gweithredu fel dull rheoli gwariant. Nid oes angen awdurdod penodol Senedd yr Alban ar gyfer gorwariant o'i gymharu â'r amcangyfrif.

Jon Bell, Swyddog Cyfrifyddu

7 Tachwedd 2003

# Nodiadau i'r cyfrifon

1 Polisïau Cyfrifyddu

1.1 Cwmpas y Cyfrifon

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Mae gan yr FSA gyfrifoldeb dros ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau sy'n codi wrth fwyta bwyd, ac fel arall i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd ledled y DU. Mae ei phencadlys yn Llundain ac mae'r FSA hefyd yn gweithredu yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban drwy ei thair swyddfa ddatganoledig.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno adroddiad ar alldro net yr adnoddau, costau gweithredol net a chyllid arian parod gweithrediadau'r FSA. Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi cyfrif am weithgareddau'r FSA yn yr Alban, a ariennir ar wahân gan symiau a bleidleisiwyd gan Senedd yr Alban.

Nid yw'r datganiadau hyn yn cynnwys gorbenion canolog yr FSA, a ariennir gan arian a bleidleisiwyd gan Senedd San Steffan ac y rhoddir cyfrif amdanynt ar wahân yng nghyfrifon adnoddau'r FSA.

Cynhyrchwyd cyfrifon ar wahân hefyd ar gyfer gweithgareddau'r FSA yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, gweithgareddau'r Gwasanaeth Hylendid Cig, sy'n asiantaeth weithredol yr FSA, a chynhyrchir cyfrif cyfunol hefyd yn nodi gweithgareddau'r FSA yn gyffredinol.

1.2 Sail y Paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion yr Alban. Atgynhyrchir y Cyfarwyddyd hyn fel atodiad i'r cyfrifon. Yn unol â darpariaethau Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a Deddf Safonau Bwyd 1999, archwilir holl gyfrifon yr FSA gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

1.3 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn i roi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf am y flwyddyn ac i gysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban ar gyfer y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn paratowyd y cyfrifon ar sail croniadau ac yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM, i'r graddau ei fod yn gymwys ac yn briodol i'r asiantaeth.

1.4 Sail Ariannu

Darperir arian gan Senedd yr Alban ar sail y bwriedir iddo dalu'r costau arian parod net am y cyfnod. Felly mae'r Datganiad Cost Weithredol yn Atodlen 1 yn dangos yr addasiadau sy'n angenrheidiol i'r alldro adnoddau ar sail croniadau er mwyn pennu'r swm arian parod sydd i'w ariannu gan Senedd yr Alban. Felly mae Atodlen 1 yn adlewyrchu addasiadau i roi cyfrif am:

a) symudiadau ar ddyledwyr a chredydwyr sy'n parhau heb eu talu ar 31ain Mawrth 2003;

b) costau arian parod prynu asedau sefydlog, yn hytrach na'r tâl ar gyfer dibrisiant a adlewyrchir yn yr alldro adnoddau; a

c) dileu costau anariannol megis y ffi archwilio, nad oes angen taliad arian parod ar ei gyfer er bod cyfrif ar ei gyfer yn yr alldro adnoddau. Darperir rhagor o fanylion yn nodyn 3 i'r cyfrifon hyn.

1.5 Costau Gweinyddol a Chostau'r Rhaglen

Dadansoddir y Datganiad Cost Weithredol rhwng costau gweinyddol a chostau'r rhaglen. Mae costau gweinyddol yn adlewyrchu cost rhedeg yr FSA fel y nodir o dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol. Mae costau'r rhaglen yn adlewyrchu costau anweinyddol gan gynnwys taliadau eraill gan yr FSA.

1.6 Pensiynau

Roedd y mwyafrif o'r staff a secondiwyd i'r FSA ar fenthyg o Weithrediaeth yr Alban. Fel y cyfryw, gweision sifil ydynt ac fe'u cwmpesir gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae hwn yn gynllun anghyfrannol nas ariennir. Mae'r cynllun yn gynllun buddiannau diffiniedig ac mae'r rhwymedigaeth dros daliadau buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar y PCSPS, y cyhoeddir cyfrifon ar wahân ar ei gyfer. Mae'r FSA yn talu costau cyfraniadau pensiwn y staff drwy dalu tâl a godir ar sail groniadol i'r PCSPS. Lle y secondiwyd staff o sefydliadau eraill (er enghraifft awdurdodau lleol), cynhwyswyd tâl a godir sy'n adlewyrchu cost y cyfraniad i'w cynllun pensiwn.

1.7 Treth Ar Werth

Cynhwysir gwariant yn glir o TAW y gellir ei hadennill. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y datganiad cost weithredol.

1.8 Newid mewn Polisi Cyfrifyddu

Caiff y mwyafrif o staff sy'n gweithio i FSA yr Alban eu secondio i'r FSA o Weithrediaeth yr Alban. Mae canllawiau diweddar y Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i gostau pawb sy'n cael eu secondio'n fewnol gael eu datgelu ar wahân o fewn costau staff. Cofnodwyd costau staff a secondiwyd yn fewnol fel 'costau gweinyddol eraill' yng nghyfrifon 2001/02. Cofnodir y costau hyn fel 'costau staff' yn y datganiadau ariannol hyn yn awr, ac ailddatganwyd cymariaethau'r flwyddyn flaenorol i sicrhau cysondeb yn y driniaeth gyfrifyddu rhwng y blynyddoedd. Nid oes unrhyw effaith ar gostau gweithredol net y flwyddyn flaenorol nac ar y gofyniad arian parod net o ganlyniad i'r newid hwn.

# 2 Cost a nifer y staff a secondiwyd

a) **Costau'r staff a secondiwyd:**

| | 2002/03 £000oedd | 2001/02 (ailddatganwyd) £000oedd |
|---|---|---|
| Cyflogau | 1,296 | 1,198 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 88 | 92 |
| Costau Pensiwn Eraill | 167 | 161 |
| **Is-gyfanswm** | **1,551** | 1,451 |
| Staff yr Asiantaeth | 115 | 161 |
| Cyfanswm | **1,666** | 1,612 |
| Llai adenillion mewn perthynas â'r rhai a secondiwyd yn allanol | - | - |
| **Cyfanswm y Costau Net** | **1,666** | **1,612** |

b) **Roedd nifer y bobl ar gyfartaledd a secondiwyd i FSA yr Alban yn ystod y flwyddyn 2002-03 fesul nod fel a ganlyn:**

| | 2002/03 | 2001/02 (ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 18 | 14 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 15 | 11 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 34 | 39 |
| | **67** | **64** |

Mae'r mwyafrif o'r staff sy'n gweithio yn FSA yr Alban wedi eu secondio o Weithrediaeth yr Alban. Telir costau cyflogau gan Weithrediaeth yr Alban sy'n adennill y gost o'r FSA.

c) **Roedd Costau Staff a Secondiwyd fesul nod fel a ganlyn:**

| | 2002/03 £000oedd | 2001/02 (ailddatganwyd) £000oedd |
|---|---|---|
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 440 | 504 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 397 | 214 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 829 | 894 |
| | **1,666** | **1,612** |

ch) **Cydnabyddiaeth y Rheolwyr**

| | 2002/03 | | | 2001/02 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd mewn Pensiwn a Enillwyd | Gwerth Pensiwn Personol Cronedig | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd mewn Pensiwn a Enillwyd | Gwerth Pensiwn Personol Cronedig |
| *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 | £5,000 | £2,500 | £5,000 |
| | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| George Patterson Cyfarwyddwr, FSA yr Alban | 75-80 | 0-2.5 | 0-5 | 65-70 | 0-2.5 | 0-5 |

Mae pob Aelod o Grŵp Rheoli'r FSA wedi gwrthod rhoi eu caniatâd i gyhoeddi eu hoedran.

# 3 Costau gweinyddol eraill

| | | 2002/03 | 2001/02 (ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Eitemau anariannol: | | | |
| Tâl a ailgodwyd ar gyfer defnydd o asedau sefydlog | 102 | | 65 |
| Ffioedd archwilio | 10 | | 10 |
| | | 112 | |
| Costau llety | | 435 | 478 |
| Gorbenion staff | | 325 | 272 |
| Costau gweinyddol | | 161 | 157 |
| Costau TG | | 57 | 85 |
| Costau'r Pwyllgor | | 65 | 45 |
| | | 1,155 | 1,112 |

# 4 Costau net y rhaglen fesul nod yr FSA

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 732 | 288 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 482 | 432 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 498 | 1,966 |
| | 1,712 | 2,686 |

# 5 Trafodion partïon cysylltiedig

Nid oes unrhyw un o Aelodau'r Bwrdd, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol gyda'r FSA yn ystod y flwyddyn.

Cafodd yr FSA nifer o drafodion ag adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill.

Mae swyddfa ddatganoledig yr FSA yn yr Alban wedi ei staffio'n bennaf gan swyddogion ar secondiad o Weithrediaeth yr Alban.

# 6 Symudiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian parod

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr a rhagdaliadau | 39 | (257) |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr | 1,188 | (1,420) |
| | **1,227** | **(1,677)** |

# 7 Dyledwyr

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| Dyledwyr eraill | - | 1 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 114 | 27 |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn: | | |
| Dyledwyr eraill | - | 47 |
| Cyfanswm y Dyledwyr | 114 | 75 |

# 8 Credydwyr

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| Credydwyr masnach | 44 | 561 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 358 | 1,030 |
| Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwadau ond nas gwariwyd yn ystod y flwyddyn | 18 | 896 |
| | **420** | **2,487** |

# 9 Pwyllgor ymgynghorol

Yn ogystal â phrif Fwrdd yr FSA, mae gan yr FSA bwyllgorau ymgynghorol ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgorau yn gweithredu fel cyrff ymgynghorol annibynnol ar yr FSA. Fe'u cadeirir gan Aelodau'r Bwrdd ac mae'n ofynnol i Fwrdd yr FSA yn ôl statud ystyried eu cyngor yn ei gwaith. Rhestrir Aelodau'r Pwyllgor isod:

**Yr Alban – Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol**

Yr Athro Syr John Arbuthnott (Cadeirydd) a ymddeolodd ar 30/11/2002
Michael Gibson (Cadeirydd) o 04/11/2002
Yr Athro Andrew Miller (Dirprwy Gadeirydd) o 11/03/2003
Yr Athro William Reilly
Anne Campbell
Yr Athro Hugh Pennington
Dr Marnie Sommerville
Wilma Odell
Ross MacDonald
Yr Athro Phillip Thomas
William Davidson
Alexandra Miller terfynwyd y penodiad ar 14/03/2003
Catherine Brady o 15/03/2003

# 10 Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae FSA yr Alban ar hyn o bryd mewn anghydfod gyda chyflenwr ynghylch anfoneb am £75,000. Mae hyn yn destun achos cyfreithiol ar hyn o bryd, ac ni ddarparwyd ar ei gyfer yn y cyfrifon. Mae rheolwyr yr FSA o'r farn y caiff yr achos ei wrthod yn llwyddiannus.

CYFARWYDDYD

## Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Weinidogion yr Alban yn unol ag adran 39(7) ac atodlen 4 Deddf Safonau Bwyd 1999

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyflwyno adroddiadau ar ei chyllid a'i gwariant mewn perthynas â symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban mewn Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- crynodeb o alldro'r adnoddau;
- datganiad cost weithredol;
- atodlen yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a ddarparwyd gan Gronfa Gyfunol yr Alban.

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno crynodeb o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, a gwariant cyfalaf y flwyddyn mewn ffordd deg ac yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol yr Alban am y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi hefyd yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym am y flwyddyn ariannol honno i'r graddau ei fod yn briodol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen rhagair ar wahân, datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol, na datganiad adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben.

Caiff y cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

**Llofnodwyd drwy Awdurdod Gweinidogion yr Alban:**
**1 Hydref 2001**

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Datganiad Cyfrifon ar gyfer Gogledd Iwerddon

Datganiad am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003





# CYNNWYS CYFRIFON BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Tystysgrif archwilio – Gogledd Iwerddon | 100 |
| Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 102 |
| Datganiad rheolaeth fewnol ar gyfer FSA Gogledd Iwerddon | 103 |
| Crynodeb o alldro'r adnoddau – Gogledd Iwerddon | 106 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 107 |
| Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus ar gyfer Gogledd Iwerddon | 112 |

# Tystysgrif archwilio

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Gynulliad Gogledd Iwerddon.

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 106 i 111 o dan Atodlen 4(3) Deddf Safonau Bwyd 1999. Paratowyd y datganiadau hyn o dan y polisïau cyfrifyddu fel y'u nodir ar dudalen 107.

## Priod gyfrifoldebau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, y Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 102 mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a chyfarwyddiadau'r Adran Cyllid a Phersonél a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn gyfrifol am baratoi gweddill cynnwys y cyfrifon. Sefydlir fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiad cyfrifon yn cyflwyno'r gweithgareddau hynny gan yr FSA a ariennir gan Gynulliad Gogledd Iwerddon yn deg, ac a chawsant eu paratoi yn unol â'r Ddeddf Safonau Bwyd a chyfarwyddiadau'r Adran Cyllid a Phersonél a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant ymhob ystyr berthnasol wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Gogledd Iwerddon a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r FSA, yn fy marn i, wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn y Cyfrifon, ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad amlwg neu anghysondeb perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 103 i 105 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr FSA ag arweiniad y Trysorlys 'Llywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad Rheolaeth Fewnol'. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r farn bwysig a fynegwyd gan y Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Asiantaeth, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiad cyfrifon yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra arall a bod y gwariant, ymhob ystyr berthnasol, wedi ei gymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Gogledd Iwerddon a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

# Tystysgrif archwilio

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiad cyfrifon yn rhoi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau ar gyfer y flwyddyn ariannol, a gofynion arian parod gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd a ariannwyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003, a'u bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a'r cyfarwyddiadau a wneir o dan y Ddeddf honno gan yr Adran Cyllid a Phersonél ar gyfer Gogledd Iwerddon; ac
- ym mhob ystyr berthnasol mae'r gwariant wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Gogledd Iwerddon ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

8 Tachwedd 2003

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London SW1W 9SP

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

1. O dan adran 39(7) ac atodlen 4 Deddf Safonau Bwyd 1999, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi datganiad cyfrifon yn nodi ei gwariant mewn perthynas â'r symiau a dalwyd gan Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (yr Adran) ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Gwneir hyn er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon gan yr Adran y dylai'r datganiad cyfrifon fanylu ar y defnydd o adnoddau a ddarparwyd gan yr Adran ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y flwyddyn.

2. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf am y flwyddyn a rhaid iddynt gysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer Gogledd Iwerddon am y flwyddyn.

3. Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Safonau Bwyd gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi cyfrifon yr Asiantaeth a thros eu trosglwyddo i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

4. Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, i'r graddau ei fod yn briodol i'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran, ac yn benodol mae'n ofynnol iddo:

   a. dilyn y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

   b. rhoi ei farn a bwrw amcangyfrifon yn rhesymol;

   c. datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y'u nodir yn y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon.

5. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, (gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Adran) ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a ryddhawyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn Government Accounting.

**Dr Jon Bell**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**7 Tachwedd 2003**

Datganiad rheolaeth fewnol ar gyfer

# FSA Gogledd Iwerddon

## 1. Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a bennwyd gan Fwrdd yr FSA a Deddf Safonau Bwyd 1999, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau adrannol yr wyf yn bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn Government Accounting.

Mae'r FSA yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth, sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion, ac fe'i harweinir gan Fwrdd a benodir i weithredu er budd y cyhoedd. Rwyf i ac aelodau o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd yr FSA. Rwyf hefyd yn cyfarfod â Chadeirydd Bwrdd yr FSA a'r Dirprwy Gadeirydd bob wythnos.

Fe'm penodwyd fel Swyddog Cyfrifyddu yr FSA wedi ei hariannu gan San Steffan gan y Trysorlys, ac rwyf hefyd yn gweithredu yn rhinwedd y swydd hon ar gyfer FSA Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er bod gweithgareddau FSA Gogledd Iwerddon wedi eu hariannu drwy Gynulliad Gogledd Iwerddon, mae'n rhan o Asiantaeth Safonau Bwyd y Deyrnas Unedig ac nid yw'n sefydliad cyfansoddiadol ar wahân. Mae rheolaethau mewnol, a risgiau'r swyddfeydd datganoledig yr un peth ag y maent ar gyfer gweddill yr FSA. Rheolir y sefydliad fel un endid, waeth sut yr ariennir y darnau cydrannol.

Mae elfennau allweddol system effeithiol o reolaeth fewnol ar waith gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnwys:

- Bwrdd Rheoli Gweithredol, wedi ei gadeirio gennyf i ac yn cynnwys holl Gyfarwyddwyr y DU, sydd fel arfer yn cyfarfod bob mis;
- trefniadau archwilio mewnol, gan gynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad, sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth;
- adroddiadau rheolaidd gan yr uned archwiliad mewnol, sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- Pwyllgor Archwilio, a gyfansoddwyd yn unol â chanllawiau'r Trysorlys, i'm cynghori fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn gyda Chadeirydd anweithredol sy'n cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr FSA ar waith y Pwyllgor;
- cynllun strategol sy'n nodi prif nodau ac amcanion yr FSA ar gyfer 2001-2006;
- cofrestr risg strategol yn ymgorffori cynlluniau trin risgiau;
- proses cynllunio busnes ac ariannol gysylltiedig (cynlluniau corfforaethol a busnes lleol) sy'n ystyried risgiau i fusnes;
- adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i gyfarfodydd misol y Bwrdd Rheoli Gweithredol ar gyfer cynllunio busnes ac ariannol;
- adroddiadau rheolaidd ar reolaethau mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg, i'r Pwyllgor Archwilio;
- Deiliaid y Gyllideb yn cymeradwyo'r gwariant yn chwarterol;
- cymeradwyo cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol gan Ddeiliaid y Gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn;
- cymorth a hyfforddiant wedi ei dargedu i ddiwallu anghenion rhannau gwahanol o'r sefydliad gan gynnwys ei swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## 2. Diben y system o reolaeth fewnol

Cynllunnir y system o reolaeth fewnol er mwyn rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall y system ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion adrannol, gwerthuso pa mor debygol ydyw y bydd y risgiau hynny yn digwydd a'r effaith pe baent yn digwydd, a'u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system wedi bod ar waith yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n unol â chanllawiau'r Trysorlys.

## 3. Capasiti i ymdrin â risg

Mae tîm rheoli'r FSA wedi ymgorffori'r broses o reoli risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad a chynhelir adolygiadau a chyflwynir adroddiadau arnynt yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r cyfrifoldeb dros reoli'r prif risgiau o ddydd i ddydd wedi ei neilltuo i Uwch Reolwyr ac mae'n ofynnol iddynt sicrhau y rhoddir digon o sylw i'r dasg hon.

Cyhoeddwyd dau ddatganiad polisi risg; fframwaith ar gyfer rheoli risg i fusnes sy'n ymgorffori canllawiau'r Trysorlys, a fframwaith risg o ran bwyd sy'n disgrifio, i gynulleidfa gyffredinol, ymagwedd yr FSA tuag at reoli risgiau o ran bwyd. Sicrhawyd bod llawlyfr risg i fusnes ar gael i bob aelod o staff, sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn y sefydliad i reoli risg i fusnes, sy'n cynnwys y broses o gynyddu risg a chyfrifoldebau'r unigolion yn y sefydliad cyfan. Datblygwyd rhaglen o hyfforddiant a chymorth ar gyfer y broses o gynllunio busnes. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar reoli risg.

Adolygir y broses o gynllunio busnes yn ffurfiol bob blwyddyn a'i diwygio i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd ac ymgorffori enghreifftiau o arferion da.

## 4. Yr amgylchedd risg

Yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd, cydnabyddir a rheolir y prif gategorïau canlynol o risg:

- **risgiau strategol:** nodir y rhain a chânt eu monitro gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'u hadolygu'n ffurfiol bob chwarter. Fe'u cynhwysir hefyd yn y gofrestr risg strategol. Mae un Cyfarwyddwr yn gyfrifol am bob risg ac mae'n rheoli pa mor debygol ydyw y bydd y risg yn digwydd ac effaith y risg;
- **prif risgiau i brosiectau:** caiff y rhain eu rheoli yn ôl safonau rheoli prosiectau ac fe'u cynhwysir mewn cofrestr risgiau;
- **risgiau lleol:** mae'r FSA wedi penderfynu na fyddai cofrestrau risg lefel is yn briodol ac mae gan reolwyr lleol yr hawl i benderfynu sut y caiff y risgiau hyn eu rheoli.

Mae Bwrdd yr FSA a'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd ar reoli risg. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw fy nghynghori ar p'un a yw'r prosesau ar gyfer nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau yn gadarn, ond rôl Bwrdd yr FSA yn y cyd-destun hwn yw rhoi sylwadau ar p'un a yw'r sylw a roddir i risgiau strategol yn gynhwysfawr.

Ymhlith y prif risgiau a nodwyd hyd yma mae:

- asesiad anghywir o risg o ran bwyd;
- methiant i gyfathrebu'n effeithiol;
- methiant i orfodi Cyfraith Diogelwch Bwyd yn gywir;
- methiant i ddylanwadu ar randdeiliaid i weithredu er budd defnyddwyr;
- prinder staff â'r sgiliau priodol.

Mae Deddf Safonau Bwyd 1999 yn rhoi dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gweithredu er budd defnyddwyr.

O ran iechyd y cyhoedd mae'r FSA yn mabwysiadu ymagwedd ragofalus tuag at risg sy'n golygu y caiff camau eu cymryd efallai cyn bod prawf pendant o berygl. Cymerir camau yn gymesur â'r farn orau am y risg a chânt eu hadolygu os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg.

Cynhwysir ein rheolaeth o risg strategol yn ein gwaith o wneud, cynllunio a chyflwyno polisïau drwy ymgorffori rheolaeth o risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad fel y cânt eu hadolygu ac fel y cyflwynir adroddiadau arnynt drwy gydol y flwyddyn. Ymgorfforwyd rheolaeth o risg hefyd yn y broses cynllunio busnes ar lefelau eraill mewn ffordd gymesur. Ategwyd y broses gynllunio yn llawn gan raglen o gymorth a dargedwyd i ddiwallu anghenion y rhannau gwahanol o'r sefydliad, a rhaglen o hyfforddiant a chymorth i'r broses o gynllunio busnes sy'n cynnwys rheoli risg.

Mae ein hamgylchedd risg yn cynnwys rheoli risgiau sy'n effeithio ar y cyhoedd. Mae Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal ei holl gyfarfodydd gwneud penderfyniadau ynghylch polisïau yn gyhoeddus. Hysbysebir y lleoliadau a'r agendâu ymlaen llaw ac mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd. Mae cyfle i aelodau'r gynulleidfa ofyn cwestiynau ymhob cyfarfod.

Yn ein barn ni, mae ymgynghori â'n rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o gyflawni ein gwerthoedd craidd. Mae'n ofynnol i ni yn ôl statud ymgynghori ar ein gweithgareddau â'r rhai y mae ein penderfyniadau yn effeithio arnynt. Yn ogystal â llawer iawn o gyswllt anffurfiol â rhanddeiliaid, mae'r Asiantaeth yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ysgrifenedig ffurfiol fel rhan o'r datblygiad polisi. Rydym hefyd yn cynnal fforymau rhanddeiliaid ar faterion allweddol lle y gwahoddwn pob rhanddeiliad allweddol i gyfarfod a thrafod safbwyntiau gwahanol.

Un o'n gwerthoedd craidd yw rhoi defnyddwyr yn gyntaf ac rydym wedi sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr i hysbysu'r Asiantaeth, ymhlith pethau eraill, am faterion allweddol sy'n achos pryder ar hyn o bryd neu sy'n achos pryder newydd i ddefnyddwyr; rhoi sylwadau ar amcanion strategol yr Asiantaeth a chynllunio ymlaen llaw; a darparu adborth i'r Asiantaeth ar effeithiolrwydd ein polisïau wrth ymateb i bryderon defnyddwyr.

## 5. Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr Adran sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol gan y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun i sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus ar waith.

Mae'r FSA yn ymdrechu'n galed i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol.

Mae Cynllun Strategol yr FSA 2001/06 yn nodi prif nodau ac amcanion yr FSA am gyfnod o 5 mlynedd. Mae targedau yng nghynllun busnes corfforaethol blynyddol yr FSA, ac mewn cynlluniau busnes lleol o fewn y sefydliad, wedi eu cysylltu â'r themâu a nodir yn y Cynllun Strategol.

Mae trefniadau archwilio mewnol yr FSA yn cynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth. Mae adroddiadau gan yr uned archwiliad mewnol yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

**Dr Jon Bell**
**Prif Weithredwr**
**8 Tachwedd 2003**

Asiantaeth Safonau Bwyd – Gogledd Iwerddon

# Crynodeb o Alldro'r Adnoddau

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | 2002/03 | | | | | | | 2001/02 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Alldro | | | Cyfanswm Alldro Net o'i gymharu ag Arbedion Amcangyfrifedig/ (gormodedd) | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | | |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cais am adnoddau | | | | | | | | |
| Diogelu a hyrwyddo iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd | 1,461 | - | 1,461 | 1,376 | - | 1,376 | 85 | 1,245 |
| **Cyfanswm yr adnoddau** | **1,461** | **-** | **1,461** | **1,376** | **-** | **1,376** | **85** | **1,245** |

## Cysoni Alldro Net yr Adnoddau â'r gofyniad arian parod net

| | Nodyn | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|---|
| | | £000oedd | £000oedd |
| Alldro Net yr Adnoddau | | 1,376 | 1,245 |
| **Addasiadau croniadau:** | | | |
| Tâl a ailgodwyd ar gyfer defnydd o asedau sefydlog | 3 | (53) | (33) |
| Eitemau anariannol eraill | 3 | (23) | (39) |
| Cynnydd (+)/Gostyngiad (-) mewn dyledwyr a rhagdaliadau | 6 | (5) | (18) |
| Cynnydd(-)/Gostyngiad (+) mewn credydwyr | 6 | (82) | (4) |
| **Cyfalaf:** | | | |
| Gwariant Cyfalaf | | 11 | - |
| **Gofyniad Arian Parod Net** | | **1,224** | **1,151** |

## Cysoni'r gofyniad arian parod net â chyllid gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| **Gofyniad arian parod net** | **(1,224)** | **(1,151)** |
| **Arian parod a ddygwyd ymlaen** | **23** | **(10)** |
| **Cyllid arian parod a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Gynulliad Gogledd Iwerddon ar gyfer 2002/03** | **1,055** | **772** |
| **Cyllid arian parod a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Gynulliad Gogledd Iwerddon ar gyfer 2001/02** | **-** | **10** |
| **Cyllid arian parod a ddarparwyd yn anuniongyrchol drwy Gynulliad Gogledd Iwerddon ar gyfer 2002/03** | **251** | **402** |
| **Arian parod a gariwyd ymlaen** | **105** | **23** |

## Datganiad Cost Weithredol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Costau gweinyddol** | | | | |
| Costau staff | 2 | 609 | | 611 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 473 | | 418 |
| Costau Gweinyddol Gros | | | 1,082 | 1,029 |
| Incwm Gweithredol | | | - | - |
| **Costau Gweinyddol Net** | | | **1,082** | **1,029** |
| **Costau'r Rhaglen** | | | | |
| Diogelu a hyrwyddo iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd | | | | |
| Gwariant | | 294 | | 216 |
| Llai incwm | | - | | - |
| **Cyfanswm** | **4** | | **294** | **216** |
| **Cost Weithredol Net** | | | **1,376** | **1,245** |

Mae'r crynodeb o alldro'r adnoddau yn cymharu amcangyfrifon gwariant net a gros FSA Gogledd Iwerddon â gwariant gwirioneddol. Nid oes ganddo'r un swyddogaeth â'r 'Crynodeb o Alldro'r Adnoddau', fel y'i diffinnir gan Lawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM ac nid yw'n gweithredu fel dull rheoli gwariant. Nid oes angen awdurdod penodol y Cynulliad ar gyfer gorwariant o'i gymharu â'r amcangyfrif.

Dr Jon Bell, Swyddog Cyfrifyddu, 7 Tachwedd 2003

# Nodiadau i'r cyfrifon

nodiadau

**1 Polisïau Cyfrifyddu**

**1.1 Cwmpas y Cyfrifon**

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Mae gan yr FSA gyfrifoldeb dros ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau sy'n codi wrth fwyta bwyd, ac fel arall i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd ledled y DU. Mae ei phencadlys yn Llundain ac mae'r FSA hefyd yn gweithredu yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban drwy ei thair swyddfa ddatganoledig.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno adroddiad ar alldro net yr adnoddau, costau gweithredol net a chyllid arian parod gweithrediadau'r FSA. Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi cyfrif am weithgareddau'r FSA yng Ngogledd Iwerddon, a ariennir ar wahân gan symiau a bleidleisiwyd gan Gynulliad Gogledd Iwerddon.

Nid yw'r datganiadau hyn yn cynnwys gorbenion canolog yr FSA, a ariennir gan arian a bleidleisiwyd gan Senedd San Steffan ac y rhoddir cyfrif amdanynt ar wahân yng nghyfrifon adnoddau'r FSA.

Cynhyrchwyd cyfrifon ar wahân hefyd ar gyfer gweithgareddau'r FSA yng Nghymru a'r Alban, gweithgareddau'r Gwasanaeth Hylendid Cig, sy'n asiantaeth weithredol yr FSA, a chynhyrchir cyfrif cyfunol hefyd yn nodi gweithgareddau'r FSA yn gyffredinol.

**1.2 Sail y Paratoi**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus gyda chymeradwyaeth yr Adran Cyllid a Phersonél ar gyfer Gogledd Iwerddon, a Deddf Safonau Bwyd 1999. Atgynhyrchir y Cyfarwyddyd hyn fel atodiad i'r cyfrifon. Yn unol â darpariaethau Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a Deddf Safonau Bwyd 1999, archwilir holl gyfrifon yr FSA gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

**1.3 Confensiwn Cyfrifyddu**

Paratowyd y cyfrifon hyn i roi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf am y flwyddyn ac i gysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol Gogledd Iwerddon ar gyfer y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn paratowyd y cyfrifon ar sail croniadau ac yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM, i'r graddau ei fod yn gymwys ac yn briodol i'r asiantaeth.

**1.4 Sail Ariannu**

Darperir arian gan Gynulliad Gogledd Iwerddon ar sail y bwriedir iddo dalu'r costau arian parod net am y cyfnod. Felly mae'r Datganiad Cost Weithredol yn Atodlen 1 yn dangos yr addasiadau sy'n angenrheidiol i'r alldro adnoddau ar sail croniadau er mwyn pennu'r swm arian parod sydd i'w ariannu gan Gynulliad Gogledd Iwerddon.

Felly mae Atodlen 1 yn adlewyrchu addasiadau i roi cyfrif am:

a) symudiadau ar ddyledwyr a chredydwyr sy'n parhau heb eu talu ar 31ain Mawrth 2003;
b) costau arian parod prynu asedau sefydlog, yn hytrach na'r tâl ar gyfer dibrisiant a adlewyrchir yn yr alldro adnoddau; a
c) dileu costau anariannol megis y ffi archwilio, nad oes angen taliad arian parod ar ei gyfer er bod cyfrif ar ei gyfer yn yr alldro adnoddau.

Darperir rhagor o fanylion yn nodyn 3 i'r cyfrifon hyn.

**1.5 Costau Gweinyddol a Chostau'r Rhaglen**

Dadansoddir y Datganiad Cost Weithredol rhwng costau gweinyddol a chostau'r rhaglen. Mae costau gweinyddol yn adlewyrchu cost rhedeg yr FSA fel y nodir o dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol. Mae costau'r rhaglen yn adlewyrchu costau anweinyddol gan gynnwys taliadau eraill gan yr FSA.

**1.6 Pensiynau**

Roedd y mwyafrif o'r staff a secondiwyd i'r FSA ar fenthyg o Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus Gogledd Iwerddon. Fel y cyfryw, gweision sifil Gogledd Iwerddon ydynt ac fe'u cwmpesir gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (NI CSPS). Mae hwn yn gynllun anghyfrannol nas ariennir. Mae'r cynllun yn gynllun buddiannau diffiniedig ac mae'r rhwymedigaeth dros daliadau buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar yr NI CSPS, y cyhoeddir cyfrifon ar wahân ar ei gyfer. Mae'r FSA yn ad-dalu cyflogwyr y rhai a secondiwyd am gostau cyfraniadau pensiwn y staff a secondiwyd drwy dalu tâl a godir ar sail groniadol i'r NI CSPS. Lle y secondiwyd staff o sefydliadau eraill (er enghraifft awdurdodau lleol), cynhwyswyd tâl a godir sy'n adlewyrchu cost y cyfraniad i'w cynllun pensiwn.

**1.7 Treth Ar Werth**

Cynhwysir gwariant yn glir o TAW y gellir ei hadennill. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y datganiad cost weithredol.

**1.8 Newid mewn Polisi Cyfrifyddu**

Caiff y mwyafrif o staff sy'n gweithio i FSA Gogledd Iwerddon eu secondio i'r FSA o gyflogwyr eraill. Mae canllawiau diweddar y Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i gostau pawb sy'n cael eu secondio'n fewnol gael eu datgelu ar wahân o fewn costau staff. Cofnodwyd costau staff a secondiwyd yn fewnol fel 'costau gweinyddol eraill' yng nghyfrifon 2001/02. Cofnodir y costau hyn fel 'costau staff' yn y datganiadau ariannol hyn yn awr, ac ailddatganwyd cymariaethau'r flwyddyn flaenorol i sicrhau cysondeb yn y driniaeth gyfrifyddu rhwng y blynyddoedd. Nid oes unrhyw effaith ar gostau gweithredol net y flwyddyn flaenorol nac ar y gofyniad arian parod net o ganlyniad i'r newid hwn.

# 2 Nifer a chostau'r staff

Mae mwyafrif y staff sy'n gweithio yn FSA Gogledd Iwerddon wedi eu secondio o Adran Iechyd, Nawdd Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus Gogledd Iwerddon. Telir costau cyflogau'r rhai a secondiwyd yn uniongyrchol o'r gofyniad ariannu uniongyrchol.

| | | 2002/03 | 2001/02 (ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|
| a) | Costau'r staff: | £000oedd | £000oedd |
| | Cyflogau | 202 | - |
| | Costau Nawdd Cymdeithasol | 17 | - |
| | Costau Pensiwn Eraill | 32 | - |
| | **Is-gyfanswm** | **251** | - |
| | Rhai a Secondiwyd yn Fewnol | 354 | 605 |
| | Staff yr Asiantaeth | 4 | 6 |
| | Cyfanswm | **358** | 611 |
| | Llai adenillion mewn perthynas â'r rhai a secondiwyd yn allanol | - | - |
| | **Cyfanswm y Costau Net** | **609** | **611** |

| | | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|---|
| b) | **Roedd nifer y bobl ar gyfartaledd a gyflogwyd gan FSA Gogledd Iwerddon yn ystod y flwyddyn 2002-03 fesul nod fel a ganlyn:** | | |
| | Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 2 | 8 |
| | Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 13 | 2 |
| | Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 4 | 8 |
| | | **19** | **18** |

Mae'r mwyafrif o'r staff sy'n gweithio yn FSA Gogledd Iwerddon wedi eu secondio o Adran Iechyd, Nawdd Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus Gogledd Iwerddon, Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon neu gynghorau lleol amrywiol yng Ngogledd Iwerddon.

Telir costau cyflogau'r rhai a secondiwyd o Adran Iechyd, Nawdd Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus Gogledd Iwerddon yn uniongyrchol gan yr Adran honno o'r gofyniad ariannu uniongyrchol. Telir costau cyflogau rhai eraill a secondiwyd gan gyflogwyr gwreiddiol y rhai a secondiwyd ac fe'u hadenillir gan yr FSA drwy anfonebau.

| | | 2002/03 | 2001/02 (ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|
| c) | **Roedd costau staff fesul nod fel a ganlyn:** | £000s | £000s |
| | Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 67 | 262 |
| | Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 450 | 47 |
| | Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 92 | 302 |
| | | **609** | **611** |

*(parhad dros y dudalen)*

ch) Cydnabyddiaeth y Rheolwyr

| | 2002/03 | | | 2001/02 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd mewn Pensiwn a Enillwyd | Gwerth Pensiwn Personol Cronedig | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd mewn Pensiwn a Enillwyd | Gwerth Pensiwn Personol Cronedig |
| *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 | £5,000 | £2,500 | £5,000 |
| | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| Morris McAllister, FSA Gogledd Iwerddon | 60-65 | 0-2.5 | 25-30 | 55-60 | 0-2.5 | 20-25 |

Mae pob Aelod o Grŵp Rheoli'r FSA wedi gwrthod rhoi eu caniatâd i gyhoeddi eu hoedran.

# 3 Costau gweinyddol eraill

| | 2002/03 £000oedd | 2001/02 (ailddatganwyd) £000oedd |
|---|---|---|
| Rhenti o dan brydlesau gweithredol: | | |
| Hurio offer a pheiriannau | 16 | 7 |
| Prydlesau gweithredol eraill | 71 | 68 |
| Eitemau anariannol: | | |
| Tâl a ailgodwyd ar gyfer defnydd o asedau sefydlog | 53 | 33 |
| Ffioedd archwilio | 10 | 10 |
| Costau llety | 72 | 59 |
| Costau gweinyddol | 112 | 68 |
| Gorbenion staff | 68 | 89 |
| Costau TG | 16 | 31 |
| Costau'r Pwyllgor | 55 | 53 |
| | **473** | **418** |

# 4 Costau net y rhaglen fesul amcanion yr FSA

| | 2002/03 £000oedd | 2001/02 £000oedd |
|---|---|---|
| a) **Monitro a Goruchwylio:** | | |
| Awdurdod Lleol | 242 | 181 |
| Diogelwch Bwyd Meicro | 32 | - |
| Maeth | 10 | 6 |
| Diogelwch ac Addysg Bwyd | **10** | **29** |
| | **294** | **216** |

| | 2002/03 £000oedd | 2001/02 £000oedd |
|---|---|---|
| b) **Costau Net y Rhaglen Fesul Nod** | | |
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | - | - |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 284 | 190 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 10 | 26 |
| | **294** | **216** |

# 5 Trafodion partïon cysylltiedig

Nid oes unrhyw un o Aelodau'r Bwrdd, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol gyda'r FSA yn ystod y flwyddyn.

Cafodd yr FSA nifer o drafodion ag adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill.

Mae gan swyddfa ddatganoledig yr FSA yng Ngogledd Iwerddon rai aelodau staff sy'n swyddogion ar fenthyg o Adran Iechyd, Nawdd Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus Gogledd Iwerddon, Adran Amaethyddiaeth Gogledd Iwerddon a chynghorau lleol amrywiol yng Ngogledd Iwerddon.

# 6 Symudiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian parod

| | 2002/03<br>£000oedd | 2001/02<br>£000oedd |
|---|---|---|
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr a rhagdaliadau | (5) | (18) |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr | (82) | (4) |
| | **(87)** | **(22)** |

# 7 Dyledwyr

| | 2002/03<br>£000oedd | 2001/02<br>£000oedd |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| Dyledwyr a rhagdaliadau eraill | 10 | 15 |
| **Cyfanswm y Dyledwyr** | **10** | **15** |

# 8 Credydwyr

| | 2002/03<br>£000oedd | 2001/02<br>£000oedd |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: | | |
| Credydwyr masnach | 8 | 12 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 124 | 38 |
| Symiau a roddwyd o Gronfa Gyfunol Gogledd Iwerddon ar gyfer cyflenwadau ond nas gwariwyd yn ystod y flwyddyn | 105 | 23 |
| | **237** | **73** |

# 9 Pwyllgor ymgynghorol

Yn ogystal â phrif Fwrdd yr FSA, mae gan yr FSA bwyllgorau ymgynghorol ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgorau yn gweithredu fel cyrff ymgynghorol annibynnol ar yr FSA. Fe'u cadeirir gan Aelodau'r Bwrdd ac mae'n ofynnol i Fwrdd yr FSA yn ôl statud ystyried eu cyngor yn ei gwaith. Rhestrir Aelodau'r Pwyllgor isod:

**Gogledd Iwerddon – Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol**

Michael Walker (Cadeirydd)
Patricia Grace McCusker
Yr Athro David McDowell
Maria McGuinness
David Mark
William Taylor
David Collins
Samuel Miskelly
David Stewart
Dr. Vinod Tohani

# Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan yr Adran Iechyd, Nawdd Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus gyda chymeradwyaeth yr Adran Cyllid a Phersonél ar gyfer Gogledd Iwerddon yn unol ag adran 39(7) ac atodlen 4 Deddf Safonau Bwyd 1999.

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (Gogledd Iwerddon) yn cyflwyno adroddiadau ar ei chyllid a'i gwariant mewn perthynas â symiau a dalwyd gan yr Adran Iechyd, Nawdd Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus mewn Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- crynodeb o alldro'r adnoddau;
- datganiad cost weithredol;
- atodlen yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gais yr Adran Iechyd, Nawdd Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus am Adnodd B.

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno crynodeb o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, a gwariant cyfalaf y flwyddyn mewn ffordd deg ac yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol Gogledd Iwerddon am y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi hefyd yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym am y flwyddyn ariannol honno i'r graddau ei fod yn briodol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen rhagair ar wahân, datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol, na datganiad adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben.

Caiff y cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

Llofnodwyd drwy Awdurdod yr Adran Iechyd,
Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus.
Medi 2001

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cymru

Datganiad am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003





# CYNNWYS CYFRIFON BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Tystysgrif archwilio – Cymru | 116 |
| Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 118 |
| Datganiad rheolaeth fewnol ar gyfer FSA Cymru | 119 |
| Crynodeb o alldro'r adnoddau – Cymru | 122 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 123 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 128 |

# Tystysgrif archwilio

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 122 i 127 o dan Atodlen 4(3) Deddf Safonau Bwyd 1999. Paratowyd y datganiadau hyn o dan y polisïau cyfrifyddu fel y'u nodir ar dudalen 123.

## Priod gyfrifoldebau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, y Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 18 mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn gyfrifol am baratoi gweddill cynnwys y cyfrifon. Sefydlir fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiad cyfrifon yn cyflwyno'r gweithgareddau hynny gan yr FSA a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn deg, ac a chawsant eu paratoi yn unol â'r Ddeddf Safonau Bwyd a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant ymhob ystyr berthnasol wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r FSA, yn fy marn i, wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn y Cyfrifon, ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad amlwg neu anghysondeb perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 119 a 121 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr FSA ag arweiniad y Trysorlys 'Llywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad Rheolaeth Fewnol'. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r farn bwysig a fynegwyd gan y Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Asiantaeth, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiad cyfrifon yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra arall a bod y gwariant, ymhob ystyr berthnasol, wedi ei gymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

# Tystysgrif archwilio

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiad cyfrifon yn rhoi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau ar gyfer y flwyddyn ariannol, a gofynion arian parod gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd a ariannwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003, a'u bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Safonau Bwyd 1999 a'r cyfarwyddiadau a wneir o dan y Ddeddf honno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- ym mhob ystyr berthnasol mae'r gwariant wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol

25 Tachwedd 2003

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London SW1W 9SP

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

1. O dan adran 39(7) ac atodlen 4 Deddf Safonau Bwyd 1999, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi datganiad cyfrifon yn nodi ei gwariant mewn perthynas â'r symiau a dalwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Gwneir hyn er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd cyfrifon gan CCC y dylai'r datganiad cyfrifon fanylu ar y defnydd o adnoddau a ddarparwyd gan CCC ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y flwyddyn.

2. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf am y flwyddyn a rhaid iddynt gysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd gan CCC am y flwyddyn.

3. Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth Safonau Bwyd gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi cyfrifon yr Asiantaeth a thros eu trosglwyddo i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

4. Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, i'r graddau ei fod yn briodol i'r cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan CCC, ac yn benodol mae'n ofynnol iddo:
   a. dilyn y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
   b. rhoi ei farn a bwrw amcangyfrifon yn rhesymol;
   c. datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y'u nodir yn y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon.

5. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, (gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Adran) ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a ryddhawyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn Government Accounting.

**Dr Jon Bell**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**7 Tachwedd 2003**

Datganiad rheolaeth fewnol ar gyfer

# FSA Cymru

mewnol

## 1. Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a bennwyd gan Fwrdd yr FSA a Deddf Safonau Bwyd 1999, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau adrannol yr wyf yn bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn Government Accounting.

Mae'r FSA yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth, sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion, ac fe'i harweinir gan Fwrdd a benodir i weithredu er budd y cyhoedd. Rwyf i ac aelodau o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd yr FSA. Rwyf hefyd yn cyfarfod â Chadeirydd Bwrdd yr FSA a'r Dirprwy Gadeirydd bob wythnos.

Fe'm penodwyd fel Swyddog Cyfrifyddu yr FSA wedi ei hariannu gan San Steffan gan y Trysorlys, ac rwyf hefyd yn gweithredu yn rhinwedd y swydd hon ar gyfer FSA Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er bod gweithgareddau FSA Cymru wedi eu hariannu drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'n rhan o Asiantaeth Safonau Bwyd y Deyrnas Unedig ac nid yw'n sefydliad cyfansoddiadol ar wahân. Mae rheolaethau mewnol, a risgiau'r swyddfeydd datganoledig yr un peth ag y maent ar gyfer gweddill yr FSA. Rheolir y sefydliad fel un endid, waeth sut yr ariennir y darnau cydrannol.

Mae elfennau allweddol system effeithiol o reolaeth fewnol ar waith gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnwys:

- Bwrdd Rheoli Gweithredol, wedi ei gadeirio gennyf i ac yn cynnwys holl Gyfarwyddwyr y DU, sydd fel arfer yn cyfarfod bob mis;
- trefniadau archwilio mewnol, gan gynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad, sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth;
- adroddiadau rheolaidd gan yr uned archwiliad mewnol, sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- Pwyllgor Archwilio, a gyfansoddwyd yn unol â chanllawiau'r Trysorlys, i'm cynghori fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn gyda Chadeirydd anweithredol sy'n cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr FSA ar waith y Pwyllgor;
- cynllun strategol sy'n nodi prif nodau ac amcanion yr FSA ar gyfer 2001-2006;
- cofrestr risg strategol yn ymgorffori cynlluniau trin risgiau;
- proses cynllunio busnes ac ariannol gysylltiedig (cynlluniau corfforaethol a busnes lleol) sy'n ystyried risgiau i fusnes;
- adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i gyfarfodydd misol y Bwrdd Rheoli Gweithredol ar gyfer cynllunio busnes ac ariannol;
- adroddiadau rheolaidd ar reolaethau mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg, i'r Pwyllgor Archwilio;
- Deiliaid y Gyllideb yn cymeradwyo'r gwariant yn chwarterol;
- cymeradwyo cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol gan Ddeiliaid y Gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn;
- cymorth a hyfforddiant wedi ei dargedu i ddiwallu anghenion rhannau gwahanol o'r sefydliad gan gynnwys ei swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## 2. Diben y system o reolaeth fewnol

Cynllunnir y system o reolaeth fewnol er mwyn rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall y system ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion adrannol, gwerthuso pa mor debygol ydyw y bydd y risgiau hynny yn digwydd a'r effaith pe baent yn digwydd, a'u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system wedi bod ar waith yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n unol â chanllawiau'r Trysorlys.

## 3. Capasiti i ymdrin â risg

Mae tîm rheoli'r FSA wedi ymgorffori'r broses o reoli risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad a chynhelir adolygiadau a chyflwynir adroddiadau arnynt yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r cyfrifoldeb dros reoli'r prif risgiau o ddydd i ddydd wedi ei neilltuo i Uwch Reolwyr ac mae'n ofynnol iddynt sicrhau y rhoddir digon o sylw i'r dasg hon.

Cyhoeddwyd dau ddatganiad polisi risg; fframwaith ar gyfer rheoli risg i fusnes sy'n ymgorffori canllawiau'r Trysorlys, a fframwaith risg o ran bwyd sy'n disgrifio, i gynulleidfa gyffredinol, ymagwedd yr FSA tuag at reoli risgiau o ran bwyd. Sicrhawyd bod llawlyfr risg i fusnes ar gael i bob aelod o staff, sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn y sefydliad i reoli risg i fusnes, sy'n cynnwys y broses o gynyddu risg a chyfrifoldebau'r unigolion yn y sefydliad cyfan. Datblygwyd rhaglen o hyfforddiant a chymorth ar gyfer y broses o gynllunio busnes. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar reoli risg.

Adolygir y broses o gynllunio busnes yn ffurfiol bob blwyddyn a'i diwygio i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd ac ymgorffori enghreifftiau o arferion da.

## 4. Yr amgylchedd risg

Yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd, cydnabyddir a rheolir y prif gategorïau canlynol o risg:

- **risgiau strategol:** nodir y rhain a chânt eu monitro gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'u hadolygu'n ffurfiol bob chwarter. Fe'u cynhwysir hefyd yn y gofrestr risg strategol. Mae un Cyfarwyddwr yn gyfrifol am bob risg ac mae'n rheoli pa mor debygol ydyw y bydd y risg yn digwydd ac effaith y risg;
- **prif risgiau i brosiectau:** caiff y rhain eu rheoli yn ôl safonau rheoli prosiectau ac fe'u cynhwysir mewn cofrestr risgiau;
- **risgiau lleol:** mae'r FSA wedi penderfynu na fyddai cofrestrau risg lefel is yn briodol ac mae gan reolwyr lleol yr hawl i benderfynu sut y caiff y risgiau hyn eu rheoli.

Mae Bwrdd yr FSA a'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd ar reoli risg. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw fy nghynghori ar p'un a yw'r prosesau ar gyfer nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau yn gadarn, ond rôl Bwrdd yr FSA yn y cyd-destun hwn yw rhoi sylwadau ar p'un a yw'r sylw a roddir i risgiau strategol yn gynhwysfawr.

Ymhlith y prif risgiau a nodwyd hyd yma mae:

- asesiad anghywir o risg o ran bwyd;
- methiant i gyfathrebu'n effeithiol;
- methiant i orfodi Cyfraith Diogelwch Bwyd yn gywir;
- methiant i ddylanwadu ar randdeiliaid i weithredu er budd defnyddwyr;
- prinder staff â'r sgiliau priodol.

Mae Deddf Safonau Bwyd 1999 yn rhoi dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gweithredu er budd defnyddwyr.

O ran iechyd y cyhoedd mae'r FSA yn mabwysiadu ymagwedd ragofalus tuag at risg sy'n golygu y caiff camau eu cymryd efallai cyn bod prawf pendant o berygl. Cymerir camau yn gymesur â'r farn orau am y risg a chânt eu hadolygu os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg.

Cynhwysir ein rheolaeth o risg strategol yn ein gwaith o wneud, cynllunio a chyflwyno polisïau drwy ymgorffori rheolaeth o risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad fel y cânt eu hadolygu ac fel y cyflwynir adroddiadau arnynt drwy gydol y flwyddyn. Ymgorfforwyd rheolaeth o risg hefyd yn y broses cynllunio busnes ar lefelau eraill mewn ffordd gymesur. Ategwyd y broses gynllunio yn llawn gan raglen o gymorth a dargedwyd i ddiwallu anghenion y rhannau gwahanol o'r sefydliad, a rhaglen o hyfforddiant a chymorth i'r broses o gynllunio busnes sy'n cynnwys rheoli risg.

Mae ein hamgylchedd risg yn cynnwys rheoli risgiau sy'n effeithio ar y cyhoedd. Mae Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal ei holl gyfarfodydd gwneud penderfyniadau ynghylch polisïau yn gyhoeddus. Hysbysebir y lleoliadau a'r agendâu ymlaen llaw ac mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd. Mae cyfle i aelodau'r gynulleidfa ofyn cwestiynau ymhob cyfarfod.

Yn ein barn ni, mae ymgynghori â'n rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o gyflawni ein gwerthoedd craidd. Mae'n ofynnol i ni yn ôl statud ymgynghori ar ein gweithgareddau â'r rhai y mae ein penderfyniadau yn effeithio arnynt. Yn ogystal â llawer iawn o gyswllt anffurfiol â rhanddeiliaid, mae'r Asiantaeth yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ysgrifenedig ffurfiol fel rhan o'r datblygiad polisi. Rydym hefyd yn cynnal fforymau rhanddeiliaid ar faterion allweddol lle y gwahoddwn pob rhanddeiliad allweddol i gyfarfod a thrafod safbwyntiau gwahanol.

Un o'n gwerthoedd craidd yw rhoi defnyddwyr yn gyntaf ac rydym wedi sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr i hysbysu'r Asiantaeth, ymhlith pethau eraill, am faterion allweddol sy'n achos pryder ar hyn o bryd neu sy'n achos pryder newydd i ddefnyddwyr; rhoi sylwadau ar amcanion strategol yr Asiantaeth a chynllunio ymlaen llaw; a darparu adborth i'r Asiantaeth ar effeithiolrwydd ein polisïau wrth ymateb i bryderon defnyddwyr.

## 5. Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr Adran sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol gan y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun i sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus ar waith.

Mae'r FSA yn ymdrechu'n galed i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol.

Mae Cynllun Strategol yr FSA 2001/06 yn nodi prif nodau ac amcanion yr FSA am gyfnod o 5 mlynedd. Mae targedau yng nghynllun busnes corfforaethol blynyddol yr FSA, ac mewn cynlluniau busnes lleol o fewn y sefydliad, wedi eu cysylltu â'r themâu a nodir yn y Cynllun Strategol.

Mae trefniadau archwilio mewnol yr FSA yn cynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth. Mae adroddiadau gan yr uned archwiliad mewnol yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

**Dr Jon Bell**
**Prif Weithredwr**
**7 Tachwedd 2003**

Asiantaeth Safonau Bwyd – Cymru

# Crynodeb o Alldro'r Adnoddau

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | 2002/03 | | | | | | | 2001/02 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif | | | Alldro | | | Cyfanswm Alldro Net o'i gymharu ag Arbedion Amcangyfrifedig/ (gormodedd) | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | | |
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cais am adnoddau | | | | | | | | |
| Diogelu a hyrwyddo iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd | 2,351 | - | 2,351 | 2,060 | - | 2,060 | 291 | 2,041 |
| **Cyfanswm yr adnoddau** | **2,351** | **-** | **2,351** | **2,060** | **-** | **2,060** | **291** | **2,041** |

## Cysoni Alldro Net yr Adnoddau â'r gofyniad arian parod net

| | Nodyn | 2002/03 | | 2001/02 |
|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | | £000oedd |
| Alldro Net yr Adnoddau | | 2,060 | | 2,041 |
| **Addasiadau croniadau:** | | | | |
| Tâl a ailgodwyd ar gyfer defnydd o asedau sefydlog | 3 | (81) | | (29) |
| Eitemau anariannol eraill | 3 | (10) | | (10) |
| Cynnydd (+)/Gostyngiad (-) mewn dyledwyr a rhagdaliadau | 6 | 7 | | 16 |
| Cynnydd(-)/Gostyngiad (+) mewn credydwyr | 6 | 37 | | (161) |
| **Cyfalaf:** | | | | |
| Gwariant Cyfalaf | | 222 | | 71 |
| Gofyniad Arian Parod Net | | 2,235 | | 1,928 |
| *Cysoni'r gofyniad arian parod net â chyllid gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru* | | | | |
| Gofyniad arian parod net | | (2,235) | | (1,928) |
| Arian parod a ddygwyd ymlaen | | 70 | | (28) |
| Cyllid arian parod a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2002/03 | | 1,859 | | 1,508 |
| Cyllid arian parod a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2001/02- | | | 28 | |
| Cyllid arian parod a ddarparwyd yn anuniongyrchol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2002/03 | | 496 | | 490 |
| Arian parod a gariwyd ymlaen | | 190 | | 70 |

## Datganiad Cost Weithredol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| *Costau gweinyddol* | | | | |
| Costau staff | 2 | 652 | | 551 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 482 | | 452 |
| Costau Gweinyddol Gros | | | 1,134 | 1,003 |
| Incwm Gweithredol | | | - | - |
| Costau Gweinyddol Net | | | 1,134 | 1,003 |
| *Costau'r Rhaglen* | | | | |
| Diogelu a hyrwyddo iechyd y cyhoedd mewn perthynas â bwyd | | | | |
| Gwariant | | 926 | | 1,038 |
| Llai incwm | | - | | - |
| Cyfanswm | 4 | | 926 | 1,038 |
| Cost Weithredol Net | | | 2,060 | 2,041 |

Mae'r crynodeb o alldro'r adnoddau yn cymharu amcangyfrifon gwariant net a gros FSA Cymru â gwariant gwirioneddol. Nid oes ganddo'r un swyddogaeth â'r 'Crynodeb o Alldro'r Adnoddau', fel y'i diffinnir gan Lawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM ac nid yw'n gweithredu fel dull rheoli gwariant. Nid oes angen awdurdod penodol y Cynulliad ar gyfer gorwariant o'i gymharu â'r amcangyfrif.

Dr Jon Bell, Swyddog Cyfrifyddu, Hydref 2003

# Nodiadau i'r cyfrifon

nodiadau

## 1 Polisïau Cyfrifyddu

### 1.1 Cwmpas y Cyfrifon

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth a sefydlwyd gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Mae gan yr FSA gyfrifoldeb dros ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau sy'n codi wrth fwyta bwyd, ac fel arall i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd ledled y DU. Mae ei phencadlys yn Llundain ac mae'r FSA hefyd yn gweithredu yng Nghymru, GogleDd Iwerddon a'r Alban drwy ei thair swyddfa ddatganoledig.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cyflwyno adroddiad ar alldro net yr adnoddau, costau gweithredol net a chyllid arian parod gweithrediadau'r FSA. Mae'r datganiadau ariannol yn rhoi cyfrif am weithgareddau'r FSA yng Nghymru, a ariennir ar wahân gan symiau a bleidleisiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Nid yw'r datganiadau hyn yn cynnwys gorbenion canolog yr FSA, a ariennir gan arian a bleidleisiwyd gan Senedd San Steffan ac y rhoddir cyfrif amdanynt ar wahân yng nghyfrifon adnoddau'r FSA.

Cynhyrchwyd cyfrifon ar wahân hefyd ar gyfer gweithgareddau'r FSA yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, gweithgareddau'r Gwasanaeth Hylendid Cig, sy'n asiantaeth weithredol yr FSA, a chynhyrchir cyfrif cyfunol hefyd yn nodi gweithgareddau'r FSA yn gyffredinol.

### 1.2 Sail y Paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Atgynhyrchir y Cyfarwyddyd hyn fel atodiad i'r cyfrifon. Yn unol â darpariaethau Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a Deddf Safonau Bwyd 1999, archwilir holl gyfrifon yr FSA gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

### 1.3 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn i roi crynodeb teg o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, y gwariant cyfalaf am y flwyddyn ac i gysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a dalwyd o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn paratowyd y cyfrifon ar sail croniadau ac yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM, i'r graddau ei fod yn gymwys ac yn briodol i'r asiantaeth.

### 1.4 Sail Ariannu

Darperir arian gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar sail y bwriedir iddo dalu'r costau arian parod net am y cyfnod. Felly mae'r Datganiad Cost Weithredol yn Atodlen 1 yn dangos yr addasiadau sy'n angenrheidiol i'r alldro adnoddau ar sail croniadau er mwyn pennu'r swm arian parod sydd i'w ariannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Felly mae Atodlen 1 yn adlewyrchu addasiadau i roi cyfrif am:

a) symudiadau ar ddyledwyr a chredydwyr sy'n parhau heb eu talu ar 31ain Mawrth 2003;

b) costau arian parod prynu asedau sefydlog, yn hytrach na'r tâl ar gyfer dibrisiant a adlewyrchir yn yr alldro adnoddau; a

c) dileu costau anariannol megis y ffi archwilio, nad oes angen taliad arian parod ar ei gyfer er bod cyfrif ar ei gyfer yn yr alldro adnoddau. Darperir rhagor o fanylion yn nodyn 3 i'r cyfrifon hyn.

### 1.5 Costau Gweinyddol a Chostau'r Rhaglen

Dadansoddir y Datganiad Cost Weithredol rhwng costau gweinyddol a chostau'r rhaglen. Mae costau gweinyddol yn adlewyrchu cost rhedeg yr FSA fel y nodir o dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol.

Mae costau'r rhaglen yn adlewyrchu costau anweinyddol gan gynnwys taliadau eraill gan yr FSA.

### 1.6 Pensiynau

Roedd y mwyafrif o'r staff a secondiwyd i'r FSA ar fenthyg o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Fel y cyfryw, gweision sifil ydynt ac fe'u cwmpesir gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae hwn yn gynllun anghyfrannol nas ariennir. Mae'r cynllun yn gynllun buddiannau diffiniedig ac mae'r rhwymedigaeth dros daliadau buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar y PCSPS, y cyhoeddir cyfrifon ar wahân ar ei gyfer. Mae'r FSA yn ad-dalu cyflogwyr y rhai a secondiwyd am gostau cyfraniadau pensiwn y staff a secondiwyd drwy dalu tâl a godir ar sail groniadol i'r PCSPS. Lle y secondiwyd staff o sefydliadau eraill (er enghraifft awdurdodau lleol), cynhwyswyd tâl a godir sy'n adlewyrchu cost y cyfraniad i'w cynllun pensiwn.

### 1.7 Treth Ar Werth

Cynhwysir gwariant yn glir o TAW y gellir ei hadennill. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y Datganiad Cost Weithredol.

### 1.8 Newid mewn Polisi Cyfrifyddu

Caiff y mwyafrif o staff sy'n gweithio i FSA Cymru eu secondio i'r FSA o gyflogwyr eraill. Mae canllawiau diweddar y Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i gostau pawb sy'n cael eu secondio'n fewnol gael eu datgelu ar wahân o fewn costau staff. Cofnodwyd costau staff a secondiwyd yn fewnol fel 'costau gweithredol eraill' yng nghyfrifon 2001/02. Cofnodir y costau hyn fel 'costau staff' yn y datganiadau ariannol hyn yn awr, ac ailddatganwyd cymariaethau'r flwyddyn flaenorol i sicrhau cysondeb yn y driniaeth gyfrifyddu rhwng y blynyddoedd. Nid oes unrhyw effaith ar gostau gweithredol net y flwyddyn flaenorol nac ar y gofyniad arian parod net o ganlyniad i'r newid hwn.

# 2 Nifer a chostau'r staff a secondiwyd

Mae mwyafrif y staff sy'n gweithio yn FSA Cymru wedi eu secondio o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Telir costau cyflogau'r rhai a secondiwyd o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn uniongyrchol gan y Cynulliad o'r gofyniad ariannu uniongyrchol.

a) **Cost a nifer y staff a secondiwyd:**

| | 2002/03<br>£000oedd | 2001/02<br>(ailddatganwyd)<br>£000oedd |
|---|---|---|
| Cyflogau | 74 | 51 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 5 | 3 |
| Costau Pensiwn Eraill | 10 | 7 |
| **Is-gyfanswm** | **89** | **61** |
| Rhai a Secondiwyd yn Fewnol | 558 | 490 |
| Staff yr Asiantaeth | 5 | - |
| **Cyfanswm** | **563** | **490** |
| Llai adenillion mewn perthynas â'r rhai a secondiwyd yn allanol | - | - |
| **Cyfanswm y Costau Net** | **652** | **551** |

b) **Roedd nifer y bobl ar gyfartaledd a secondiwyd i FSA Cymru yn ystod y flwyddyn fesul nod fel a ganlyn:**

| | 2002/03 | 2001/02<br>(ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 6 | 5 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 8 | 8 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 7 | 9 |
| | **21** | **22** |

c) **Roedd costau staff fesul nod fel a ganlyn:**

| | 2002/03<br>£000oedd | 2001/02<br>(ailddatganwyd)<br>£000oedd |
|---|---|---|
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 131 | 119 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 203 | 177 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 318 | 255 |
| | **652** | **551** |

ch) **Cydnabyddiaeth y Rheolwyr**

| | 2002/03 Cyflogau a Lwfansau Eraill | 2002/03 Cynnydd mewn Pensiwn a Enillwyd | 2002/03 Gwerth Pensiwn Personol Cronedig | 2001/02 Cyflogau a Lwfansau Eraill | 2001/02 Cynnydd mewn Pensiwn a Enillwyd | 2001/02 Gwerth Pensiwn Personol Cronedig |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 | £5,000 | £2,500 | £5,000 |
| | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| Joy Whinney, Cyfarwyddwr, FSA Cymru | 50-55 | 0-2.5 | 5-10 | 45-50 | 0-2.5 | 5-10 |

Mae pob Aelod o Grŵp Rheoli'r FSA wedi gwrthod rhoi eu caniatâd i gyhoeddi eu hoedran.

# 3 Costau
## gweinyddol eraill

| | 2002/03 £000oedd | 2001/02 (ailddatganwyd) £000oedd |
|---|---|---|
| Rhenti o dan brydlesau gweithredol: | | |
| Prydlesau gweithredol eraill | 51 | 34 |
| Hurio offer a pheiriannau | (18) | 51 |
| Eitemau anariannol: | | |
| Tâl a ailgodwyd ar gyfer defnydd o asedau sefydlog | 81 | 29 |
| Ffioedd archwilio | 10 | 10 |
| Costau gweithredol | - | 10 |
| Costau llety | 28 | 41 |
| Gorbenion staff | 118 | 74 |
| Costau gweinyddol | 141 | 113 |
| Costau TG | 21 | 46 |
| Costau'r Pwyllgor | 50 | 44 |
| | **482** | **452** |

# 4 Costau
## net y rhaglen

a **Costau Net y Rhaglen**

| | 2002/03 £000oedd | 2001/02 £000oedd |
|---|---|---|
| **Monitro a Goruchwylio:** | | |
| Gorfodi ac Archwilio | 323 | 185 |
| Maeth | 169 | 439 |
| Adolygiad o'r Rhaglen | - | 1 |
| Diogelwch ac Addysg Bwyd | 430 | 409 |
| Gwariant y Wasg a Chyhoeddusrwydd | 4 | 4 |
| | **926** | **1,038** |

b **Costau Net y Rhaglen Fesul Nod**

| | | |
|---|---|---|
| Nod 1<br>Gwella hyder y cyhoedd yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 275 | 142 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 377 | 421 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 274 | 475 |
| | **926** | **1,038** |

# 5 Trafodion partïon cysylltiedig

Nid oes unrhyw un o Aelodau'r Bwrdd, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig wedi cynnal unrhyw drafodion perthnasol gyda'r FSA yn ystod y flwyddyn. Cafodd yr FSA nifer o drafodion ag adrannau eraill o'r Llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog eraill. Mae swyddfa ddatganoledig yr FSA yng Nghymru wedi ei staffio'n bennaf gan swyddogion ar fenthyg o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

# 6 Symudiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian parod

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | **£000oedd** | **£000oedd** |
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr a rhagdaliadau | 7 | 16 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr | 37 | (161) |
| | **44** | **(145)** |

# 7 Dyledwyr

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | **£000oedd** | **£000oedd** |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr a rhagdaliadau eraill | 23 | 16 |
| **Cyfanswm y Dyledwyr** | **23** | **16** |

# 8 Credydwyr

| | 2002/03 £000oedd | 2001/02 £000oedd |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Credydwyr masnach | 1 | 38 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 195 | 195 |
| Symiau a roddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwadau ond nas gwariwyd yn ystod y flwyddyn | 190 | 70 |
| | **386** | **303** |

# 9 Pwyllgor ymgynghorol

Yn ogystal â phrif Fwrdd yr FSA, mae gan yr FSA bwyllgorau ymgynghorol ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgorau yn gweithredu fel cyrff ymgynghorol annibynnol ar yr FSA. Fe'u cadeirir gan Aelodau'r Bwrdd ac mae'n ofynnol i Fwrdd yr FSA yn ôl statud ystyried eu cyngor yn ei gwaith. Rhestrir Aelodau'r Pwyllgor isod:

**Cymru – Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol**

Ann Hemingway (Cadeirydd)
Dr Robert Bell
Dr David Casemore
Gilli Davies
Yr Athro Margaret Griffiths
Yr Athro James Parry
Mrs Dilwen Philips
Yr Athro Robert Pickard
David Smith

# Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 39(7) ac atodlen 4 Deddf Safonau Bwyd 1999

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyflwyno adroddiadau ar ei chyllid a'i gwariant mewn perthynas â symiau a dalwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2001 a blynyddoedd ariannol dilynol yn cynnwys:

- Crynodeb o alldro'r adnoddau;
- Datganiad cost weithredol;
- Atodlen yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bydd y datganiad cyfrifon yn cyflwyno crynodeb o alldro'r adnoddau, cost net yr adnoddau am y flwyddyn ariannol, a gwariant cyfalaf y flwyddyn mewn ffordd deg ac yn cysoni alldro net yr adnoddau â'r symiau a ddarparwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad hwn bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei baratoi hefyd yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau Trysorlys EM sydd mewn grym am y flwyddyn ariannol honno i'r graddau ei fod yn briodol i'r Asiantaeth. Ni fydd angen rhagair ar wahân, datganiad o'r sefyllfa ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol, na datganiad adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben.

Caiff y cyfarwyddyd hwn ei atgynhyrchu fel atodiad i'r datganiad cyfrifon.

**Llofnodwyd drwy Awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**5 Medi 2001**

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Cyfrifon Adnoddau a Ariennir gan San Steffan

Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003





# CYNNWYS CYFRIFON BLYNYDDOL


| | |
|---|---|
| Adroddiad Blynyddol | 132 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 138 |
| Datganiad o reolaeth fewnol | 139 |
| Tystysgrif Archwilio – FSA | 142 |
| Crynodeb o alldro adnoddau | 144 |
| Datganiad cost weithredol | 145 |
| Datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig | 145 |
| Mantolen | 146 |
| Datganiad llif arian parod | 147 |
| Adnoddau yn ôl nodau ac amcanion adrannol | 148 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 149 |
| Cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan y Trysorlys | 168 |

# Adroddiad
blynyddol

## Paratoi Cyfrifon

Paratowyd cyfrifon adnoddau a ariennir gan San Steffan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) yn unol â'r cyfarwyddyd a roddwyd gan y Trysorlys. Gosodir yr adroddiad blynyddol gerbron y Senedd o dan Adran 4 Deddf Safonau Bwyd 1999, a gosodir y cyfrifon o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Ariennir costau swyddfeydd yr FSA yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon drwy'r awdurdod datganoledig perthnasol. Eithrir yr arian hwn o gyfrifon yr adnoddau a ariennir gan San Steffan ond fe'i cynhwysir mewn adroddiad blynyddol a chyfrifon cyfunol a gyhoeddir ar wahân.

## Cefndir Statudol

Sefydlwyd yr FSA ar 1 Ebrill 2000 gan Ddeddf Seneddol (Deddf Safonau Bwyd 1999). Prif ddiben yr asiantaeth yw:

*'Diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau a all godi mewn cysylltiad â bwyta bwyd, ac fel arall i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.'*

Ar 1 Ebrill 2000, daeth y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn asiantaeth weithredol yr FSA. Sefydlwyd yr MHS yn wreiddiol ar 1 Ebrill 1995 fel asiantaeth weithredol y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

## Nodau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

Noda ein Cynllun Strategol ar gyfer 2001/06 ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer diogelwch bwyd, gwybodaeth gyhoeddus, labelu a dewis, maeth a deiet a gorfodi cyfraith bwyd dros gyfnod o bum mlynedd. Ein nod yw cael ein hymddiried gan bobl fel ffynhonnell fwyaf dibynadwy'r DU o gyngor a gwybodaeth am fwyd. Rydym am sicrhau bod y bwyd a fwyteir gan bobl yn ddiogel a'i wneud yn fwy diogel ac yn haws i bobl ddewis deiet iach.

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan ein Cynllun Strategol ein nod yw:

- lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% drwy wella diogelwch bwyd ar hyd y gadwyn fwyd;
- helpu pobl i wella eu hiechyd deietegol;
- hyrwyddo system labelu onest a llawn gwybodaeth i helpu defnyddwyr;
- hyrwyddo arferion gorau o fewn y diwydiant bwyd;
- gwella'r broses o orfodi cyfraith bwyd;
- cael pobl i ymddiried yn yr hyn a wnawn a'r ffordd y'i gwnawn.

Rydym yn ymrwymedig i'r tri gwerth craidd hyn sy'n rheoli'r cyfan a wnawn sef:

- rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf;
- bod yn agored ac yn hygyrch;
- bod yn llais annibynnol.

## Adolygiad Gweithredol ac Ariannol

*a) Cyfrifoldebau'r FSA*

Mae gan yr FSA gylch gwaith eang sy'n cynnwys diogelu iechyd y cyhoedd, darparu gwybodaeth a chyngor, sicrhau bod cyfraith bwyd yn effeithiol ac yn cael ei orfodi, cydlynu ymchwil a datblygiad a goruchwyliaeth, datblygu polisi a chynrychioli'r DU ar faterion bwyd yn Ewrop.

Mae gwaith yr FSA yn cynnwys diogelwch bwyd ar draws y gadwyn fwyd gyfan, gan gynnwys:

- difwynwyr bwyd – diffinio lefelau rhesymol, rheoli risg a pholisi;
- ychwanegion bwyd, deunyddiau cyswllt a bwydydd newydd – gan gynnwys asesu diogelwch a goruchwyliaeth;
- diogelwch microbiolegol a hylendid bwyd gan gynnwys darparu cyngor ar reoli achosion o salwch a gludir gan fwyd ac atal salwch a gludir gan fwyd;
- arolygu a gorfodi camau gweithredu i ddiogelu defnyddwyr;
- gwaith gorfodi gan awdurdodau lleol – datblygu polisi ac archwilio a gwella gwaith gorfodi;
- plaladdwyr, milfeddyginiaethau a bwyd anifeiliaid – asesu goblygiadau o ran diogelwch bwyd;
- labeli a safonau bwyd – datblygu polisi, gwella dewis y defnyddiwr a chynrychioli'r DU yn yr Undeb Ewropeaidd; a
- maeth – darparu cyngor ac arweiniad ar gyfansoddiad maethol bwyd, a darparu gwybodaeth am ddeiet iach a chytbwys, er mwyn hyrwyddo a diogelu iechyd y cyhoedd.

*b) Beth rydym wedi ei wneud*

Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr FSA nifer o lwyddiannau yn cynnwys y canlynol:

- cwblhawyd cam cyntaf ein hadolygiad o'r Cynllun Dros Dri Deg Mis, sef mesur diogelu BSE y DU sy'n atal gwartheg hŷn rhag ymuno â'r gadwyn fwyd. Cynhaliwyd yr adolygiad mewn ffordd agored a chyfranogol drwy gyfarfodydd cyhoeddus a thrwy grŵp o randdeiliaid yn cynnwys cynrychiolwyr o ddefnyddwyr, arbenigwyr y diwydiant, arbenigwyr allweddol ac eraill. Cyhoeddwyd adroddiad y Grŵp er mwyn ymgynghori arno ym mis Mawrth 2003. Bydd y Bwrdd yn ystyried yr adroddiad, a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ym mis Gorffennaf 2003;
- rydym wedi parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i wella safonau bwyd drwy gynyddu cysondeb ac effeithiolrwydd gorfodi cyfraith bwyd drwy gynllun archwilio o bwys. Mae'r rhaglen archwilio yn gwella ansawdd gwaith gorfodi awdurdodau lleol ac yn codi ei phroffil a'i blaenoriaeth yn lleol; roedd 73 o archwiliadau llawn yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth;
- lansiwyd ail gam ein Hymgyrch Hylendid Bwyd ym mis Hydref 2002. Yn ogystal â hysbysebion teledu yn canolbwyntio ar bwysigrwydd golchi dwylo, anfonwyd fideo hyfforddi am ddim gennym at bob busnes arlwyo ar ein cronfa ddata. Cafwyd ymgyrchoedd Barbeciw a Thwrci Nadolig ychwanegol. Enillodd yr ymgyrch barbeciw wobr y cyfryngau – un o bum gwobr a gyflwynwyd i'r FSA yn ystod y flwyddyn. Dengys gwerthusiad cynhwysfawr o weithgaredd ymgyrchu fod y negeseuon yn dechrau cael effaith ac mae ymwybyddiaeth yn parhau i godi;
- cyflwynwyd gofyniad i gyflwyno rheolaethau yn seiliedig ar Bwynt Rheoli Critigol Dadansoddi Peryglon (HACCP) ymhob gwaith cig coch a dofednod mawr. Anfonwyd canllawiau at weithfeydd yn y cyfnod cyn gweithredu, gan gynnwys chwe gweithdy undydd;
- rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu i ddefnyddwyr ar incwm isel fel rhan o'n polisi o ehangu'r broses ymgynghori i gynnwys pob grŵp o ddefnyddwyr. Rydym wedi cynhyrchu cyfres o daflenni newydd wedi eu hanelu at gynulleidfaoedd penodol gan gynnwys mamau sy'n bwydo o'r fron, dynion ac oedolion hŷn. Rhoddwyd cyngor penodol i ni hefyd mewn perthynas â nifer o faterion diogelwch bwyd, er enghraifft acrylamide mewn bwyd cartref a bwyd wedi ei brosesu fel creision, sglodion a bara;
- sefydlwyd Pwyllgor Defnyddwyr newydd gennym ym mis Ebrill 2002 a chynhaliwyd pedwar cyfarfod ffurfiol ganddo. Mae gwaith y Pwyllgor eisoes wedi bod yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau, yn arbennig mewn perthynas â rhoi ein gwerthoedd craidd ar waith, ymgysylltu â defnyddwyr incwm isel, chwilio'r gorwelion ac asesu cynlluniau sicrwydd;

- dangosodd ein Harolwg o Agweddau Defnyddwyr gynnydd yn hyder cyffredinol defnyddwyr mewn mesurau cyfredol i ddiogelu iechyd o ran diogelwch bwyd, a chynnydd mewn hyder yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd a chynnydd sylweddol yn yr ymwybyddiaeth o'r FSA;
- rydym wedi dechrau helpu pobl i wella eu hiechyd deietegol. Ymhlith yr enghreifftiau mae hyrwyddo pwysigrwydd deiet cytbwys i blant ysgol, adolygu'r dystiolaeth a chynghori ar yr halen a fwyteir a chomisiynu adolygiad o'r dystiolaeth ar lefelau diogel o fitaminau a mwynau;
- rydym wedi sefydlu Tasglu Bwyd Gwastraff i ddatblygu cynigion i leihau'r posibiliadau o dwyllo drwy ailgylchu bwyd gwastraff yn anghyfreithlon.

*c) Gwariant ar adnoddau yn 2002/03*

Dangosir y gymhariaeth rhwng y gwariant gwirioneddol ar adnoddau a'r Amcangyfrif isod:

| | 2002/03 | |
|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Gwariant |
| | £m | £m |
| Pencadlys FSA San Steffan | 112.3 | 95.0 |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | 25.0 | 25.0 |
| **Cyfanswm yr FSA wedi ei ariannu gan San Steffan** | **137.3** | **120.0** |

Dangosir y ffigurau cymharol ar gyfer 2001/02 isod:

| | 2001/02 | |
|---|---|---|
| | Amcangyfrif | Gwariant |
| | £m | £m |
| Pencadlys FSA San Steffan | 104.6 | 88.7 |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | 20.9 | 18.1 |
| **Cyfanswm yr FSA wedi ei ariannu gan San Steffan** | **125.5** | **106.8** |

Cost net yr FSA wedi ei ariannu gan San Steffan oedd £120.0m yn erbyn Amcangyfrif cais am adnoddau o £137.3m hyd at 31 Mawrth 2003. Mae'r FSA yn rheoli ei gwariant dros Gyfnod Adolygiad o Wariant y Llywodraeth o dair blynedd. Caiff y gwarged ar gyfer 2002/03, sef tua £17m ei gario ymlaen, gyda chytundeb y Trysorlys, i 2003/04 er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r pwysau cyllido yn y dyfodol, a nodwyd eisoes.

Cost net yr MHS oedd £25.0m, a gynyddodd o £18.1m yn 2001/02. Mae cost gweithrediadau net yr MHS wedi cynyddu am fod y mwyafrif o'r gweithfeydd yn gorfod talu ffioedd arolygu yn seiliedig ar ladd a phrosesu carcasau a bennir gan yr UE nad ydynt yn ymwneud â chost wirioneddol yr archwiliadau o'r gweithfeydd. Mae'r MHS hefyd yn mynd i gostau cynyddol na ellir eu hadennill o ganlyniad i gyflwyno goruchwyliaeth lawn gan Filfeddyg Swyddogol (OVS) mewn gweithfeydd llai er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol yr UE. Cofnodir y costau a'r incwm sy'n gysylltiedig â'r MHS ar sail rhaglen yn hytrach nag ar sail cost weinyddol, yn dilyn cyngor gan y Trysorlys.

Ceir esboniad llawn, yn rhoi manylion y gwariant o'i gymharu â'r Amcangyfrif yn Atodlen 1 y cyfrifon hyn. Rhydd Atodlenni 2 i 5 y datganiad cost weithredol, y fantolen, y datganiad llif arian, a'r adnoddau yn ôl nodau adrannol yn y drefn honno gyda manylion ychwanegol yn cael eu darparu yn y nodiadau i'r cyfrifon sy'n dilyn yr atodlenni.

*d) Rhoi Adroddiad ar Berfformiad*

Roedd Adroddiad Adrannol yr FSA yng Ngwanwyn 2002 yn cynnwys Amcangyfrif yr FSA o adnoddau ar gyfer 2002/03 ynghyd â thablau craidd fel y nodwyd gan y Trysorlys. Rhoddodd Adroddiad Adrannol yr FSA yn 2003 fanylion ar sut rydym yn datblygu i gyrraedd ein targedau Cytundeb Darparu Gwasanaethau, a bodloni gofynion Moderneiddio Llywodraeth. Yn y cyfamser, cyhoeddasom ein Hadroddiad ar Berfformiad yr Hydref, a gwmpasai'r cyfnod hyd at ddiwedd Medi 2002. Mae copïau o'r adroddiadau hyn ar gael o'r Llyfrfa neu o'n gwefan.

## Strwythur a Threfn

Mae'r FSA yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth. Mae'r staff yn atebol drwy Brif Weithredwr i'r Bwrdd, yn hytrach nag yn uniongyrchol i Weinidogion. Penodwyd y Prif Weithredwr gan Brif Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil o dan reolau Comisiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a hyd at 12 aelod. Penodwyd y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, Gweinidogion yr Alban, a Gweinidogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Gogledd Iwerddon. Penodwyd dau aelod o'r Bwrdd gan Weinidogion yr Alban, un gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac un gan Weinidogion Swyddfa Gogledd Iwerddon. Mae gan yr aelodau hyn gyfrifoldebau arbennig dros faterion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Penodwyd yr wyth aelod arall gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gyfeiriad strategol cyffredinol yr FSA, am sicrhau y cyflawnir rhwymedigaethau cyfreithiol ac am sicrhau bod penderfyniadau a chamau a gymerir yn ystyried cyngor gwyddonol yn ogystal â buddiannau defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill. Seilir y cynnydd blynyddol yng nghydnabyddiaeth Aelodau'r Bwrdd ar yr hyn a argymhellir ar gyfer deiliaid swyddi gan Gorff Adolygu Cyflogau Uwch Aelodau. Cynyddir cyflogau staff uwch y Gwasanaeth Sifil (SCS) yn unol â system talu ar sail perfformiad ac adolygu Swyddfa'r Cabinet yn ganolog (SCS).

Mae'r Bwrdd yn atebol i'r Senedd drwy'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, i Weinidogion Iechyd yng Nghymru a'r Alban ac i'r Gweinidog dros Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon.

## Bwrdd yr FSA

Yn ystod y flwyddyn, bu'r canlynol yn aelodau o Fwrdd allanol yr FSA:

| | |
|---|---|
| Syr John Krebs | Cadeirydd yr FSA |
| Suzi Leather | Dirprwy Gadeirydd yr FSA (ymddeolodd ar 31 Rhagfyr 2002) |
| Ann Hemingway | Dirprwy Gadeirydd Dros Dro yr FSA (o 1 Ionawr i 13 Gorffennaf 2003) a Chadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Cymru. Penodwyd Julia Unwain i'r FSA fel Dirprwy Gadeirydd ar 14 Gorffennaf 2003. |

## Aelodau eraill y Bwrdd:

| | |
|---|---|
| Syr John Arbuthnott | Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Fwyd yn yr Alban, a ymddeolodd ar 30 Tachwedd 2002 |
| Michael Gibson | Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Fwyd yn yr Alban o 4 Tachwedd 2002 |
| Michael Walker | Cadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar gyfer Gogledd Iwerddon. |
| Richard Ayre | |
| Karol Bailey | gadawodd y Bwrdd ar 20 Chwefror 2003 ar ddiwedd cyfnod ei phenodiad |
| Y Farwnes Valerie Howarth o Breckland | |
| Yr Athro Jeya Henry | gadawodd y Bwrdd ar 20 Chwefror 2003 ar ddiwedd cyfnod ei benodiad |
| Robert Rees | |
| Vernon Sankey | |
| Sandra Walbran | penodwyd ar 1 Mehefin 2002 |
| Iain MacDonald | penodwyd ar 1 Mehefin 2002 |
| Chrissie Dunn | penodwyd ar 1 Mawrth 2003 |
| Dr Sati Ariyanayagam | penodwyd ar 1 Mawrth 2003 |
| Yr Athro Andrew Miller | penodwyd ar 1 Mawrth 2003 |

## Tîm Rheoli'r FSA

Cyflawnir y gwaith o reoli'r FSA o ddydd i ddydd drwy'r Bwrdd Rheoli Gweithredol (EMB). Roedd yr aelodaeth ar 31 Mawrth 2003 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Dr Jon Bell | Prif Weithredwr Dros Dro a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro (penodwyd Dr Bell yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu ar 2 Ebrill 2003 yn dilyn cystadleuaeth agored) |
| Pat Stewart | Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro a Chyfarwyddwr Adnoddau a Strategaeth Gorfforaethol (penodwyd Pat Stewart yn Ddirprwy Brif Weithredwr ar 9 Ebrill 2003) |
| David Statham | Cyfarwyddwr Gorfodi a Safonau Bwyd |
| Dr Andrew Wadge | Cyfarwyddwr Dros Dro y Grŵp Polisi ar Ddiogelwch Bwyd |
| Neil Martinson | Cyfarwyddwr Cysylltiadau |
| David Dunleavy | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Dr George Paterson | Cyfarwyddwyr FSA yr Alban |
| Joy Whinney | Cyfarwyddwr FSA Cymru |
| Morris McAllister | Cyfarwyddwr FSA Gogledd Iwerddon |

Geoffrey Podger oedd y Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu nes iddo adael ar 31 Ionawr 2003. Prif Weithredwr y Gwasanaeth Hylendid Cig ar 31 Mawrth 2003 oedd Chris Lawson. Mae Prif Weithredwr yr MHS yn aelod hefyd o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA.

Penodwyd pob uwch swyddog o dan y rheolau a bennwyd gan Gomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil. Datgelir manylion am gyflogau a phensiynau'r Bwrdd  a'r Bwrdd Rheoli Gweithredol yn Nodyn 3.

Yn ogystal â phrif Fwrdd yr FSA, rydym wedi sefydlu Pwyllgorau Ymgynghorol i gwmpasu Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r Pwyllgorau yn gweithredu fel cyrff ymgynghorol annibynnol i'r FSA. Fe'u cadeirir gan Aelodau'r Bwrdd ac mae'n ofynnol i Fwrdd yr FSA yn ôl statud ystyried eu cyngor yn ei waith. Dangosir aelodaeth y pwyllgorau yn y datganiadau cyfrifon unigol ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Ariannu'r FSA

Mae'r FSA yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth a ariennir drwy gyflenwad ar sail adnoddau.

## Y Gwasanaeth Hylendid Cig

Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS) yn asiantaeth weithredol yr FSA. Nod yr MHS yw diogelu iechyd y cyhoedd a lles anifeiliaid pan gânt eu lladd drwy orfodi deddfwriaeth yn effeithiol. Ei brif swyddogaethau yw darparu gwasanaeth archwilio cig i bob gwaith cig trwyddedig, ac i sicrhau y bodlonir y safonau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ar gyfer cynhyrchu cig yn lân ac ar gyfer lles anifeiliaid pan gânt eu lladd. Prif weithgareddau'r MHS yw:

- gorfodi rheolau hylendid ar safleoedd cig ffres trwyddedig;
- darparu archwiliadau cig a rheolaethau ar nodau iechyd ar safleoedd cig coch, cid dofednod a chig adar hela trwyddedig;
- gorfodi rheolaethau hylendid mewn cynhyrchion cig, gweithfeydd briwgig a pharatoi cig, sydd wedi eu cyd-leoli â lladd-dai trwyddedig; a
- gorfodi, ar safleoedd cig ffres trwyddedig, reolaethau dros SRM ac isgynhyrchion anifeiliaid eraill, a rheolaethau sy'n atal cig o wartheg dros 30 mis oed rhag cael ei werthu.

Mae cyfrifon yr FSA ar gyfer adnoddau wedi eu hariannu gan San Steffan yn cynnwys y canlyniadau ar gyfer yr MHS. Mae'r MHS wedi paratoi ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon ei hun sy'n rhoi manylion ychwanegol.

## Perthynas â Staff

Mae'r FSA yn credu bod sicrhau cyfranogiad llawn pob aelod o staff yn ei gwaith yn hollbwysig. Anogir staff i fod yn flaengar a meddwl am ffyrdd newydd o weithio i wella gwaith yr FSA. Mae uwch reolwyr yn cyfarfod yn ffurfiol ac yn rheolaidd gyda chynrychiolwyr undebau llafur. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd agored rheolaidd y caiff pob aelod o staff eu gwahodd iddynt a'u hannog i'w mynychu. Dosberthir "FSA Matters", newyddlen fewnol, at bob aelod o staff bob wythnos. Mae'r staff hefyd yn cael copïau o "FSA News", a gyhoeddir pob dau fis. Mae gan staff yr MHS eu newyddlen chwarterol eu hunain sef "MHS Update".

## Pensiynau

Mae cyflogeion yr FSA yn weision sifil ac yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae hwn yn gynllun pensiwn Llywodraeth Ganolog nas ariennir. Gwneir taliadau pensiwn drwy gyfrif adnoddau'r PCSPS.

Nid yw Bwrdd yr FSA yn weision sifil ac felly nid ydynt yn aelodau o'r PCSPS. Fodd bynnag, gwnaed trefniadau i ddarparu buddiannau pensiwn tebyg i rai Aelodau'r Bwrdd.

Mae gan yr MHS ddau gynllun pensiwn ar wahân. Mae'r mwyafrif o'r staff yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS), cynllun buddiannau diffiniedig a reolir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995, ac a weinyddir gan Awdurdod Cronfa Bensiwn Llundain (LPFA). Mae cyflogeion eraill yr MHS yn aelodau o'r PCSPS.

## Cyfle Cyfartal

Nod yr FSA yw bod yn gyflogwr modern a theg, ac mae'n cydnabod ac yn annog potensial gweithlu amrywiol. Mae'r FSA yn ymrwymedig i gyfle cyfartal ac yn anelu at sicrhau y dylai pawb sy'n gweithio ar ran yr FSA neu iddi gael eu trin yn deg a chyda pharch. O ganlyniad, ni wahaniaethir yn erbyn unrhyw gyflogai nac ymgeisydd am swydd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol am resymau megis hil, cenedl, statws priodasol, cenedligrwydd, ethnigrwydd, lliw, crefydd, credoau gwleidyddol, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, cyfrifoldeb dros ddibynyddion, patrwm gwaith neu safle yn y sefydliad. Mae'r FSA yn gweithredu cynllun cyfweld gwarantedig i bobl ag anableddau (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995) sy'n bodloni'r isafswm meini prawf hanfodol ar gyfer y penodiad.

## Polisi Talu Cyflenwyr

Polisi Llywodraeth yw y dylai pob adran ac asiantaeth dalu pob anfoneb nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i'w derbyn, neu'n unol â thermau cytundebol cytûn os nodir fel arall. Yn ystod y flwyddyn talwyd tua 97% o'r anfonebau ar amser.

## Polisi Amgylcheddol

Rydym yn llwyr ymrwymedig i arbed ynni, dŵr ac adnoddau eraill a lleihau gwastraff. Mae adeilad ein pencadlys, Aviation House, yn dilyn polisi ailgylchu gweithredol. Ar hyn o bryd, rydym yn ailgylchu 85% o'n gwastraff yn yr adeilad hwn. Rydym hefyd yn gallu monitro effeithlonrwydd ynni Aviation House drwy'r feddalwedd system rheoli adeiladau.

## Offerynnau Ariannol

Nid yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyhoeddi nac yn defnyddio deilliaid neu offerynnau ariannol eraill fel y'u disgrifir yn FRS 13.

## Archwilwyr

Archwiliwyd y cyfrifon gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol yn unol ag adran 5 Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r dystysgrif archwilio ar dudalennau 142 a 143.

## Digwyddiadau pwysig ers diwedd y flwyddyn ariannol.

Dim.

**Jon Bell**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**7 Tachwedd 2003**

Datganiad o

# gyfrifoldebau'r

Swyddog Cyfrifyddu

1. O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae'n ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid gwneud hyn er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys, sy'n manylu ar yr adnoddau a gaffaelwyd, a ddelir, neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd a wnaed o adnoddau gan yr Adran yn ystod y flwyddyn.

2. Paratoir y cyfrifon adnoddau ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Adran, alldro net yr adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd at amcanion, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifau arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

3. Mae Trysorlys EM wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Adran gyda chyfrifoldeb cyffredinol dros baratoi cyfrifon yr Adran a thros eu trosglwyddo i'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

4. Wrth baratoi'r cyfrifon mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â'r Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau a baratowyd gan Drysorlys EM, ac yn benodol mae'n ofynnol iddo:

   a. dilyn y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;

   b. rhoi ei farn a bwrw amcangyfrifon yn rhesymol;

   c. datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, fel y'u nodir yn y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;

   ch. paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

5. Yn ogystal, mae Trysorlys EM wedi penodi Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth (Chris Lawson) i fod yn atebol am y rhannau hynny o gyfrifon yr Adran sy'n ymwneud ag adnoddau'r Gwasanaeth Hylendid Cig asedau, y rhwymedigaethau a'r llifau arian cysylltiedig. Nid yw'r penodiad hwn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon yr Adran.

6. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, (gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb yr arian cyhoeddus, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Adran) ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, a ryddhawyd gan Drysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn Government Accounting. O dan delerau Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, nodir yn ysgrifenedig y berthynas rhwng Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Adran a Swyddog Cyfrifyddu Asiantaeth yr MHS, ynghyd â'u priod gyfrifoldebau.

**Jon Bell**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**7 Tachwedd 2003**

## Datganiad o'r rheolaeth fewnol ar gyfer

# FSA San Steffan

### 1. Cwmpas y cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a bennwyd gan Fwrdd yr FSA a Deddf Safonau Bwyd 1999, tra'n diogelu'r arian cyhoeddus a'r asedau adrannol yr wyf yn bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn Government Accounting.

Mae'r FSA yn Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth, sy'n gweithredu hyd braich oddi wrth Weinidogion, ac fe'i harweinir gan Fwrdd a benodir i weithredu er budd y cyhoedd. Rwyf i ac aelodau o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd yr FSA. Rwyf hefyd yn cyfarfod â Chadeirydd Bwrdd yr FSA a'r Dirprwy Gadeirydd bob wythnos.

Fe'm penodwyd fel Swyddog Cyfrifyddu yr FSA wedi ei hariannu gan San Steffan gan y Trysorlys. Mae gan yr FSA un asiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig. Penodwyd Prif Weithredwr yr MHS fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth. Fel Swyddog Cyfrifyddu'r Asiantaeth, mae'n atebol i mi ac i'r Senedd am ddefnydd yr MHS o adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau fel y'u nodir yn y Ddogfen Fframwaith.

Mae elfennau allweddol system effeithiol o reolaeth fewnol ar waith gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnwys:

- Bwrdd Rheoli Gweithredol, wedi ei gadeirio gennyf i ac yn cynnwys holl Gyfarwyddwyr y DU, sydd fel arfer yn cyfarfod bob mis;
- trefniadau archwilio mewnol, gan gynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad, sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth;
- adroddiadau rheolaidd gan yr uned archwiliad mewnol, sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella;
- Pwyllgor Archwilio, a gyfansoddwyd yn unol â chanllawiau'r Trysorlys, i'm cynghori fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn gyda Chadeirydd anweithredol sy'n cyflwyno adroddiad blynyddol i Fwrdd yr FSA ar waith y pwyllgor;
- cynllun strategol sy'n nodi prif nodau ac amcanion yr FSA ar gyfer 2001-2006;
- cofrestr risg strategol yn ymgorffori cynlluniau trin risgiau;
- proses cynllunio busnes ac ariannol gysylltiedig (cynlluniau corfforaethol a busnes lleol) sy'n ystyried risgiau i fusnes;
- adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i gyfarfodydd misol y Bwrdd Rheoli Gweithredol ar gyfer cynllunio busnes ac ariannol;
- adroddiadau rheolaidd ar reolaethau mewnol, gan gynnwys y gofrestr risg, i'r Pwyllgor Archwilio;
- Deiliaid y Gyllideb yn cymeradwyo'r gwariant yn chwarterol;
- cymeradwyo cydymffurfiaeth â chyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol gan Ddeiliaid y Gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn;
- cymorth a hyfforddiant wedi ei dargedu i ddiwallu anghenion rhannau gwahanol o'r sefydliad gan gynnwys ei swyddfeydd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon;
- sicrwydd ffurfiol gan Brif Weithredwr y Gwasanaeth Hylendid Cig ar reolaethau mewnol a chynrychiolaeth ar Bwyllgor Archwilio'r MHS.

## 2. Diben y system o reolaeth fewnol

Cynllunnir y system o reolaeth fewnol er mwyn rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd y gall y system ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion adrannol, gwerthuso pa mor debygol ydyw y bydd y risgiau hynny yn digwydd a'r effaith pe baent yn digwydd, a'u rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system wedi bod ar waith yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ac mae'n unol â chanllawiau'r Trysorlys.

## 3. Capasiti i ymdrin â risg

Mae tîm rheoli'r FSA wedi ymgorffori'r broses o reoli risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad a chynhelir adolygiadau a chyflwynir adroddiadau arnynt yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r cyfrifoldeb dros reoli'r prif risgiau o ddydd i ddydd wedi ei neilltuo i Uwch Reolwyr ac mae'n ofynnol iddynt sicrhau y rhoddir digon o sylw i'r dasg hon.

Cyhoeddwyd dau ddatganiad polisi risg; fframwaith ar gyfer rheoli risg i fusnes sy'n ymgorffori canllawiau'r Trysorlys, a fframwaith risg o ran bwyd sy'n disgrifio, i gynulleidfa gyffredinol, ymagwedd yr FSA tuag at reoli risgiau o ran bwyd. Sicrhawyd bod llawlyfr risg i fusnes ar gael i bob aelod o staff, sy'n nodi'r trefniadau sydd ar waith yn y sefydliad i reoli risg i fusnes, sy'n cynnwys y broses o gynyddu risg a chyfrifoldebau'r unigolion yn y sefydliad cyfan. Datblygwyd rhaglen o hyfforddiant a chymorth ar gyfer y broses o gynllunio busnes. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar reoli risg.

Adolygir y broses o gynllunio busnes yn ffurfiol bob blwyddyn a'i diwygio i adlewyrchu gwersi a ddysgwyd ac ymgorffori enghreifftiau o arferion da.

## 4. Yr amgylchedd risg

Yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd, cydnabyddir a rheolir y prif gategorïau canlynol o risg:

- **risgiau strategol:** nodir y rhain a chânt eu monitro gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'u hadolygu'n ffurfiol bob chwarter. Fe'u cynhwysir hefyd yn y gofrestr risg strategol. Mae un Cyfarwyddwr yn gyfrifol am bob risg ac mae'n rheoli pa mor debygol ydyw y bydd y risg yn digwydd ac effaith y risg;
- **prif risgiau i brosiectau:** caiff y rhain eu rheoli yn ôl safonau rheoli prosiectau ac fe'u cynhwysir mewn cofrestr risgiau;
- **risgiau lleol:** mae'r FSA wedi penderfynu na fyddai cofrestrau risg lefel is yn briodol ac mae gan reolwyr lleol yr hawl i benderfynu sut y caiff y risgiau hyn eu rheoli.

Mae Bwrdd yr FSA a'r Pwyllgor Archwilio yn cael adroddiadau rheolaidd ar reoli risg. Rôl y Pwyllgor Archwilio yw fy nghynghori ar p'un a yw'r prosesau ar gyfer nodi, cofnodi a rheoli'r risgiau yn gadarn, ond rôl Bwrdd yr FSA yn y cyd-destun hwn yw rhoi sylwadau ar p'un a yw'r sylw a roddir i risgiau strategol yn gynhwysfawr.

Ymhlith y prif risgiau a nodwyd hyd yma mae:

- asesiad anghywir o risg o ran bwyd;
- methiant i gyfathrebu'n effeithiol;
- methiant i orfodi Cyfraith Diogelwch Bwyd yn gywir;
- methiant i ddylanwadu ar randdeiliaid i weithredu er budd defnyddwyr;
- prinder staff â'r sgiliau priodol.

Mae Deddf Safonau Bwyd 1999 yn rhoi dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gweithredu er budd defnyddwyr.

O ran iechyd y cyhoedd mae'r FSA yn mabwysiadu ymagwedd ragofalus tuag at risg sy'n golygu y caiff camau eu cymryd efallai cyn bod prawf pendant o berygl. Cymerir camau yn gymesur â'r farn orau am y risg a chânt eu hadolygu os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg.

Cynhwysir ein rheolaeth o risg strategol yn ein gwaith o wneud, cynllunio a chyflwyno polisïau drwy ymgorffori rheolaeth o risg a rheolaethau mewnol yn agenda fusnes y sefydliad fel y cânt eu hadolygu ac fel y cyflwynir adroddiadau arnynt drwy gydol y flwyddyn. Ymgorfforwyd rheolaeth o risg yn llawn hefyd yn y broses cynllunio busnes fel ffordd o sefydlu ymwybyddiaeth o risg o fewn y sefydliad. Ategwyd y broses gynllunio yn llawn gan raglen o gymorth a dargedwyd i ddiwallu anghenion y rhannau gwahanol o'r sefydliad, a rhaglen o hyfforddiant a chymorth i'r broses o gynllunio busnes sy'n cynnwys rheoli risg.

Mae'r broses cynllunio busnes a chynllunio ariannol bellach yn cael ei rhaeadru drwy'r sefydliad cyfan (cynlluniau busnes corfforaethol a lleol) ac yn darparu cysylltiadau penodol rhwng amcanion busnes, clustnodi adnoddau a'r broses o ystyried y risgiau sy'n ymwneud â busnes.

Mae ein hamgylchedd risg yn cynnwys rheoli risgiau sy'n effeithio ar y cyhoedd. Mae Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal ei holl gyfarfodydd gwneud penderfyniadau ynghylch polisïau yn gyhoeddus. Hysbysebir y lleoliadau a'r agendâu ymlaen llaw ac mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd. Mae cyfle i aelodau'r gynulleidfa ofyn cwestiynau ymhob cyfarfod.

Yn ein barn ni, mae ymgynghori â'n rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o gyflawni ein gwerthoedd craidd. Mae'n ofynnol i ni yn ôl statud ymgynghori ar ein gweithgareddau â'r rhai y mae ein penderfyniadau yn effeithio arnynt. Yn ogystal â llawer iawn o gyswllt anffurfiol â rhanddeiliaid, mae'r Asiantaeth yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus ysgrifenedig ffurfiol fel rhan o'r datblygiad polisi. Rydym hefyd yn cynnal fforymau rhanddeiliaid ar faterion allweddol lle y gwahoddwn pob rhanddeiliad allweddol i gyfarfod a thrafod safbwyntiau gwahanol.

Un o'n gwerthoedd craidd yw rhoi defnyddwyr yn gyntaf ac rydym wedi sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr i hysbysu'r Asiantaeth, ymhlith pethau eraill, am faterion allweddol sy'n achos pryder ar hyn o bryd neu sy'n achos pryder newydd i ddefnyddwyr; rhoi sylwadau ar amcanion strategol yr Asiantaeth a chynllunio ymlaen llaw; a darparu'r Asiantaeth ag adborth ar effeithiolrwydd ein polisïau wrth ymateb i bryderon defnyddwyr.

## 5. Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol o fewn yr Adran sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Fe'm cynghorwyd ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol gan y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio ac mae cynllun i sicrhau bod y system yn gwella'n barhaus ar waith.

Mae'r FSA yn ymdrechu'n galed i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol.

Mae Cynllun Strategol yr FSA 2001-06 yn nodi prif nodau ac amcanion yr FSA am gyfnod o bum mlynedd. Mae targedau yng nghynllun busnes corfforaethol blynyddol yr FSA, ac mewn cynlluniau busnes lleol o fewn y sefydliad, wedi eu cysylltu â'r themâu a nodir yn y Cynllun Strategol.

Mae trefniadau archwilio mewnol yr FSA yn cynnwys rhaglen archwilio ar sail risg sy'n gysylltiedig â risgiau strategol y sefydliad sy'n cydymffurfio â safonau'r Llywodraeth. Mae adroddiadau gan yr uned archwiliad mewnol yn cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system o reolaeth fewnol y sefydliad, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

**Dr Jon Bell**
**Prif Weithredwr**
**7 Tachwedd 2003**

# Tystysgrif
archwilio

## Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 144 i 167 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'u diwygiwyd drwy ailbrisio rhai asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifyddu a nodir ar dudalennau 149 i 151.

## Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Archwilydd

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 138 mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn gyfrifol am baratoi gweddill cynnwys y Cyfrifon. Sefydlwyd fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud ac fe'u harweinir gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a chawsant eu paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant a'r incwm ymhob ystyr berthnasol wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r Adroddiad Blynyddol, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Adran wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os na chefais yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn y Cyfrifon, ac ystyriaf a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad amlwg neu anghysondeb perthnasol gyda'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 139 i 141 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Adran ag arweiniad y Trysorlys 'Llywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad rheolaeth fewnol'. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r farn bwysig a fynegwyd gan yr Adran wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Adran, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra arall a bod y gwariant a'r incwm, ymhob ystyr berthnasol, wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

# Tystysgrif archwilio

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar 31 Mawrth 2003 a'r alldro net o ran adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian am y flwyddyn a ddaeth i ben, a'u bod wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a'r cyfarwyddiadau a wneir o dan y Ddeddf honno gan y Trysorlys; ac
- ym mhob ystyr berthnasol mae'r gwariant a'r incwm wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**John Bourn**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**25 Tachwedd 2003**

**Swyddfa Archwilio Genedlaethol**
**157-197 Buckingham Palace Road**
**Victoria**
**London SW1W 9SP**

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 1

## Cyfrifon a Ariennir gan San Steffan 2002/03

### Crynodeb o alldro'r adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | 2002/03 | | | | | | | 2001/02 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Amcangyfrif | | | Alldro | | | Cyfanswm Alldro Net o'i gymharu ag Arbedion Amcangyfrifedig/ (gormodedd) | Alldro'r Flwyddyn Flaenorol |
| | | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Gwariant Gros | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | | |
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Adnoddau: | | | | | | | | | |
| Cais am adnoddau | | 192,569 | (55,270) | 137,299 | 157,471 | (37,435) | 120,036 | 17,263 | 106,800 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | | **192,569** | **(55,270)** | **137,299** | **157,471** | **(37,435)** | **120,036** | **17,263** | 106,800 |
| Gofyniad Arian Parod net | | | | 134,625 | | | 113,509 | 21,116 | 96,090 |
| Cysoni Adnoddau â'r Gofyniad Arian Parod | Nodyn | | | £000oedd | | | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cyfanswm yr Adnoddau net | | | | 137,299 | | | 120,036 | 17,263 | 106,800 |
| Cyfalaf: | | | | | | | | | |
| Prynu asedau sefydlog: prynu arian parod | 11 | | | 637 | | | 573 | 64 | 1,445 |
| Buddsoddiadau | | | | - | | | - | - | - |
| Dyraniad cymorth anweithredol | | | | - | | | - | - | - |
| Addasiadau Croniadau: | | | | | | | | | |
| Eitemau anariannol | 4 | | | (3,311) | | | (1,627) | (1,684) | (1,903) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian parod | 14 | | | - | | | (5,671) | 5,671 | (10,753) |
| Defnyddio darpariaeth | 18 | | | - | | | 198 | (198) | 501 |
| Gofyniad Arian Parod Net (Atodlen 4) | | | | 134,625 | | | 113,509 | 21,116 | 96,090 |

**Esboniad o'r amrywiad rhwng Amcangyfrif ac alldro (cyfanswm yr adnoddau net):**

Roedd gwariant adnoddau Pencadlys yr FSA am y flwyddyn tua £17m yn llai na'r ddarpariaeth Amcangyfrif. Mae'r FSA yn rheoli ei gwariant dros gyfnod o dair blynedd yr Adolygiad o Wariant y Llywodraeth. Bydd y tanwariant ar gyfer 2002/03, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cael ei gario ymlaen i 2003/04 i ariannu gweithgaredd arfaethedig parhaol yr FSA.

**Esboniad o'r amrywiad rhwng gofyniad arian parod net yr Amcangyfrif a'r alldro (gofyniad arian parod net):**

Gweler uchod.

**Addasiadau'r cyfnod blaenorol:**

Cofnodir costau ac incwm y Gwasanaeth Hylendid Cig yn awr, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, fel gwariant rhaglen yn hytrach na gwariant gweinyddol. Ailddatganwyd ffigurau 2001/02 i ystyried y newid hwn yn y polisi cyfrifyddu.

**Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol**

Ni ildiwyd unrhyw ddyraniadau cymorth dros ben na derbyniadau ychwanegol y Gronfa Gyfunol a oedd yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

**Alldro gwirioneddol – adnoddau:**

Cais am adnoddau: Swm gwirioneddol alldro net yr adnoddau oedd £120,035,947.07. Swm gwirioneddol yr arbedion mewn adnoddau yn ychwanegol at yr Amcangyfrif oedd £17,263,052.93.

**Alldro gwirioneddol – arian parod:**

Gofyniad arian parod net: Y gofyniad alldro net oedd £113,509,347.33 sef £21,115,652.67 yn llai na'r amcangyfrif.

# Atodlen 2

## Datganiad cost weithredol a ariennir gan San Steffan 2002/03

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | 2002/03<br>£000oedd | £000oedd | 2001/02 (ailddatganwyd)<br>£000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Costau Gweinyddol:** | | | | |
| Costau staff | 2 | 21,422 | | 19,382 |
| Costau gweinyddol eraill | 4 | 14,225 | | 14,772 |
| **Costau gweinyddol gros** | | | **35,647** | 34,154 |
| Incwm gweithredol | 6 | | **(196)** | (662) |
| **Costau Gweinyddol Net** | | | **35,451** | 33,492 |
| **Costau'r Rhaglen:** | | | | |
| Costau staff | 2 | 44,841 | | 42,108 |
| Gwariant | 5 | 76,983 | | 72,794 |
| Llai: Incwm | 6 | (37,239) | | (41,594) |
| **Costau Net y Rhaglen** | 5 | | **84,585** | 73,308 |
| **Cost Weithredol Net** | | | **120,036** | 106,800 |
| **Alldro Net yr Adnoddau** | | | **120,036** | 106,800 |

Mae pob gweithgaredd yn parhau.

## Datganiad o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | 31 Mawrth, 2003<br>£000oedd | 31 Mawrth, 2002<br>£000oedd |
|---|---|---|---|
| Ennill (colled) net wrth ailbrisio asedau sefydlog | 20 | 507 | 41 |
| Addasiad y flwyddyn flaenorol | | | (22) |
| **Cyfanswm yr enillion (colledion) cydnabyddedig am y flwyddyn** | | **507** | 19 |

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 3

## Mantolen

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | 31 Mawrth 2003 £000oedd | 31 Mawrth 2003 £000oedd | 31 Mawrth 2002 £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog:** | | | | |
| Asedau anniriaethol | 12 | 288 | | 318 |
| Asedau diriaethol | 13 | 5,799 | | 6,437 |
| | | | **6,087** | 6,755 |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Dyledwyr | 15 | 11,681 | | 12,562 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 16 | 5,143 | | 7,656 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **16,824** | | 20,218 |
| **Credydwyr (symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn)** | **17** | **(27,352)** | | (25,860) |
| **Asedau Cyfredol net** | | | **(10,528)** | (5,642) |
| **Cyfanswm Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(4,441)** | 1,113 |
| **Credydwyr (symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn)** | **17** | | **(4,398)** | (3,663) |
| **Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau** | **18** | | **(329)** | (561) |
| | | | **(9,168)** | (3,111) |
| **Ecwiti'r Trethdalwr** | | | | |
| Cronfa Gyffredinol | 19 | | (9,737) | (3,173) |
| Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn | 20 | | 569 | 62 |
| | | | **(9,168)** | (3,111) |

**Dr Jon Bell**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**7 Tachwedd 2003**

llif arian parod

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 4

## Datganiad llif arian parod a ariennir gan San Steffan

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | Nodyn | 2002/03 £000oedd | 2001/02 £000oedd |
|---|---|---|---|
| All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol (a) | | (112,987) | (94,645) |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol (b) | 11 | (573) | (1,445) |
| Ariannu o'r Gronfa Gyfunol (c) | | 111,047 | 96,591 |
| **(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian parod yn y cyfnod** | 16 | **(2,513)** | 501 |

(a) Cysoni cost weithredol â'r llifau arian parod gweithredol

| | Nodyn | 2002/03 £000oedd | 2001/02 £000oedd |
|---|---|---|---|
| Cost Weithredol Net | | 120,036 | 106,800 |
| Addasiadau ar gyfer trafodion anariannol | | (1,627) | (1,903) |
| Addasiadau ar gyfer symudiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian parod | 14 | (5,620) | (10,753) |
| Defnydd o ddarpariaethau | | 198 | 501 |
| **All-lif/(mewnlif) arian parod net o weithgareddau gweithredol** | | **112,987** | 94,645 |

(b) Dadansoddi gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol

| | Nodyn | 2002/03 £000oedd | 2001/02 £000oedd |
|---|---|---|---|
| Ychwanegiadau asedau sefydlog | 12 + 13 | 625 | 1,517 |
| Elw o waredu asedau sefydlog | 11 | (52) | (72) |
| **All-lif/(mewnlif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **573** | 1,445 |

(c) Dadansoddi'r dull ariannu a chysoni â'r gofyniad arian parod net

| | Nodyn | 2002/03 £000oedd | 2001/02 £000oedd |
|---|---|---|---|
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwi) | | 111,047 | 96,591 |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn arian parod | | 2,513 | (501) |
| Addasiadau ar gyfer taliadau a derbyniadau nad ydynt yn gysylltiedig â chyflenwi | | (51) | - |
| **Gofyniad arian parod net (Atodlen 1)** | | **113,509** | 96,090 |

Swm gwirioneddol y Grant a roddwyd i gefnogi'r gofyniad arian parod net = £111,047,106.00

Swm gwirioneddol y Grant a roddwyd i gefnogi gofyniad arian parod net y flwyddyn flaenorol = £96,591,239.00

*Asiantaeth Safonau Bwyd*

# Atodlen 5

## Adnoddau a ariennir gan San Steffan yn ôl nodau ac amcanion adrannol

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003

| | 2002/03 | | | 2001/02 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| | Gros | Incwm | Net | Gros | Incwm | Net |
| **Nod 1** | | | | | | |
| Gwella hyder yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 20,877 | (63) | 20,814 | 22,070 | (177) | 21,893 |
| **Nod 2** | | | | | | |
| Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 36,265 | (1,278) | 34,987 | 29,028 | (1,473) | 27,555 |
| **Nod 3** | | | | | | |
| Diogelu defnyddwyr drwy wella Diogelwch a Safonau Bwyd | 100,329 | (36,094) | 64,235 | 97,957 | (40,605) | 57,352 |
| | **157,471** | **(37,435)** | **120,036** | **149,055** | **(42,255)** | **106,800** |

# Nodiadau i'r cyfrifon

1 Polisïau Cyfrifyddu

1.1 Sail y Paratoi

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau 2002-03 (RAM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y RAM yn dilyn arferion cyfrifyddu i gwmnïau a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU (UK GAAP) i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus. Lle mae'r RAM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu a ystyrid yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig yr adran at ddiben rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiedir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

1.2 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi eu haddasu i roi cyfrif am ailbrisio asedau sefydlog a stociau, lle bo hynny'n berthnasol, ar eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

1.3 Sail y Cyfuno

Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys cyfuno'r FSA graidd a'i hasiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS). Dilëir trafodion rhwng endidau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfuniad. Mae'r MHS yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon ei hun.

1.4 Asedau Sefydlog Anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd gyfrifiadurol gyda chost prynu o fwy na £2,000 (gan gynnwys TAW na ellir ei hadennill a dosbarthiad) eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol. Caiff pob ased sefydlog anniriaethol ei ailbrisio bob 1 Ebrill gan ddefnyddio mynegeion priodol.

1.5 Asedau Sefydlog Diriaethol

Caiff asedau sefydlog diriaethol gyda chost prynu o fwy na £2,000 (gan gynnwys TAW na ellir ei hadennill a dosbarthiad) eu cyfalafu a'u hailbrisio bob 1 Ebrill gan ddefnyddio mynegeion priodol.

Cafodd cyfrifiaduron bwrdd gwaith a etifeddwyd gan yr FSA o'r Adran Iechyd a'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, ynghyd â swmp-brynu cyfrifiaduron newydd, eu cyfalafu ar eu gwerth teg ar y Diwrnod Breinio. Mae cyfrifiaduron bwrdd gwaith newydd a gaffaelwyd ers y dyddiad hwnnw sy'n werth llai na £2,000 wedi eu dibrisio fel treuliau.

Caiff gosodiadau a ffitiadau a gaffaelwyd mewn cysylltiad ag ailwampio eu cyfalafu os yw cyfanswm y gost yn fwy na £2,000.

Nodir polisi cyfalafu'r MHS yn adroddiad blynyddol a chyfrifon yr MHS.

Ailddatgenir pob ased sefydlog diriaethol i'w werth cyfredol bob blwyddyn. Nid yw'r FSA yn berchen ar unrhyw dir neu adeiladau ar hyn o bryd. Caiff asedau gweithredol nad ydynt yn gysylltiedig ag eiddo eu hailbrisio i'w gwerthu ar y farchnad agored lle mae ar gael, neu ar sail cost adnewyddu wedi ei dibrisio lle nad yw gwerth y farchnad ar gael. Fel arfer defnyddir mynegeion cyhoeddedig sy'n briodol i gategori'r ased er mwyn amcangyfrif y gwerth.

1.6 Dibrisiant

Ni chaiff tir ac asedau rhydd-ddaliadol a geir wrth adeiladu eu dibrisio. Darperir dibrisiant ac amorteiddiad ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu prisiad asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol yn y drefn honno drwy gymhwyso'r dibrisiant llinol dros y bywydau defnyddiol amcangyfrifedig canlynol:

| Asedau diriaethol: | |
|---|---|
| Gwasanaethyddion cyfrifiaduron ac offer cyfrifiadurol | 4 blynedd |
| Peiriannau swyddfa | 7 mlynedd |
| Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau | 7 mlynedd |
| Cerbydau | 4 blynedd |

| Asedau anniriaethol: | |
|---|---|
| Meddalwedd cyfrifiadurol a thrwyddedau meddalwedd | 7 mlynedd |

1.7 Stociau a Gwaith ar Droed

Prisir nwyddau traul ar gost, os cânt eu dal at ddefnydd presennol, neu fel arall gwerth net y gellir ei wireddu.

1.8 Ymchwil a Datblygiad

Ni chaiff gwariant ar ymchwil ei gyfalafu. Caiff gwariant ar ddatblygiad mewn cysylltiad â chynhyrchion neu wasanaethau sydd i'w cyflenwi ar sail adnewyddu cost lawn ei gyfalafu os yw'n bodloni'r meini prawf hynny a nodir yn SSAP 13. Cyfalafir gwariant datblygu arall os yw'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y RAM a addasir o'r SSAP 13 i ystyried y cyd-destun nid er elw. Nid yw gwariant sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu yn cael ei drin fel cost weithredol yn y flwyddyn y caiff ei wario. Caiff asedau sefydlog a gaffaelir i'w defnyddio ar gyfer ymchwil a datblygiad eu dibrisio dros fywyd y prosiect cysylltiedig, neu yn unol â chategori'r ased os yw'r ased i'w ddefnyddio ar gyfer gwaith cynhyrchu dilynol.

Cafodd gwariant ar ymchwil a datblygiad ei drin fel cost weithredol yn y flwyddyn y cafodd ei wario.

**1.9 Incwm gweithredol**

Incwm gweithredol yw incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredol yr FSA. Yr incwm yw cyfanswm yr incwm cronedig am y flwyddyn, ac fe'i dangosir heb Dreth ar Werth. Mae gan yr FSA incwm o waith samplu llaeth a llaethdai ac o archwiliadau radiolegol. Mae'n cynnwys incwm dyraniad cymorth y Bleidlais ac incwm i'r Gronfa Gyfunol, y mae Trysorlys EM wedi cytuno y dylid ei drin fel incwm gweithredol. Yn ychwanegol at hyn, mae gan yr MHS incwm o archwiliadau hylendid cig ac o sefydliadau'r llywodraeth (yn bennaf o reolaethau Deunyddiau Risg Penodol).

**1.10 Gwariant ar Weinyddu ac ar y Rhaglen**

Dadansoddir y Datganiad Cost Weithredol rhwng costau gweinyddol a chostau'r rhaglen. Mae costau gweinyddol yn adlewyrchu cost rhedeg yr Adran fel y nodir o dan y gyfundrefn rheoli costau gweinyddol, ynghyd ag incwm gweithredol cysylltiedig. Dadansoddir incwm yn y nodiadau rhwng yr hyn y caniateir iddo, o dan y gyfundrefn, gael ei wrthbwyso yn erbyn costau gweinyddol gros wrth bennu'r alldro yn erbyn y terfyn cost weinyddol a'r incwm gweithredol na chaniateir iddo gael ei wrthbwyso. Mae costau'r rhaglen yn adlewyrchu costau anweinyddol gan gynnwys taliadau eraill gan yr FSA.

Dylid nodi bod yr holl wariant gan y Gwasanaeth Hylendid Cig, gan gynnwys costau staffio a gweinyddol, yn cael ei ystyried fel costau'r rhaglen at ddibenion cyfrifyddu adnoddau.

**1.11 Cost Cyfalaf**

Caiff tâl a godir sy'n adlewyrchu cost cyfalaf a ddefnyddiwyd gan yr FSA, ei gynnwys yn y costau gweithredol. Cyfrifir y tâl a godir ar gyfradd safonol y Llywodraeth o 6% ar bob ased llai rhwymedigaethau heblaw balansau arian parod gyda Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol (PMG) a rhwymedigaethau a ildiwyd i'r gronfa gyfunol. Cyfrifir y tâl a godir yn flynyddol.

**1.12 Cyfnewid Tramor**

Caiff eitemau incwm a gwariant eu trosi yn £ Sterling ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodyn. Caiff eitemau ar y fantolen eu trosi ar y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y fantolen neu ar gyfradd dan gontract os yw'n berthnasol. Cofnodir unrhyw enillion neu golledion cyfnewid yn y datganiad cost weithredol.

**1.13 Pensiynau**

Cwmpesir cyflogeion presennol a chyn-gyflogeion yr FSA gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n gynllun buddiannau diffiniedig anghyfrannol a heb ei ariannu. Mae'r adran yn cydnabod cost ddisgwyliedig darparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol yn ystod y cyfnod lle y mae'n manteisio ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu symiau i'r PCSPS a gyfrifwyd ar sail groniadol. Mae rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol yn dâl a godir ar y PCSPS.

Mae'r mwyafrif o gyflogeion yr MHS yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cynllun buddiannau diffiniedig a reolir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1995, ac a weinyddir gan Awdurdod Cronfa Pensiynau Llundain. Mae cyflogeion eraill yr MHS yn aelodau o'r PCSPS.

**1.14 Costau Ymadael yn Gynnar**

Mae'n ofynnol i'r FSA dalu cost ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Mae'r adran yn darparu yn llawn ar gyfer y gost hon pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar a chynlluniau tebyg wedi eu cyhoeddi ac yn gyfrwymol ar yr adran.

**1.15 Prydlesau Gweithredol**

Codir prydlesau gweithredol ar y datganiad cost weithredol ar sail linol dros dymor y brydles.

**1.16 Costau Archwilio**

Caiff tâl a godir sy'n adlewyrchu cost yr archwiliad ei gynnwys yn y costau gweithredol. Archwilir yr FSA gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol. Ni chodir tâl am y gwasanaeth hwn ond caiff tâl bychan sy'n cynrychioli cost yr archwiliad ei gynnwys yn y cyfrifon.

**1.17 Treth Ar Werth**

Dangosir swm net Treth Ar Werth (TAW) sy'n ddyledus i'r Tollau Tramor a Chartref neu ganddynt fel dyledwr neu gredydwr ar y fantolen. Codir TAW na ellir ei hadennill ar y datganiad cost weithredol, neu os eir iddi wrth brynu ased sefydlog caiff ei chyfalafu yng nghost yr ased.

**1.18 Darpariaethau**

Mae'r adran yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth. Lle mae effaith gwerth amserol yr arian yn sylweddol, caiff y llifau arian parod wedi eu haddasu yn ôl y risg amcangyfrifedig eu disgowntio gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio'r Trysorlys sef 6% mewn termau gwirioneddol.

Cydnabyddir darpariaethau yn y cyfrifon lle:

a) mae rhwymedigaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad a fu;

b) mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd i setlo'r rhwymedigaeth;

c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r swm.

Nid yw'r darpariaethau wedi'u disgowntio, am na chaiff yr addasiad dilynol ei ystyried yn berthnasol i'r cyfrifon hyn.

Datgelir rhwymedigaethau wrth gefn yn y nodiadau i'r cyfrifon oni bai fod y posibilrwydd o drosglwyddo wrth setlo yn annhebyg.

### 1.19 Rhwymedigaethau Wrth Gefn

Yn ogystal â rhwymedigaethau wrth gefn a ddatgelwyd yn unol â FRS 12, mae'r adran yn datgelu, at ddibenion adroddiadau seneddol ac atebolrwydd, rai rhwymedigaethau wrth gefn lle mae'r tebygolrwydd o drosglwyddo budd economaidd yn annhebyg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- eitemau dros £100,000 (neu'n is, lle maent yn ofynnol yn ôl statud benodol) nad ydynt yn codi wrth gynnal busnes fel arfer ac a gyflwynir ar ffurf adroddiad i'r Senedd drwy Gofnodion adrannol cyn i'r Adran ymrwymo i'r cytundeb;
- pob eitem (p'un a ydynt yn codi wrth gynnal busnes fel arfer ai peidio) dros £100,000 (neu'n is, lle maent yn ofynnol yn ôl statud benodol neu lle maent yn berthnasol yng nghyd-destun y cyfrifon adnoddau) y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau, gael eu nodi yn y cyfrifon adnoddau.

Lle mae gwerth amserol yr arian yn berthnasol, caiff rhwymedigaethau wrth gefn y mae'n ofynnol iddynt gael eu datgelu o dan FRS 12 eu datgan ar symiau wedi eu disgowntio a'r swm a gyflwynwyd i'r Senedd wedi ei nodi ar wahân. Caiff rhwymedigaethau wrth gefn nad yw'n ofynnol iddynt gael eu datgelu gan FRS 12 eu datgan ar y symiau a gyflwynwyd i'r Senedd.

### 1.20 Newid mewn polisi cyfrifyddu

Asiantaeth weithredol yr FSA yw'r MHS. Yng nghyfrifon 2001/02 cafodd yr MHS ei gynnwys fel gwariant gweinyddol. Mae'r polisi hwn wedi ei ddiwygio ac, yn dilyn cyngor y Trysorlys, cyfunir yr MHS yn awr yng nghyfrifon yr FSA ar sail cost y rhaglen. Ailddatganwyd y ffigurau ar gyfer 2001/02 i ystyried y newid hwn yn y polisi cyfrifyddu.

Yn unol â RAM 2002/03, symudwyd costau secondio staff yn fewnol o gostau gweinyddol i gostau talu. Ailddatganwyd y ffigurau ar gyfer 2001/02 ar y sail honno.

# 2 Costau staff

a) **Asiantaeth Safonau Bwyd – costau gweinyddol**

| | 2002/03 | | | 2001/02 (ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|---|
| | (Pencadlys) yr FSA San Steffan | | | (Pencadlys) yr FSA |
| | Staff | Bwrdd | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £ | £ | £ | £ |
| Cyflogau | 16,501,144 | 283,610 | 16,784,754 | 15,169,161 |
| Cost Nawdd Cymdeithasol | 1,180,532 | 21,023 | 1,201,555 | 1,122,549 |
| Costau Pensiwn Eraill | 2,312,993 | 32,267 | 2,345,260 | 2,097,654 |
| **Is-gyfanswm** | **19,994,669** | **336,900** | **20,331,569** | 18,389,364 |
| Secondiadau Mewnol | 412,896 | - | 412,896 | 335,519 |
| Staff yr Asiantaeth | 749,179 | - | 749,179 | 674,533 |
| **Cyfanswm** | **21,156,744** | **336,900** | **21,493,644** | 19,399,416 |
| Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol | (71,290) | - | (71,290) | (17,010) |
| **Cyfanswm y Costau Net** | **21,085,454** | **336,900** | **21,422,354** | 19,382,406 |

b) **Gwasanaeth Hylendid Cig – costau'r rhaglen**

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | MHS | MHS |
| | Cyfanswm | Cyfanswm |
| | £ | £ |
| Cyflogau | 37,833,000 | 35,906,000 |
| Cost Nawdd Cymdeithasol | 2,716,000 | 2,798,000 |
| Costau Pensiwn Eraill | 4,292,000 | 3,404,000 |
| **Is-gyfanswm** | **44,841,000** | 42,108,000 |
| Secondiadau Mewnol | - | - |
| **Cyfanswm** | **44,841,000** | 42,108,000 |
| Llai adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol | - | - |
| **Cyfanswm y Costau Net** | **44,841,000** | 42,108,000 |

Mae'r PCSPS yn gynllun buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr heb ei ariannu ond nid yw'r FSA yn gallu nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn ar 31 Mawrth 2000. Ceir manylion yn natganiad cynllun ar wahân y PCSPS.

Ar gyfer 2002/03 talwyd cyfraniadau arferol cyflogwr o £3.3 miliwn i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) ar gyfraddau yn yr ystod 11 i 19.5 y cant o gyflog pensiynadwy. Cytunwyd y bydd y cyfraniadau yn aros ar y lefel honno am y ddwy flynedd nesaf. Caiff cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr eu hadolygu bob tair blynedd yn dilyn prisiad cynllun gan actiwari'r Llywodraeth. Mae'r cyfraddau cyfraniadau yn adlewyrchu buddiannau fel y maent yn cronni, nid pan eir i gostau mewn gwirionedd; a dylent adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun.

c) **Roedd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan yr FSA a'r MHS ar gyfartaledd (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn 2002/03 fel a ganlyn:**

| | 2002/03 | 2001/02 (ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | **Cyfanswm** |
| **Nod 1**<br>Gwella hyder yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 169 | 172 |
| **Nod 2**<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005. | 238 | 195 |
| **Nod 3 (gan gynnwys pob aelod o staff yr MHS)**<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella Diogelwch a Safonau Bwyd | 1,820 | 1,716 |
| | **2,227** | **2,083** |

ch) **Roedd costau staff fesul nod fel a ganlyn:**

| | 2002/03 Cyfanswm £000 | 2001/02 Cyfanswm £000 |
|---|---|---|
| **Nod 1**<br>Gwella hyder yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a Safonau Bwyd Cenedlaethol | 5,224 | 5,797 |
| **Nod 2**<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005. | 8,580 | 6,419 |
| **Nod 3 (gan gynnwys pob aelod o staff yr MHS)**<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella Diogelwch a Safonau Bwyd | 52,460 | 49,274 |
| | **66,264** | **61,490** |

Am fanylion pellach ynglŷn â chostau staff a niferoedd staff yr MHS, cyfeiriwch at MHS 2002/03

# 3 Cydnabyddiaeth y Rheolwyr

a) **Roedd cyflog a hawliau pensiwn Aelodau'r Bwrdd ac uwch reolwyr yr adran fel a ganlyn:**

| | | | 2002/03 | | | 2001/02 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 03 | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 02 |
| | | *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 | £5,000 | £2,500 | £5,000 |
| i) | **FSA** | | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| | Geoffrey Podger | Prif Weithredwr (hyd at 31/01/2003) | 100-105 | 2.5-5 | 40-45 | 110-115 | 2.5-5 | 35-40 |
| | Dr Jon Bell | Cyfarwyddwr, Polisi Diogelwch Bwyd a Phrif Weithredwr Dros Dro (o 01/2/2003) | 90-95 | 2.5-5 | 30-35 | 75-80 | 5-7.5 | 20-25 |
| | Andrew Wadge | Cyfarwyddwr Dros Dro, Polisi Diogelwch Bwyd (o 01/02/2003) | 65-70 | 0-2.5 | 10-15 | 60-65 | 0-2.5 | 10-15 |
| | Pat Stewart | Cyfarwyddwr, Adnoddau a Strategaeth Gorfforaethol a Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro | 90-95 | 2.5-5 | 35-40 | 80-85 | 2.5-5 | 30-35 |
| | David Statham | Cyfarwyddwr, Gorfodi a Safonau Bwyd | 85-90 | 0-2.5 | 0-5 | 75-80 | 0-2.5 | 0-5 |
| | David Dunleavy | Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol | 90-95 | 2.5-5 | 20-25 | 80-85 | 0-2.5 | 15-20 |

Mae Neil Martinson (Cyfarwyddwr, Cysylltiadau) o Fwrdd Rheoli Gweithredol yr FSA wedi gwrthod caniatáu i'w fanylion personol gael eu cyhoeddi ac felly ni chynhwysir y cyfryw wybodaeth yn y nodiadau hyn.

Ni dderbyniodd uwch reolwyr yr FSA unrhyw fuddiannau trethadwy mewn nwyddau yn ystod 2002/03.

| ii) | **MHS** | | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Chris Lawson | Prif Weithredwr | 90-95 | 2.5-5.0 | 30-35 | 90-95 | 10-12.5 | 30-35 |

Datgelir gwybodaeth yn ymwneud â manylion am gyflogau a phensiynau yr uwch reolwyr eraill o fewn yr MHS o fewn ei Gyfrifon Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2002/03.

| | | 2002/03 | | | 2001/02 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 03 | Cyflogau a Lwfansau Eraill | Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn yn 60 oed | Cyfanswm y pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 02 |
| | *Bandiau* | £5,000 | £2,500 | £5,000 | £5,000 | £2,500 | £5,000 |
| iii) **Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd** | | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Yr Athro Syr John Krebs | Cadeirydd## | 100-105 | 0-2.5 | 0-5 | 100-105 | 0-2.5 | 0-5 |
| Suzi Leather*# | Dirprwy Gadeirydd (hyd at 31/12/2002) | 20-25 | 0-2.5 | 0-5 | 45-50 | 0-2.5 | 0-5 |
| Ann Hemingway | Dirprwy Gadeirydd (o 01/01/2003) | 25-30 | 0-2.5 | 0-5 | 25-30 | 0-2.5 | 0-5 |
| Michael Gibson## | | 25-30 | 0-2.5 | 0-5 | 20-25 | 0-2.5 | 0-5 |
| Michael Walker | | 20-25 | d/g | d/g | 20-25 | d/g | d/g |
| Yr Athro Syr John Arbuthnott | (tan 30/11/2002) | 10-15 | 0-2.5 | 0-5 | 20-25 | 0-2.5 | 0-5 |
| Jeya Henry | (tan 20/02/2003) | 5-10 | - | - | 5-10 | - | - |
| Karol Bailey | (tan 20/02/2003) | 5-10 | - | - | 10-15 | - | - |
| Richard Ayre | | 5-10 | - | - | 5-10 | - | - |
| Robert Rees | | 10-15 | - | - | 10-15 | - | - |
| Y Fonesig Valerie Howarth o Breckland, OBE | | 5-10 | - | - | 5-10 | - | - |
| Vernon Sankey | | 5-10 | - | - | 5-10 | - | - |
| Sandra Walbran | (o 01/06/2002) | 5-10 | - | - | - | - | - |
| Christine Dunn | (o 01/03/2003) | 0-5 | - | - | - | - | - |
| Dr Sati Ariyanayagam | (o 01/03/2003) | 0-5 | - | - | - | - | - |
| Yr Athro Andrew Miller*# | (o 01/03/2003) | 0-5 | 0-2.5 | 0-5 | - | - | - |

Mae Iain McDonald wedi gwrthod caniatáu i'w fanylion personol gael eu cyhoeddi ac felly ni chynhwysir y cyfryw wybodaeth yn y nodiadau hyn.

* wedi dewis ymuno â *premium*
** wedi dewis ymuno â *classic plus*
\# manylion pensiwn yn tybio'r uchafswm cyfnewidiad pensiwn ar gyfer cyfandaliad
\## heb ddewis y trefniant pensiwn eto, o'r opsiynau a nodwyd yn nodyn ii isod. Cyfrifwyd y ffigurau a ddatgelir yn y tabl ar sail y 'Classic Scheme', sef yr opsiwn awtomatig pe na bai opsiwn arall yn cael ei ddewis.

**Nodiadau:**

i Mae 'Cyflog' yn cynnwys cyflog gros, tâl perfformiad neu fonws; goramser; hawliau neilltuedig i Bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; recriwtio a chadw lwfansau, lwfansau swyddfeydd preifat ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau ei fod yn agored i drethiant y DU.

ii Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Hydref 2002, gall gweision sifil fod mewn un o dri chynllun buddiannau diffiniedig "cyflog terfynol" ar sail statudol (classic, premium a classic plus). Gall rhai sy'n ymuno ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth o'r cynllun 'premium' neu ymuno â threfniant ar sail rhanddeiliad "prynu arian" o ansawdd da gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

(a) Cynllun 'Classic'
Mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn yn daladwy wrth ymddeol. Bydd yr Aelodau yn talu cyfraniad o 1.5 y cant o enillion pensiynadwy. Ar ôl marw, bydd pensiynau yn daladwy i'r cymar sy'n goroesi ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Os bydd rhywun yn marw tra yn ei swydd, bydd y cynllun yn talu budd cyfandaliad o ddwywaith y cyflog pensiynadwy ac yn darparu taliad chwyddo gwasanaeth hefyd wrth gyfnewid pensiwn y cymar. Mae'r taliad chwyddo yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na 10 mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl os bydd salwch difrifol. Yn yr achos hwn, telir pensiynau ar unwaith heb leihad actiwaraidd a chyda thaliad chwyddo gwasanaeth fel ar gyfer pensiynau gwŷr a gwragedd gweddw.

(b) Cynllun 'Premium'
Mae buddiannau yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i 'classic', nid oes cyfandaliad awtomatig, ond gall aelodau gyfnewid peth o'u pensiwn i ddarparu cyfandaliad hyd at uchafswm o 3/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth neu 2.25 gwaith y pensiwn os yw'n fwy (y gyfradd gyfnewid yw £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn a ildir). At ddibenion datgelu pensiwn mae'r tablau yn tybio'r uchafswm cyfnewidiad. Bydd yr Aelodau yn talu cyfraniadau o 3.5 y cant o enillion pensiynadwy. Ar ôl marw, bydd pensiynau yn daladwy i'r cymar sy'n goroesi neu'r partner cymwys ar gyfradd o 3/8fed o bensiynau'r aelodau (cyn unrhyw gyfnewidiad). Os bydd rhywun yn marw tra yn ei swydd, bydd y cynllun yn talu budd cyfandaliad o dair gwaith yr enillion pensiynadwy ac yn darparu taliad chwyddo gwasanaeth hefyd wrth gyfnewid pensiwn y cymar. Mae'r taliad chwyddo yn dibynnu ar hyd y gwasanaeth ac ni all fod yn fwy na 10 mlynedd. Mae ymddeoliad meddygol yn bosibl os bydd salwch difrifol. Yn yr achos hwn, telir pensiynau ar unwaith heb leihad actiwaraidd. Pan fydd salwch yr aelod yn golygu ei fod yn ei atal yn barhaol rhag gwneud unrhyw waith cyflogedig, caiff y taliad chwyddo gwasanaeth ei wella fel ei fod yn debyg i'r hyn a fyddai wedi cronni ar ôl cyrraedd 60 oed.

(c) Cynllun 'Classic Plus'
Yn y bôn, amrywiad ar y cynllun 'premium' yw hwn, ond caiff y buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 eu cyfrifyddu'n fras yn yr un modd â'r 'classic'.
Cynyddir pensiynau sy'n daladwy o dan 'classic', 'premium' a 'classic plus' yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu.

(ch) Cyfrif Pensiwn Partneriaeth
Mae hyn yn drefniant ar ffurf rhanddeiliaid lle mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid. Nid yw'r cyflogai yn gorfod cyfrannu ond lle y gwnânt gyfraniadau, fe'u cyfatebir gan y cyflogwr hyd at derfyn o 3 y cant (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant arall o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd o ran risg (marw tra yn y swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch). Gall yr aelod ymddeol ar unrhyw adeg rhwng 50 a 75 oed a defnyddio'r gronfa sydd wedi cronni i brynu pensiwn. Gall yr aelod ddewis cymryd hyd at 25 y cant o'r gronfa fel cyfandaliad.

iii Ni dderbyniodd unrhyw un o'r uchod fuddiannau mewn nwyddau.

iv Mae pob aelod o Grŵp Rheoli'r FSA wedi gwrthod rhoi eu caniatâd i gyhoeddi eu hoedran.

v Mae pum aelod o Fwrdd yr FSA yn aelodau o gynllun pensiwn drwy gydweddiad sy'n debyg i'r PCSPS. Mae gan Michael Walker gyfraniad tebyg wedi ei dalu i mewn i'w gynllun pensiwn personol.

vi Peidiodd Geoffrey Podger â chael unrhyw gydnabyddiaeth ar ôl ei ymddiswyddiad ar 31 Ionawr 2003.

vii Peidiodd Suzi Leather â chael unrhyw gydnabyddiaeth ar ôl ei hymddiswyddiad ar 31 Rhagfyr 2002.

viii Peidiodd yr Athro Syr John Arbuthnott â chael unrhyw gydnabyddiaeth ar ôl ei ymddiswyddiad ar 30 Tachwedd 2002.

# 4 Costau gweinyddol eraill

| | | 2002/03 | 2001/02 (ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Rhenti o dan Brydlesau Gweithredol:** | | | |
| Hurio offer a pheiriannau | | 120 | 200 |
| Prydlesau gweithredol eraill (gan gynnwys rhent Aviation House) | | 3,467 | 3,706 |
| **Eitemau anariannol:** | | | |
| Dibrisiant | 1,467 | | 1,138 |
| Cost cyfalaf | (397) | | 150 |
| Ffioedd archwilio | 70 | | 100 |
| Darpariaeth ar gyfer costau ymadael yn gynnar | - | | 119 |
| Colled wrth waredu asedau sefydlog | 2 | | - |
| **Cyfanswm eitemau anariannol** | | **1,142** | 1,507 |
| Costau gweithredol | | - | 62 |
| Costau lletya | | 3,447 | 2,732 |
| Gorbenion y bwrdd a'r staff | | 2,524 | 2,047 |
| Costau gweinyddol | | 2,543 | 3,381 |
| Costau TG | | 934 | 1,150 |
| Costau Ymadael yn Gynnar | | 28 | (13) |
| Drwgddyledion | | 18 | - |
| Costau eraill | | 2 | - |
| | | **14,225** | 14,772 |

Ni dderbyniodd yr archwilwyr unrhyw gydnabyddiaeth am waith nad oedd yn waith archwilio.

| | 2002/03 |
|---|---|
| **Nodyn a) mae cyfanswm y trafodion anariannol a gynhwyswyd yng Nghysoniad Costau Gweithredol â Llifau Arian Parod Gweithredol yn Atodlen 4 a'r Gofyniad Arian Parod Net yn Atodlen 1 yn cynnwys:** | |
| Costau Gweinyddol eraill – eitemau anariannol (fel uchod) | 1,142 |
| symiau anariannol eraill a godwyd ar y gwariant gweithredol | 485 |
| **Cyfanswm y trafodion anariannol** | **1,627** |

# 5 Costau
## net y rhaglen

| | | 2002/03 | 2001/02 (ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| **Ymchwil a Datblygiad:** | | | |
| Maeth | 3,878 | | 3,771 |
| Diogelwch Bwyd Microbiolegol | 3,067 | | 4,001 |
| Hylendid Cig | 4,891 | | 4,108 |
| Diogelwch Cemegol | 2,547 | | 2,624 |
| Bwyd Newydd a Gwenwyneg Diogelwch Cemegol | 2,567 | | 2,811 |
| Difwynwyr Cemegol | 1,048 | | 886 |
| Labeli a Safonau bwyd | 1,122 | | 715 |
| Diogelwch Radiolegol | 493 | | 567 |
| Porthiant Anifeiliaid | 88 | | - |
| Diogelwch Cadwyn Fwyd | 245 | | - |
| Amrywiol | 504 | | 370 |
| | **20,450** | | 19,853 |
| | | | |
| **Monitro a Goruchwylio** | | | |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | | | |
| Costau Staff | | 44,841 | 42,108 |
| Gwariant Arall | 36,375 | | 35,707 |
| Hylendid Cig | (24) | | - |
| Diogelwch Cemegol | 372 | | - |
| Diogelwch Radiolegol | 2,481 | | 2,588 |
| Diogelwch Bwyd Micro | 8,474 | | 5,994 |
| Pwyllgorau, y Wasg a Chyhoeddusrwydd | 2,643 | | 2,107 |
| Maeth | 2,510 | | 1,106 |
| Bwyd Newydd a Gwenwyneg Diogelwch Cemegol | 315 | | - |
| Difwynwyr Cemegol | 1,476 | | 1,177 |
| Labeli a Safonau Bwyd | 597 | | - |
| Porthiant Anifeiliaid | 381 | | 1,538 |
| Diogelwch Cadwyn Fwyd | 333 | | - |
| Amrywiol | 600 | | 2,724 |
| Cyfanswm costau'r rhaglen nad ydynt yn ymwneud â'r staff | | 76,983 | 72,794 |
| | | 121,824 | 114,902 |
| | | | |
| **Llai: Incwm y Rhaglen** | | | |
| Gwasanaeth Hylendid Cig | (34,851) | | (39,436) |
| (Pencadlys) yr FSA | (2,388) | | (2,158) |
| | | (37,239) | (41,594) |
| | | **84,585** | 73,308 |

Yn gynwysedig yng nghostau'r MHS a nodir uchod mae:
Ar gyfer 2002/03, ffi archwilio o £30,000 a dibrisiant o £308,000
Ar gyfer 2001/02, ffi archwilio o £40,000 a dibrisiant o £372,000

# 6 Dadansoddi incwm

| | 2002/03 | 2002/03 | 2001/02 | 2001/02 |
|---|---|---|---|---|
| | | £000oedd | | £000oedd |
| **Mae incwm gweithredol, wedi ei ddadansoddi yn ôl dosbarthiad a gweithgaredd fel a ganlyn:** | | | | |
| Caiff yr holl incwm gweithredol ei gynnwys o fewn gwariant cyhoeddus | | | | |
| **Incwm gweinyddol:** | | | | |
| O Adrannau'r Llywodraeth ac eraill | 196 | | 662 | |
| | | 196 | | 662 |
| **Incwm y rhaglen:** | | | | |
| Hylendid Llaeth a Llaethdai – samplu | 33 | | 15 | |
| Archwiliadau Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 | 2,355 | | 2,143 | |
| | | 2,388 | | 2,158 |
| **Gweithgaredd y Gwasanaeth Hylendid Cig** | | 34,851 | | 39,436 |
| | | **37,435** | | 42,256 |

Mae'r dadansoddiad o'r incwm o wasanaethau a ddarparwyd i gwsmeriaid allanol a chwsmeriaid y sector cyhoeddus fel a ganlyn:

| | 2002/03 Incwm £000oedd | 2002/03 Cost Lawn £000oedd | 2002/03 Gwarged/ (Diffyg) £000oedd | 2001/02 Incwm £000oedd | 2001/02 Cost Lawn £000oedd | 2001/02 Gwarged/ (Diffyg) £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgaredd y Gwasanaeth Hylendid Cig | | | | | | |
| Diwydiant | 21,517 | 46,571 | (25,054) | 20,601 | 38,736 | (18,135) |
| Llywodraeth | 13,334 | 13,334 | - | 18,835 | 18,835 | - |
| Hylendid Llaeth a Llaethdai – samplu ac archwiliadau | 33 | 111 | (78) | 15 | 107 | (92) |
| Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 | 2,355 | 2,197 | 158 | 2,143 | 2,786 | (643) |
| | **37,239** | **62,213** | **(24,974)** | 41,594 | 60,464 | (18,870) |

Nid yw'r MHS yn adennill ei holl gostau o ddiwydiant. Codir ffioedd archwilio ar weithfeydd llai ar sail sefydlog yn hytrach na chyfradd fesul awr.

# 7 Terfynau cost weinyddol

Mae'r alldro o fewn y drefn o reoli costau gweinyddol yn erbyn terfynau costau gweinyddol unigol fel a ganlyn:

| | 2002/03 | | 2001/02 (ailddatganwyd) | |
|---|---|---|---|---|
| | Alldro | Terfynau | Alldro | Terfynau |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cais am adnoddau 1 | 33,063 | 35,751 | 31,255 | 32,388 |
| | **33,063** | **35,751** | 31,255 | 32,388 |

# 8 Cysoni cost weithredol net â rheoli cyfanswm ac alldro net yr adnoddau

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Cost Weithredol Net | 120,036 | 106,800 |
| Incwm Gweithredol nas dosbarthwyd fel dyraniad cymorth | - | - |
| Gwasanaethau sefydlog Cyllido Cyfunol | - | - |
| Alldro Net yr Adnoddau | **120,036** | 106,800 |

# 9 Dadansoddiad o'r gost weithredol net

Mae'r nodyn hwn yn dadansoddi cyllid gan yr Adran i'r awdurdod gwario perthnasol.

| | 2002/03 | 2002/03 | 2001/02 | 2001/02 |
|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb | Gwirioneddol | Cyllideb | Gwirioneddol |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Corff Gwario: | | | | |
| Adran Graidd | 112,299 | 94,982 | 104,594 | 88,665 |
| MHS | 25,000 | 25,054 | 20,871 | 18,135 |
| **Cyfanswm** | **137,299** | **120,036** | 125,465 | 106,800 |

# 10 Dadansoddiad o alldro net yr adnoddau a'r gost weithredol net fesul swyddogaeth

2002/03

| | Gweinyddol | Arall Cyfredol | Costau Cyfredol | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Amcangyfrif | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cais am Adnoddau 1 | | | | | | | |
| Swyddogaeth 1 Pencadlys yr FSA | 35,647 | 61,919 | - | (2,584) | 94,982 | 112,299 | 17,317 |
| Swyddogaeth 2 MHS | - | 81,216 | - | (56,162) | 25,054 | 25,000 | (54) |
| **Cyfanswm** | **35,647** | **143,135** | **-** | **(58,746)** | **120,036** | **137,299** | **17,263** |

2001/02

| | Gweinyddol | Arall Cyfredol | Costau Cyfredol | Dyraniad Cymorth | Cyfanswm Net | Amcangyfrif | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cais am Adnoddau 1 | | | | | | | |
| Swyddogaeth 1 Pencadlys yr FSA | 34,154 | 57,410 | - | (2,899) | 88,665 | 104,594 | 15,929 |
| Swyddogaeth 2 MHS | - | 77,725 | - | (59,590) | 18,135 | 20,871 | 2,736 |
| Cyfanswm | 34,154 | 135,135 | - | (62,489) | 106,800 | 125,465 | 18,665 |

# 11 Dadansoddiad o wariant cyfalaf, buddsoddiad ariannol a'r dyraniad cymorth cysylltiedig

| | 2002/03 Gwariant Cyfalaf | 2002/03 Benthyciadau ac ati | 2002/03 Dyraniad Cymorth | 2002/03 Cyfanswm Net | 2001/02 Gwariant Cyfalaf | 2001/02 Benthyciadau ac ati | 2001/02 Dyraniad Cymorth | 2001/02 Cyfanswm Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cais am Adnoddau 1 | 625 | - | (52) | 573 | 1,517 | - | (72) | 1,455 |
| **Cyfanswm** | **625** | **-** | **(52)** | **573** | 1,517 | - | (72) | 1,455 |

# 12 Asedau sefydlog anniriaethol

| | Trwyddedau meddalwedd £000oedd |
|---|---|
| **Cost neu brisiad:** | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 484 |
| Ychwanegiadau | 96 |
| Ailbrisio a mynegeio | (29) |
| Diffyg | - |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **551** |
| | |
| **Dibrisiant:** | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 166 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 103 |
| Ailbrisio a mynegeio | (6) |
| Diffyg | - |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **263** |
| | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2003** | **288** |
| | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2002** | **318** |

# 13 Asedau sefydlog diriaethol

| | Gosodiadau a Ffitiadau £000oedd | Offer Swyddfa £000oedd | Offer a Meddalwedd Cyfrifiadurol £000oedd | Cerbydau Modur £000oedd | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 6,285 | 277 | 1,531 | 457 | 8,550 |
| Ychwanegiadau | 93 | 12 | 338 | 86 | 529 |
| Ailbrisio a mynegeio | 305 | 29 | (91) | (5) | 238 |
| Gwarediadau | - | - | (269) | (167) | (436) |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **6,683** | **318** | **1,509** | **371** | **8,881** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2002 | 1,015 | 128 | 764 | 205 | 2,112 |
| A godwyd yn ystod y flwyddyn | 884 | 37 | 372 | 95 | 1,388 |
| Ailbrisio a mynegeio | 43 | 7 | (84) | (2) | (36) |
| Gwarediadau | - | - | (267) | (115) | (382) |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **1,942** | **172** | **785** | **183** | **3,082** |
| **Gwerth Llyfr Net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **4,741** | **146** | **724** | **188** | **5,799** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2002** | **5,269** | **149** | **767** | **252** | **6,437** |

Y gwahaniaeth sy'n codi rhwng prynu asedau sefydlog ac ychwanegiadau yw credydwyr cyfalaf a chroniadau. Mae asedau a brynwyd ar gyfer yr Awdurdodau Datganoledig wedi'u heithrio o'r ffigurau.

# 14 Symudiadau mewn cyfalaf gwaith heblaw arian parod

| | 2002/03 £000oedd | 2001/02 £000oedd |
|---|---|---|
| (Gostyngiad)/Cynnydd mewn dyledwyr | (881) | (1,769) |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn credydwyr | (4,739) | (8,984) |
| | **(5,620)** | (10,753) |
| Addasiadau Trosiannol | (51) | - |
| | **(5,671)** | (10,753) |

# 15 Dyledwyr

| | 31 Mawrth 2003 | 31 Mawrth 2002 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr masnach | 5,864 | 6,851 |
| Yn ddyledus gan adrannau eraill y llywodraeth | 748 | 1,485 |
| TAW y gellir ei hadennill | 2,201 | 2,439 |
| Dyledwyr eraill | 996 | 1,378 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 1,634 | 387 |
| | **11,443** | 12,540 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn:** | | |
| Dyledwyr eraill: | 238 | 22 |
| **Cyfanswm y Dyledwyr** | **11,681** | 12,562 |

# 16 Arian parod yn y banc ac mewn llaw

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Mantolen ar 1 Ebrill | 7,656 | 7,155 |
| Mewnlif/(all-lif) arian parod net: | | |
| Adran graidd | (2,513) | 501 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **5,143** | 7,656 |
| **Delir y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn:** | | |
| Swyddfa Tâl-feistr Cyffredinol EM | 2,880 | 7,376 |
| Cyfrifon banc masnachol | 2,263 | 280 |
| | **5,143** | 7,656 |

**Mae'r balans ar 31 Mawrth yn cynnwys**

Arian parod sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol:

| | | |
|---|---|---|
| **Symiau a gyhoeddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwadau ond nas gwariwyd ar ddiwedd y flwyddyn** | **5,143** | 7,656 |

# 17 Credydwyr

| | 31 Mawrth 2003<br>£000oedd | 31 Mawrth 2002<br>£000oedd |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Credydwyr masnach | 9,176 | 6,149 |
| Credydwyr eraill | 2,722 | 550 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 10,311 | 11,505 |
| Symiau a gyhoeddwyd o'r Gronfa Gyfunol ar gyfer cyflenwadau ond nas gwariwyd yn ystod y flwyddyn | 5,143 | 7,656 |
| | **27,352** | 25,860 |
| | | |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Rhwymedigaethau hirdymor (rhent) | 4,398 | 3,663 |
| | **31,750** | 29,523 |

# 18 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Darpariaeth Ymadael yn Gynnar £000oedd | Darpariaeth Clwy'r Traed a'r Genau £000oedd | Ceisiadau Cyfreithiol £000oedd | Cyfanswm £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2002 | 398 | 48 | 115 | 561 |
| Yn codi yn ystod y flwyddyn | 14 | - | - | 14 |
| A ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (83) | - | (115) | (198) |
| A wrthdrowyd heb eu defnyddio yn ystod y flwyddyn | - | (48) | - | (48) |
| **Ar 31 Mawrth 2003** | **329** | **-** | **-** | **329** |

**Ymadael yn gynnar a chostau pensiwn**

Mae darpariaeth ymadael yn gynnar a darpariaethau pensiwn yn cyfeirio at rwymedigaethau i staff ar gyfer ymddeol yn gynnar. Mae'r FSA yn talu costau ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPC mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar drwy dalu'r symiau sy'n ofynnol yn flynyddol i'r PCSPS dros y cyfnod rhwng ymadael yn gynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Mae'r FSA yn darparu ar gyfer hyn yn llawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar yn gyfrwymol ar yr adran drwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau amcangyfrifedig a ddisgowntiwyd gan gyfradd ddisgowntio'r Trysorlys o 6% mewn termau gwirioneddol. Mewn blynyddoedd blaenorol talodd yr FSA ymlaen llaw am beth o'i rhwymedigaeth ar gyfer ymddeoliad cynnar drwy wneud taliad i Gyfrif y Tâl-feistr Cyffredinol ym Manc Lloegr ar gyfer credyd Pleidlais Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff y balans sy'n weddill ei drin fel rhagdaliad.

# 19 Cysoni cost weithredol net â thaliadau yn y gronfa gyffredinol

| | 2002/03 | | 2001/02 | |
|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Cost weithredol net am y flwyddyn (atodlen 2) | (120,036) | | (106,800) | |
| Incwm heb ddyraniad cymorth i'r Gronfa Gyfunol | - | | - | |
| | | (120,036) | | (106,800) |
| Arian Seneddol net | | 118,704 | | 103,695 |
| Credydwr y Gronfa Gyfunol ar gyfer arian parod nas gwariwyd | | (5,143) | | (7,656) |
| **Taliadau anariannol:** | | | | |
| Cost cyfalaf | (197) | | 150 | |
| Rhent a Gwasanaethau Rheoli | 8 | | 10 | |
| Ffioedd archwilio | 100 | | 140 | |
| | | (89) | | 300 |
| Addasiadau'r flwyddyn flaenorol | | - | | (22) |
| **Gostyngiad net yn y gronfa gyffredinol** | | **(6,564)** | | (10,483) |
| Y Gronfa Gyffredinol ar 1 Ebrill | | (3,173) | | 7,310 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2003** | | **(9,737)** | | (3,173) |

Mae'r Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli'r asedau net a gyflwynwyd i'r FSA ar 1 Ebrill 2000 (a ddatganwyd ar gost hanesyddol llai dibrisiant cronedig ar y dyddiad hwnnw), y gwarged neu'r diffyg a gynhyrchwyd o daliadau tybiannol a gweithgareddau masnachu, a chyllid y Bleidlais a ddeilliodd ers y dyddiad hwnnw.

Mae'r 'taliadau anariannol' uchod yn cynnwys balansau'r MHS a godwyd yn erbyn Costau'r Rhaglen yn ogystal â'r Taliadau Cost Weinyddol a ddatgelwyd yn Nodyn 4.

# 20 Cronfeydd wrth gefn

| | 2002/03 | 2001/02 |
|---|---|---|
| | £000oedd | £000oedd |
| Balans ar 1 Ebrill 2002 | 62 | 21 |
| Yn codi wrth ailbrisio yn ystod y flwyddyn (net) | 500 | 41 |
| Trosglwyddwyd i'r gronfa gyffredinol mewn perthynas ag elfen y gronfa ailbrisio wrth gefn a wireddwyd | 7 | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2003** | **569** | 62 |

Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn adlewyrchu elfen y balans cronnol nas gwireddwyd o addasiadau mynegeio ac ailbrisio.

# 21 Nodiadau i atodlen 5

Defnyddir cyfalaf yr FSA yn unswydd at ddibenion gweinyddol. Felly nid yw ei ddosbarthiad ymhlith nodau yn wahanol iawn i gyfran y gost weinyddol gros gysylltiedig.

Dyrannwyd cost y rhaglen a gwariant cyfredol arall fel a ganlyn:

| | 2002/03<br>£000oedd | 2001/02<br>£000oedd |
|---|---|---|
| Nod 1<br>Gwella hyder yn fesuradwy yn y trefniadau Diogelwch a safonau Bwyd Cenedlaethol | 11,071 | 5,576 |
| Nod 2<br>Lleihau salwch a gludir gan fwyd 20% dros y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys lleihau Salmonela mewn ieir a gynhyrchir yn y DU ar gyfer eu manwerthu o leiaf 50% erbyn diwedd 2004/2005 | 21,542 | 8,923 |
| Nod 3<br>Diogelu defnyddwyr drwy wella diogelwch a safonau bwyd | 51,972 | 58,809 |
| | **84,585** | 73,308 |

# 22 Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2002/03<br>£000oedd | 2001/02<br>£000oedd |
|---|---|---|
| Dan gontract | - | 32 |

# 23 Ymrwymiadau blynyddol o dan brydlesau gweithredol

| | 2002/03 Tir ac Adeiladau £000oedd | 2002/03 Arall £000oedd | 2001/02 Tir ac Adeiladau £000oedd | 2001/02 Arall £000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Prydlesau gweithredol sy'n dod i ben: | | | | |
| Ymhen blwyddyn | - | - | - | - |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | - | 126 | - | 126 |
| Ar ôl pum mlynedd | 4,334 | 84 | 4,323 | 84 |
| | **4,334** | **210** | 4,323 | 210 |

## 24 Ymrwymiadau eraill

Mae'r FSA wedi gwneud ymrwymiadau (nad ydynt yn brydlesau gweithredol) ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygiad amrywiol gwerth £21,843,875.00 ar 31 Mawrth 2003. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau hyd at y flwyddyn 2007.

## 25 Rhwymedigaethau wrth gefn

Gwneir nifer o geisiadau bach gan weithwyr offer a chyflogeion yr MHS ar gyfer anafiadau a gafwyd yn y gweithle ac am ddiswyddiad annheg. Caiff yr achosion hyn eu hamddiffyn a hyd yma nid yw'r canlyniad yn hysbys ond gallent gostio tua £198,000. Ni wnaed unrhyw ddarpariaeth yn y cyfrifon eleni. Nid oedd unrhyw ddarpariaeth ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol.

## 26 Trafodion partïon cysylltiedig

Soniodd aelodau canlynol y Bwrdd am y trafodion partïon cysylltiedig:

Mae Karol Bailey wedi datgelu bod aelodau o'i theulu yn rhedeg busnes lladd dofednod, sy'n derbyn gwasanaethau gan yr MHS.

Mae Michael Walker wedi datgelu fod practis, y mae ef yn bartner ynddo, wedi derbyn ffioedd gan yr FSA am ymchwil ddadansoddol.

Mae Vernon Sankey wedi datgelu ei fod yn un o gyfarwyddwyr The Really Effective Development Company Ltd, a gafodd £9k, am ddarparu hyfforddiant i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn 2002/03.

## 27 Offerynnau ariannol

Nid oes gan yr FSA unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu i raddau helaeth ar grantiau adrannol am ei gofynion ariannol, ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Nid oes ganddi adneuon sylweddol ychwaith, ac enwir pob ased a rhwymedigaeth berthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg y gyfradd llog na risg arian cyfred.

# 28 Colledion a thaliadau arbennig

Yn ystod y flwyddyn gwnaeth yr FSA golledion neu daliadau arbennig mewn 5 achos gyda chyfanswm gwariant o £145,000. Roedd y mwyafrif o'r gwariant hwn yn ymwneud ag achosion a etifeddwyd oddi wrth y cyn-Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd am gyngor amhriodol i weithfeydd a arweiniodd at waith diangen yn cael ei wneud ar draul y gwaith. Yn ogystal, gwnaeth y Gwasanaeth Hylendid Cig 23 o daliadau arbennig gwerth £102,000 ar gyfer iawndal i staff a cheisiadau am anafiadau personol.

# Cyfarwyddyd Cyfrifon a Roddwyd gan y Trysorlys yn Unol ag Adran 5(2) Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

1. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn gymwys i'r adrannau hynny o'r Llywodraeth a'r cynlluniau pensiwn a restrir yn yr atodiad atodedig.

2. Bydd yr adrannau a'r cynlluniau pensiwn hyn yn paratoi cyfrifon adnoddau am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2003 yn unol ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu y rhifyn o'r Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM sydd mewn grym ar gyfer 2002-03.

3. Bydd y cyfrifon ar gyfer **adrannau'r Llywodraeth** yn cael eu paratoi er mwyn:

   (a) rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2003 ac alldro net yr adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd i'r amcanion, yr enillion a'r colledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben; a

   (b) datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol na chymhwyswyd at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

4. Bydd y cyfrifon ar gyfer cynlluniau pensiwn yn cael eu paratoi er mwyn:

   (a) rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2003 ac alldro net yr adnoddau a'r llifau arian parod am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben; a

   (b) datgelu unrhyw wariant neu incwm perthnasol na chymhwyswyd at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd neu drafodion perthnasol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

5. Bydd cydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau yn angenrheidiol, ym mhob achos heblaw amgylchiadau eithriadol, er mwyn i'r cyfrifon roi darlun gwir a theg. Os, mewn amgylchiadau eithriadol, bydd cydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau yn anghyson â'r gofynion i roi darlun gwir a theg, dylid gwyro oddi wrth ofynion y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i roi darlun gwir a theg. Mewn achosion o'r fath, dylid arddel barn hyddysg a diduedd i lunio triniaeth amgen briodol a ddylai fod yn gyson â nodweddion economaidd yr amgylchiadau dan sylw ac ysbryd y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau. Dylid trafod unrhyw wyro perthnasol oddi wrth y Llawlyfr Cyfrifyddu Adnoddau yn y lle cyntaf gyda'r Trysorlys.

David Loweth
Pennaeth y Tîm Cyfrifyddu Canolog, Trysorlys Ei Mawrhydi
19 Chwefror 2003

Argraffwyd yn y DU gan y Llyfrfa Cyf
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID 128132 02/03 77240

Cyhoeddwyd gan y Llyfrfa
ac mae ar gael:

**Ar-lein**
**www.tso.co.uk/bookshop**

Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Archebion dros y ffacs 0870 600 5533
Archebu drwy Linell Gymorth y Senedd
Lo-call 0845 7 023474
E-bost book.orders@tso.co.uk
Ffôn testun 0870 240 3701

**Siopau'r Llyfrfa**
123 Kingsway, London WC2B 6PQ
020 7242 6393 Ffacs 020 7242 6394
68-69 Bull Street, Birmingham B4 6AD
0121 236 9696 Ffacs 0121 236 9699
9-21 Princess Street, Manchester M60 8AS
0161 834 7201 Ffacs 0161 833 0634
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401
18-19 Heol Fawr, Caerdydd CF10 1PT
029 2039 5548 Ffacs 029 2038 4347
71 Lothian Road, Edinburgh EH3 9AZ
0870 606 5566 Ffacs 0870 606 5588

**Siop Lyfrau'r Senedd**
12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Archebion ffôn/Ymholiadau cyffredinol 020 7219 3890
Archebion dros y ffacs 020 7219 3866

**Asiantau Achrededig y Llyfrfa**
(gweler Yellow Pages)

*a thrwy werthwyr llyfrau da*